Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Cymwysterau Cymru

## Memorandwm Esboniadol

yn cynnwys
yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Mehefin 2015

# Bil Cymwysterau Cymru

## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Cymwysterau Cymru

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru**.**

Fe'i paratowyd yn wreiddiol a'i osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Rhagfyr 2014. Mae Memorandwm diwygiedig wedi'i osod erbyn hyn yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Cymwysterau (Cymru), a gyflwynwyd gennyf i ar 1 Rhagfyr 2014, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Huw Lewis AC**

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Yr Aelod Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros y Bil

2 Mehefin 2015

# CYNNWYS

**RHAN 1**

1. Disgrifiad 6
2. Y cefndir deddfwriaethol 7
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael 8
4. Ymgynghori 32
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth 38

**RHAN 2 - ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

6. Datganiad 45
7. Yr Opsiynau 46
8. Costau a Manteision 54
9. Asesiad o'r Gystadleuaeth ac Asesiadau o Effeithiau Penodol 62
10. Adolygu ar ôl gweithredu 73

ATODIAD A – Nodiadau Esboniadol

ATODIAD B – Prisio’r Opsiynau

ATODIAD C – Geirfa

ATODIAD D – Tabl Tarddiadau

# RHAN 1

# Disgrifiad

1. Mae Bil Cymwysterau Cymru ('y Bil') yn darparu ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff rheoleiddiol annibynnol sy’n gyfrifol am gydnabod cyrff dyfarnu a rheoleiddio cymwysterau a ddyfernir yng Nghymru nad ydynt ar lefel gradd. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd, ynghyd â Gweinidogion Cymru, yn gyfrifol am baratoi rhestr o gymwysterau blaenoriaethol, ar sail pwysigrwydd y cymhwyster i anghenion dysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru. Drwy sefydlu Cymwysterau Cymru, y bwriad yw cryfhau'r broses o oruchwylio cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

# 2. Y cefndir deddfwriaethol

2. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol I wneud darpariaeth ym Mil Cymwysterau Cymru o dan Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf 2006”). Mae’r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2006 yn cael eu nodi yn adran 108 ac Atodlen 7. Mae paragraff 5 yn Rhan 1 o Atodlen 7 yn nodi’r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt, a hynny o dan y pennawd “Education and Training”. Gweler isod:

> ***Education and training***
>
> *5. Education, vocational, social and physical training and the careers service.*
>
> *Promotion of advancement and application of knowledge.*
>
> *Exception –*
> *Research Councils.*

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

## Y Cyd-destun

### Blaenoriaethau Strategol Llywodraeth Cymru

3. Mae cymwysterau yn hollbwysig, nid dim ond i ddysgwyr yng Nghymru, ond i economi Cymru. Yn hanesyddol, mae polisi Cymru o ran cymwysterau, i raddau helaeth, wedi dod dan ddylanwad Lloegr ac, i ryw raddau, mae anghenion dysgwyr Cymru wedi mynd yn eilradd i ofynion polisi Lloegr. Mae'n bryd bellach i Gymru ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb o ran y cymwysterau a gynigir yng Nghymru, a darparu system gymwysterau ar gyfer ein dysgwyr a'n cyflogwyr y gallwn ddibynnu'n hyderus arni i gyflawni eu hanghenion a'u helpu i allu ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae twf a swyddi cynaliadwy yn ganolog i'r *Rhaglen Lywodraethu*, ac mae strategaeth *Cymwys am Oes* Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau (drwy greu Gymwysterau Cymru) bod y cymwysterau a ddatblygir yng Nghymru yn cael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn drwydded gredadwy i ddysg a chyflogaeth bellach.

4. Yn yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*[1] *(Yr Adolygiad o Gymwysterau)*, cymharwyd angen Cymru i fod yn annibynnol ar bolisi Lloegr â sefyllfa'r Alban, gan ddweud:

> Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu un corff (Cymwysterau Cymru)sy'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau nad ydynt ar lefel gradd sydd ar gael yng Nghymru. Dros amser, dylai Cymwysterau Cymru fod yn gyfrifol am ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o'r cymwysterau i ddysgwyr 14 i 16. I ddysgwyr ôl-16, dylai Cymwysterau Cymru ddatblygu a dyfarnu'r rhan fwyaf o'r cymwysterau cyffredinol a dylai hefyd reoleiddio cymwysterau sy'n cael eu darparu gan gyrff dyfarnu eraill. Dylai Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru gydweithio i lunio'r system gymwysterau genedlaethol ar gyfer Cymru a rhesymoli a chryfhau'r prosesau ar gyfer rheoleiddio a gwella'n barhaus, gan ddysgu oddi wrth y model sydd ar waith yn yr Alban.

5. Er bod y polisi wedi esblygu o'r cysyniad gwreiddiol hwn (gweler isod), mae'r weledigaeth ar gyfer corff cymwysterau annibynnol i Gymru yn parhau'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

---

[1] http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/revofqualen/?skip=1&lang=cy

## Hyd a Lled y Bil

6. Mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol yng Nghymru. Mae'n rhoi dau brif amcan i Gymwysterau Cymru sy'n rhoi'r lle canolog i ddysgwyr o fewn y system gymwysterau ac yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ysgwyddo cyfrifoldeb dros effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau - a thros hyder y cyhoedd yn y ddwy elfen hon. Wrth fynd i'r afael â'i brif amcanion, mae'r Bil yn amlinellu cyfres o faterion allweddol y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddynt, ac mae'n rhoi nifer o swyddogaethau i Gymwysterau Cymru, gan gynnwys cydnabod cyrff dyfarnu a chymeradwyo neu ddynodi cymwysterau. Mae'r Bil yn galluogi Cymwysterau Cymru i gydweithio â Gweinidogion Cymru i roi blaenoriaeth i gymwysterau i'w cymeradwyo ar sail eu pwysigrwydd i ddysgwyr a chyflogwyr, ac mae'n rhoi'r gallu i Gymwysterau Cymru gyfyngu ar nifer y fersiynau o gymhwyster y rhoddir blaenoriaeth iddynt y gellir eu cymeradwyo. Gall ddewis, drwy broses agored, deg a chystadleuol, gorff dyfarnu i gydweithio ag ef i ddarparu pob cymhwyster y cyfyngir arno neu o blith nifer o gymwysterau.

7. Ar 1 Hydref 2013, cyhoeddwyd *Ein cymwysterau – ein dyfodol: Ymgynghoriad ar gynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru* a daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 20 Rhagfyr 2013. Mae dadansoddiad o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gyfer y Bil hwn ac o'r ymatebion yn http://wales.gov.uk/consultations/education/our-qualifications-our-future/?skip=1&lang=cy

8. Ar ôl gweld yr ymatebion a ddaeth i law ac ymchwilio ymhellach i'r materion a godwyd, nid yw'r Bil hwn am roi rôl ddyfarnu i Gymwysterau Cymru ar hyn o bryd.

9. Bydd angen deddfwriaeth bellach er mwyn gwneud Cymwysterau Cymru yn gorff dyfarnu yn y dyfodol.

## Craffu Cyn Deddfu

10. Ym mis Mai 2014, aethpwyd ati gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar Fil Cymwysterau Cymru cyn y broses ddeddfu. Fel rhan o'r broses, cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan:

   - Huw Evans, Cadeirydd yr *Adolygiad o Gymwysterau*, a Chadeirydd Bwrdd Cynghori Cymwysterau Cymru
   - Gareth Pierce, Prif Weithredwr CBAC
   - Arwyn Watkin (Prif Weithredwr), Jeff Protheroe (Rheolwr Gweithrediadau) a Faith O'Brien (Cadeirydd Dros Dro) Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

11. Trefnodd y Pwyllgor ymweliadau hefyd â Quality and Qualifications Ireland (QQI) ac ag Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) er mwyn cael gweld sut roedd systemau cymwysterau'r ddwy wlad honno yn gweithio.

12. Roedd adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a ryddhawyd ym mis Gorffennaf 2014 yn cynnwys sawl argymhelliad a oedd yn ategu darpariaethau'r Bil, ac yn mynegi'r un farn ar sawl agwedd ar y polisi.

13. Mae ymateb y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r Adroddiad yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9151

### I ba ardal ddaearyddol y bydd hyn yn berthnasol

14. Mae'r Bil yn berthnasol i Gymru. Mae'r trafodaethau'n parhau gydag Adran Addysg Llywodraeth y DU a Swyddfa Cymru ynghylch rhai materion trawsffiniol sy'n deillio o'r newidiadau arfaethedig.

## Cefndir

### Yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru

15. Wrth ddatblygu'r argymhelliad i sefydlu Cymwysterau Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth i ddatblygu system gymwysterau o'r radd flaenaf i Gymru, a fydd yn darparu cymwysterau ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu parchu gan gyflogwyr a phrifysgolion ac sy'n fodd iddynt symud ymlaen ar hyd eu dewis lwybr.

16. Un o argymhellion yr *Adolygiad o Gymwysterau* oedd y dylai Cymru ddysgu oddi wrth y model sydd ar waith yn y Alban, dan Awdurdod Cymwysterau'r Alban.

17. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, swyddogion Llywodraeth Cymru, ac aelodau o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ymweld â'r Awdurdod fwy nag unwaith. Mae swyddogion wedi parhau i gynnal y berthynas drwy gydol Prosiect Cymwysterau Cymru er mwyn cael cyngor a gwybodaeth.

18. Argymhellodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, o ddeall y pwerau rheoleiddio a roddwyd i Awdurdod Cymwysterau'r Alban gan Ddeddf Addysg (yr Alban) 1996, y dylid ystyried sut i sicrhau a rheoleiddio ansawdd cymwysterau academaidd, ac y dylai'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer hyn.

19. Wrth ymateb i'r cynigion a amlinellwyd ar gyfer rhoi pwerau i Gymwysterau Cymru gael dyfarnu maes o law, mynegodd nifer sylweddol bryderon am gyfuno swyddogaethau rheoleiddio a dyfarnu mewn un corff, a phwysleisiwyd yr angen i fod yn dryloyw a chlir.

20. Nid yw'r Bil hwn yn sôn am swyddogaethau dyfarnu, ond rhoddir dyletswydd ar Gymwysterau Cymru i adolygu'n rheolaidd y rolau a gyflawnir ganddyn nhw fel corff a chan gyrff dyfarnu.

21. Yn ogystal, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru ddod i drefniant gyda chyrff dyfarnu i sicrhau bod cymwysterau blaenoriaethol sydd wedi'u teilwra i Gymru yn cael eu datblygu ac yna'u dyfarnu.

# Y sefyllfa ar hyn o bryd

## Y system reoleiddio gyfredol yng Nghymru

### Pwerau cyfredol Gweinidogion Cymru

22. O dan Ran 5 o Ddeddf Addysg 1997 (Deddf 1997), cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw rheoleiddio cymwysterau perthnasol a datblygu polisi cymwysterau yng Nghymru.

23. Mae Gweinidogion Cymru yn pennu'r gofynion ar gyfer cymwysterau perthnasol (cymwysterau academaidd neu alwedigaethol a ddyfernir neu a ddilysir yng Nghymru ac eithrio gradd sylfaen, gradd gyntaf, neu radd ar lefel uwch) a hefyd ar gyfer cyrff dyfarnu sy'n eu cynnig. Defnyddir nifer o adnoddau yn y gwaith rheoleiddio, gan gynnwys:

- *Cydnabyddiaeth*
  Y cadarnhad bod corff dyfarnu yn bodloni'r meini prawf cydnabod i gyrff dyfarnu sydd am ddyfarnu cymwysterau perthnasol yng Nghymru.

- *Achredu*
  Y cadarnhad bod cymhwyster perthnasol yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol cyn ei gynnig. Mae natur y meini prawf yn amrywio yn ôl y cymhwyster.

24. Rhaid i gorff dyfarnu gyflawni 'amodau cydnabyddiaeth' yn barhaus. Mae Gweinidogion Cymru yn monitro i ba raddau y cydymffurfir â'r amodau hyn fel rhan o'u gwaith rheoleiddio.

25. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru nifer o bwerau o dan Ddeddf 1997 yn adrannau 32A i 32BC y gallant eu defnyddio i orfodi amodau cydnabyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys dirwyo, rhoi cyfarwyddyd a thynnu cydnabyddiaeth yn ôl. Gall cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gymryd cam penodol, neu beidio â'i gymryd, er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag amodau cydnabyddiaeth neu achredu. Mae modd ei orfodi drwy orchymyn llys.

26. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro cymwysterau a gynigir gan gyrff dyfarnu yng Nghymru, ac mae hefyd yn ymchwilio i gwynion a

chamymddwyn mewn perthynas â chymwysterau a gynigir yng Nghymru.

**Gweithio ar draws tair gwlad**

27. Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw rheoleiddio cymwysterau perthnasol a ddilynir gan ddysgwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, lle cynigir yr un cymhwyster yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'u swyddogion cyfatebol ledled Lloegr a Gogledd Iwerddon.

28. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Ofqual yn Lloegr, ac yng Ngogledd Iwerddon gyda'r Council for the Curriculum Examinations and Assessment (CCEA). Caiff llawer o'r cymwysterau galwedigaethol a gynigir yn y tair gwlad hon eu cynnig hefyd yn yr Alban a chaiff rhai eu hachredu gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban.

29. Yn y gorffennol, mae llawer o'r gwaith i ddatblygu a chyhoeddi gofynion ar gyfer cymwysterau a reoleiddir wedi'i wneud ar y cyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Cynllunio, datblygu a rheoleiddio cymwysterau**

30. Yn hanesyddol, mae cymwysterau wedi bod yn cael eu datblygu gan gyrff dyfarnu i'w haddysgu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – ac, yn achos cymwysterau galwedigaethol, yn yr Alban.

31. Bu Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm Lloegr (a aeth yn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm a Datblygu Lloegr yn nes ymlaen) i ddatblygu meini prawf ar gyfer cymwysterau newydd fel TGAU a Safon Uwch – gan ganolbwyntio ar newidiadau yn y cwricwla. Wrth ddatblygu'r meini prawf hyn, bu'r cyrff yn trafod gyda rhanddeiliaid perthnasol y sector, arbenigwyr pynciau ac athrawon, ymhlith cynrychiolwyr eraill.

32. Mae lefel manylion y meini prawf ar gyfer cymwysterau a reoleiddir yn amrywio; mae gan rai cymwysterau, fel TGAU neu Safon Uwch, feini prawf manylach nag eraill.

33. Pennir lefel ar gyfer cymwysterau yn nodi pa mor anodd y maent, a chaiff rhai – cymwysterau galwedigaethol yn bennaf – werth credyd ar sail y lefel a'r amser y disgwylir i ddysgwr ei gymryd, ar gyfartaledd, i gwblhau'r cymhwyster.

34. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â rôl fwy yn hyn o beth mewn dwy ffordd: mae wedi datblygu gofynion ar gyfer mwy o gymwysterau Cymru yn unig, ac mae wedi gweithio'n agosach gyda chyrff dyfarnu i nodi gofynion manylach.

**Dyfarnu cymwysterau yng Nghymru**

35. Ar hyn o bryd, mae dyfarnu cymwysterau TGAU a Safon Uwch yn digwydd o fewn strwythur marchnad gystadleuol lle mae pump corff dyfarnu yn gallu cynnig y cymwysterau hyn yng Nghymru: AQA, CCEA, Edexcel, OCR a CBAC.

36. Cydnabuwyd dros 120 o gyrff dyfarnu eraill hefyd i gynnig cymwysterau eraill a reoleiddir yng Nghymru. Cymwysterau galwedigaethol a ddyfernir gan y rhain yn bennaf.

37. Mae cyrff dyfarnu yn rhydd i ddatblygu cymwysterau sy'n bodloni'r gofynion a gyhoeddwyd, gyda chynnwys a strwythur asesu sydd, yn eu barn nhw, yn ateb anghenion eu 'canolfannau' neu eu 'darparwyr dysgu' yn y ffordd orau; hy ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant preifat ac amgylcheddau dysgu yn y gweithle sy'n paratoi ac yn cofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau. Un o ganlyniadau marchnad gystadleuol yw bod cymwysterau gwahanol iawn yn dwyn yr un teitl neu deitlau tebyg yn aml.

38. Yn gyffredinol, mae sawl elfen yn gallu dylanwadu ar ddewis canolfan, er enghraifft:

- anghenion dysgwyr a/neu’r hyn sy’n well ganddynt;
- mesurau perfformiad ar gyfer sefydliadau;
- cyfyngiadau o dan adrannau 96 i 102 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau (2000) mewn perthynas â rhoi cyllid cyhoeddus i gyrsiau dysgwyr o dan 19 oed;
- amodau cyllid ar gyfer sefydliadau addysg bellach a dysgu yn y gweithle;
- yr hyn a ffefrir gan ymarferwyr o ran cynnwys penodol neu ddulliau asesu;
- safbwyntiau sefydliadau addysg uwch neu gyflogwyr.

39. Bydd cyrff yn dyfarnu cymwysterau unwaith y byddant yn fodlon bod y dysgwyr wedi cyflawni’r gofynion. Yn achos rhai cymwysterau, er enghraifft TGAU a Safon Uwch, mae hyn yn golygu gwneud penderfyniad ynghylch pa raddau y mae dysgwyr wedi’u hennill. Yn achos TGAU a Safon Uwch, rheoleiddwyr Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd wedi llywio’r dull o wneud hynny, tan yn ddiweddar – er bod data am ddysgwyr yn Lloegr wedi dylanwadu’n gryf ar hyn.

40. Yn achos cymwysterau eraill, gan gynnwys llawer o gymwysterau galwedigaethol, mae penderfyniadau dyfarnu yn golygu penderfynu a yw dysgwyr wedi darparu digon o dystiolaeth eu bod wedi cyrraedd lefel y cymhwysedd sy’n ofynnol i ennill y cymhwyster.

**Mwy am ddyfarnu cymwysterau yng Nghymru**

41. Unwaith bydd cymwysterau wedi'u hachredu, gall cyrff dyfarnu farchnata a dyfarnu'r cymwysterau yng Nghymru fel rhai a achredwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith y tu ôl i ddyfarnu cymhwyster yn cynnwys cynllunio, cynhyrchu, cyfieithu a dosbarthu papurau, tasgau, cynlluniau marcio, deunydd cymorth addysgu ac adnoddau eraill (cylchlythyrau, adnoddau sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus/sesiynau un-i-un), recriwtio a hyfforddi arholwyr, trefnu cyfarfodydd i arholwyr a chymedrolwyr, creu data fel sail i benderfyniadau dyfarnu, cynhyrchu'r canlyniadau, ymateb i ymholiadau yn dilyn canlyniadau, a chreu tystysgrifau.

42. Mae canolfannau yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o asesu cymwysterau, ac mae eu gwaith yn amrywio o gofrestru ar gyfer arholiadau, gweinyddu a goruchwylio i ymrwymiadau fel cynllunio tasgau neu brofion, marcio, cymedroli a dilysu. Beth bynnag yw lefel cyfraniad canolfannau i'r broses, mae'r corff dyfarnu yn atebol i Lywodraeth Cymru am ddyfarnu'r cymhwyster/cymwysterau.

43. Yn y bôn, rhywbeth gwirfoddol yw'r broses reoleddio gan nad yw'n ofynnol o dan y gyfraith i gyrff dyfarnu gael eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru. Serch hynny, os caiff corff ei gydnabod a'i reoleiddio gan Weinidogion Cymru, gallai ei gymhwyster achrededig gael ei ddefnyddio ar raglenni dysgu a gyllidir gan gyllid cyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed (Deddf Dysgu a Sgiliau (2000), a.96 ac a.99).

44. Dim ond cymwysterau a achredwyd a gaiff eu hystyried wrth fesur perfformiad darparwyr dysgu, felly bydd hyn yn gymhelliad pellach.

45. Yn ogystal, mae cyrff dyfarnu yn rhoi gwerth ar y statws a roddir iddynt yn sgil eu rheoleiddio, ac ar gael defnyddio logo Llywodraeth Cymru ar eu tystysgrifau, sy'n dynodi bod y cymhwyster wedi'i achredu.

**Ffioedd**

46. Mae cyrff dyfarnu yn codi ffi ar ganolfannau am gofrestru ymgeiswyr – sy'n tueddu i gynnwys pob gwasanaeth hyd at ddarparu tystysgrif (ond nid yw'n cynnwys ymholiadau yn dilyn canlyniadau oni bai bod y radd yn cael ei newid neu fod ymgeisydd yn cael ailsefyll).

47. Efallai y codir ffioedd ychwanegol am wasanaethau ychwanegol fel darparu deunyddiau dysgu.

48. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer o dan adran 32(3) o Ddeddf 1997 i godi ffioedd am gydnabod cyrff neu am achredu neu gymeradwyo cymwysterau, ond ar hyn o bryd nid yw'n gwneud hynny.

### Diffygion y system gyfredol

49. Ymhlith diffygion y system a'r ddeddfwriaeth gyfredol mae:

- y ffaith nad oes yna un sefydliad penodol sy'n ymroddedig i sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau;

- nad oes unrhyw bwerau i roi blaenoriaeth i rai cymwysterau a thrwy hynny sicrhau bod modd canolbwyntio ar y cymwysterau y mae angen eu rheoleiddio fwyaf - sy'n golygu bod yna nifer fawr o gymwysterau yn cael eu rheoleiddio ond bod yr adnoddau yn brin i sicrhau bod y gwaith yn effeithiol;

- nad oes unrhyw bwerau penodol i ddewis un darparwr ar gyfer cymhwyster penodol i sicrhau bod dysgwyr ledled Cymru yn cymryd yr un cymhwyster;

- nad oes digon o gapasiti i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cymwysterau yn strategol o fewn y trefniadau cyfredol - gan greu risg na chaiff cymwysterau Cymru eu parchu, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gymaint â chymwysterau cenhedloedd eraill.

## Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

50. Bwriad y ddeddfwriaeth yw mynd i'r afael â'r pedwar mater uchod.

**Nid oes yna un sefydliad penodol sy'n ymroddedig i sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau**

### Prif Amcanion Cymwysterau Cymru

51. Mae adran 2 o’r Bil yn rhoi'r prif amcanion canlynol i Gymwysterau Cymru, a bydd yn rhaid iddo weithredu'n gydnaws â'r rhain wrth gyflawni ei swyddogaethau:

a) Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn llwyddo'n effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;

b) Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

52. Mae'r prif amcan cyntaf yn rhoi'r cyfrifoldeb i Gymwysterau Cymru dros sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru. Er bod hon yn dasg eang, mae'r Bil hefyd yn rhoi'r pwerau i Gymwysterau Cymru benderfynu ar ffocws ei weithgarwch wrth gymeradwyo cymwysterau (gweler Rhan 4) (cymwysterau blaenoriaethol a chymeradwyo cymwysterau). Mae'r

amcan hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros effeithiolrwydd y system gymwysterau yng Nghymru - yn ogystal â'r cymwysterau eu hunain. Y 'system' yw'r seilwaith sy'n sail i ddarparu cymwysterau ac yn gwneud y gwaith yn bosibl - mae'n cwmpasu *sut* y caiff cymwysterau eu datblygu, eu darparu a'u dyfarnu, yn ogystal â *beth* gaiff ei ddatblygu, ei ddarparu a'i ddyfarnu.

53. Mae'r ail brif amcan yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ennyn hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a'r system sy'n eu cynnal. Er mwyn i'r cymwysterau a'r system fod yn wirioneddol effeithiol, mae'n rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus ynddynt. Gallai asesiad o hyder y cyhoedd gynnwys, er enghraifft, lefel hyder cyflogwyr, darparwyr dysgu, dysgwyr a rhieni.

54. Y cysylltiad rhwng effeithiolrwydd cymwysterau, y system gymwysterau ac economi Cymru yw bod llawer o gymwysterau yn diffinio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr er mwyn gwneud cyfraniad effeithiol i economi Cymru. Ar yr un pryd, mae twf economi Cymru yn dibynnu ar weithlu medrus - ac mae cymwysterau yn rhoi amcan i gyflogwr o sgiliau darpar-weithwyr ac yn llinyn mesur wrth ddatblygu sgiliau'r gweithlu presennol.

55. Dylai'r system gymwysterau yng Nghymru adlewyrchu ei hethos addysgol gynhwysol a gallu ymateb yn effeithiol i anghenion cenedl ddwyieithog a'i chyfoeth o ddiwylliant. Ar hyn o bryd, mae'r dewis sydd ar gael o gymwysterau y gellir eu hastudio drwy'r Gymraeg yn amrywio, yn enwedig yn achos cymwysterau galwedigaethol, ac mae angen gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog yn yr holl gymwysterau a gynigir yng Nghymru.

56. Yn ogystal â'r uchod, mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu rhestr anghyflawn o faterion y bydd yn rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddynt wrth gyflawni ei swyddogaethau (adran 3(2)):

- Hyrwyddo twf cynaliadwy o fewn economi Cymru
- Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy gynnig trefniadau asesu yn y Gymraeg, a chymwysterau sy'n hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffyrdd eraill
- Amrywiaeth a natur y cymwysterau sydd ar gael, a'u trefniadau asesu
- Gofynion rhesymol cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a phroffesiynau o ran addysg a hyfforddiant (gan gynnwys safonau cymhwysedd ymarferol gofynnol)
- A yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae gofyn i ddysgwr eu dangos wrth benderfynu a ddylid dyfarnu cymhwyster iddo yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r arferion gorau cyfredol

- A yw'r cymwysterau yn arwyddo lefel cyrhaeddiad sy'n gyson â'r cymwysterau y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn rhai cyfatebol, p'un a gânt eu dyfarnu yng Nghymru neu yn rhywle arall

- A yw'r cymwysterau yn cael eu darparu mewn ffordd effeithlon gan sicrhau gwerth am arian

- Gwahanol rolau a chyfrifoldebau cyrff dyfarnu, darparwyr dysgu, Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â system gymwysterau Cymru, ac unrhyw un arall sy'n cyflawni swyddogaethau y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn berthnasol i ddiben y system honno (gan gynnwys y cydweithredu rhwng yr unigolion hynny, a'u heffeithiolrwydd yn cyflawni eu rolau).

57. Nod y materion uchod i gyd yw gofalu mai amcan cyson y sefydliad fydd sicrhau budd hirdymor Cymru a'i dysgwyr. I ategu hyn ymhellach, mae'r Bil yn darparu y bydd yn rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw hefyd i bolisi perthnasol Llywodraeth Cymru a materion eraill lle bydd Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd iddo wneud hynny (gweler adran 52(1)).

**Annibyniaeth y corff**

58. Bydd Cymwysterau Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru o ran ei brif amcanion a'i swyddogaethau yn ymwneud â chymwysterau, a bydd yn darparu ei adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) (gweler Atodlen 1, para 28 o'r Bil).

59. Gan y caiff Cymwysterau Cymru ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, bydd ganddo ddogfen ‘fframwaith’ a fydd yn amlinellu'r cyfrifoldebau sydd arno mewn perthynas â Llywodraeth Cymru (yn enwedig ei gyfrifoldebau ariannol). Uned noddi o fewn Llywodraeth Cymru fydd yn goruchwylio’r cyfrifoldebau a nodir.

60. Rhagwelir y bydd polisi – er enghraifft o ran y cwricwlwm a strategaethau sgiliau, capasiti’r gweithlu a dangosyddion mesur perfformiad – yn destun deialog reolaidd rhwng uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn tanseilio annibyniaeth Cymwysterau Cymru wrth ddatblygu a gweithredu polisi rheoleiddio mewn perthynas â chymwysterau.

61. Er na fydd Llywodraeth Cymru yn pennu blaenoriaethau blynyddol na chynllun busnes Cymwysterau Cymru, mae’n debygol y bydd yna faterion polisi y bydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i dynnu sylw Cymwysterau Cymru atynt, neu efallai weithgareddau ychwanegol y bydd yn dymuno gofyn i Gymwysterau Cymru eu cyflawni ar ei rhan (er enghraifft prosiectau ymchwil ym maes cymwysterau).

62. Cynhyrchir llythyr dyrannu grant blynyddol yn nodi meysydd penodol y dylid canolbwyntio arnynt neu weithgareddau a fyddai'n ategu'r swyddogaethau craidd. Bydd hefyd yn setlo'r grant blynyddol a ddarperir ar gyfer Cymwysterau Cymru am gyflawni ei swyddogaethau. Mae'r Bil (Atodlen 1, paragraff 31) yn darparu'r pŵer ar gyfer Gweinidogion Cymru i gyllido Cymwysterau Cymru drwy grantiau.

63. Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol fydd yn dal â'r pŵer i benderfynu pa raglenni dysgu i'w cyllido (mewn ysgolion a gynhelir).

64. Ar hyn o bryd, mae yna gyfyngiad ar y cyllid cyhoeddus a roddir i gyrsiau addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr o dan 19 oed sy'n arwain at gymwysterau (adrannau 96, 99, 100 a 102 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000). Yn gyffredinol, ceir rhoi cyllid cyhoeddus i gwrs sy'n arwain at gymhwyster a achredwyd gan Weinidogion Cymru, er nad yw hyn yn golygu y cânt eu cyllido'n gyhoeddus. Mae'r Bil (adran 33) yn darparu na ddylid cyllido cyrsiau o'r fath yn gyhoeddus (hy eu cyllido gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdodau lleol yng Nghymru, neu eu darparu gan neu ar ran ysgol a gynhelir yng Nghymru) oni bai bod y cwrs yn arwain at gymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo gan Gymwysterau Cymru o dan Ran 4 y Bil neu wedi'i ddynodi gan Gymwysterau Cymru o dan Ran 5 y Bil *ac* yn cydymffurfio â chyfyngiadau penodol (os oes yna rai) mewn perthynas â'r cymeradwyo neu'r dynodi. Mae yna eithriadau o dan y Bil. Nid yw'r cyfyngiad hwn ar gyllid yn berthnasol i gwrs a ddarperir ar gyfer person ag anawsterau dysgu. Nid yw'n berthnasol chwaith i gyrsiau sydd wedi'u dynodi gan Weindogion Cymru.

65. Er mai'r gobaith yw y bydd ysgolion annibynnol yng Nghymru yn dewis cynnig cymwysterau sydd wedi eu cynllunio'n benodol ar gyfer Cymru, byddant yn rhydd i gynnig unrhyw gymwysterau, ac ni fydd cyrff dyfarnu (p'un a ydynt yn cael eu cydnabod gan Gymwysterau Cymru ai peidio) yn cael eu gwahardd rhag cynnig unrhyw un o'u cymwysterau i ysgol annibynnol.

66. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad deddfwriaethol ar y sawl sy'n darparu rhaglenni ar gyfer dysgwyr dros 19 oed, a gyllidir yn gyhoeddus, i sicrhau bod y cymwysterau a ddewisir wedi eu hachredu neu wedi eu cymeradwyo mewn ffordd arall gan Weinidogion Cymru.

67. O ran rhai rhaglenni ôl-19, er ei bod yn debygol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol, o fewn telerau ac amodau unrhyw grantiau neu drefniadau cyllido, fod y cymwysterau a ddefnyddir ar rai rhaglenni yn cael eu dewis o blith y rheini a gymeradwyir gan Gymwysterau Cymru, ni ddarperir ar gyfer hyn yn y Bil.

**Rôl bosibl Cymwysterau Cymru yn y dyfodol**

68. Bwriad y polisi yn y tymor canolig a'r tymor hir yw rhoi'r swyddogaethau dyfarnu i Gymwysterau Cymru. Fodd bynnag, bydd angen deddfwriaeth

ar wahân ar gyfer hynny.  Yn y cyfamser, bydd y Bil yn gwneud darpariaeth bod yn rhaid i Gymwysterau Cymru adolygu ei rôl o fewn system gymwysterau Cymru a rôl cyrff dyfarnu yn barhaus (adran 45(2)) – gallai hyn olygu adolygu ei berthynas â chyrff dyfarnu, er enghraifft. Y disgwyl yw y bydd y sefydliad maes o law yn gyfrifol am gynnal adolygiad ffurfiol i roi sylw i'r modd y gallai ddod yn gorff dyfarnu ei hunan.

**Nid oes unrhyw bwerau i roi blaenoriaeth i rai cymwysterau a thrwy hynny sicrhau bod modd canolbwyntio ar y cymwysterau y mae angen eu rheoleiddio fwyaf - sy'n golygu bod yna nifer fawr o gymwysterau yn cael eu rheoleiddio ond bod yr adnoddau yn brin i sicrhau bod y gwaith yn effeithiol**

69. Mae Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd i gytuno ar restr o gymwysterau, neu ddisgrifiadau o gymwysterau, a fydd yn flaenoriaeth i Gymwysterau Cymru, a chyhoeddi'r rhestr honno (gweler adran 13).  Bwriad y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol yw galluogi Cymwysterau Cymru i ganolbwyntio adnoddau cyhoeddus ar y cymwysterau pwysicaf yn y ffordd fwyaf effeithiol. Er mwyn i gymhwyster gael ei restru, rhaid i Gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru fod yn fodlon bod hyder y cyhoedd ynddo yn flaenoriaeth, gan fod y cymhwyster yn arbennig o bwysig i ddysgwyr a/neu gyflogwyr yng Nghymru.

70. Bydd y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol yn galluogi Cymwysterau Cymru i roi blaenoriaeth briodol i'w weithgarwch wrth gymeradwyo cymwysterau, gan roi'r hyblygrwydd hefyd i ystyried a ddylid cymeradwyo cymhwyster nad yw'n flaenoriaeth ai peidio, ynghyd â'r hyblygrwydd i ddynodi cymwysterau nad ydynt wedi'u cymeradwyo, lle bo'n briodol, fel rhai sy'n gymwys i gael eu cyllido'n gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed.

71. Mae'r Bil yn darparu (adran 18), lle cyflwynir cymwysterau blaenoriaethol digyfyngiad gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig i'w cymeradwyo, fod yn rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried a ddylid cymeradwyo'r fersiwn o'r cymhwyster i'w ddyfarnu yng Nghymru gan y corff dyfarnu dan sylw.  Os bydd yn penderfynu ei bod yn briodol gwneud hynny, gall gymeradwyo'r cymhwyster. Bydd gan Gymwysterau Cymru y rhyddid (adran 19) i beidio ag adolygu cymhwyster i'w gymeradwyo os nad yw ar y Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol, cyn belled â bod y penderfyniad i wneud hynny yn glir, ac yn unol â'r broses benderfynu a nodir mewn cynllun, y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru ei gyhoeddi.

72. Gall Cymwysterau Cymru hefyd reoleiddio cymwysterau nad ydynt wedi'u cymeradwyo a ddyfarnwyd gan gorff dyfarnu cydnabyddedig yn erbyn amodau cydnabyddiaeth. Bydd hyn yn berthnasol i gymwysterau a dynodwyd, ond hefyd i unrhyw gymwysterau eraill a ddyfarnwyd gan y cyrff hynny yng Nghymru (cyn belled â bod y corff yn cael ei gydnabod mewn perthynas â'r cymhwyster dan sylw). I ryw raddau, mae hyn yn

diogelu dysgwyr yng Nghymru sy’n dilyn cyrsiau cymwysterau a ddyfarnwyd gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig.

**Nid oes unrhyw bwerau penodol i ddewis un darparwr ar gyfer cymhwyster penodol i sicrhau bod dysgwyr ledled Cymru yn cymryd yr un cymhwyster**

73. Mae'r Bil hefyd yn sefydlu (adran 14) categori o gymwysterau a elwir yn gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig, sef cymwysterau blaenoriaethol y gall Cymwysterau Cymru gyfyngu ar y fersiynau ohonynt y ceir eu cymeradwyo i nifer penodol (cyn lleied ag un o bosibl). Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Gymwysterau Cymru (adran 15) i wneud trefniadau er mwyn datblygu cymhwyster o'r fath. Trafodir y rhain isod.

74. Mae Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn anarferol ymhlith gwledydd Ewrop yn yr ystyr bod strwythur i farchnad eu cymwysterau ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau. O fewn y strwythur hwn, darperir y cymwysterau gan gyrff dyfarnu sy’n cystadlu â’i gilydd ac sy’n cynnig fersiynau gwahanol o’r ‘un’ cymhwyster. Er enghraifft, ar hyn o bryd, gall ysgolion yng Nghymru sydd am i’w dysgwyr gymryd TGAU Ffrangeg ddewis o bum fersiwn wahanol o TGAU Ffrangeg, pob un yn cael ei gynnig gan gorff dyfarnu gwahanol (CBAC, OCR, AQA, Edexcel (Pearson) neu CCEA). Mewn rhai pynciau, cymhlethir hyn ymhellach gan y ffaith bod pob corff dyfarnu yn cynnig mwy nag un fersiwn o gymhwyster sydd â’r un enw. Er enghraifft, mae CBAC yn cynnig dwy fersiwn wahanol o TGAU Daearyddiaeth.

75. O fewn y strwythur cymhleth hwn, mae’n anodd sicrhau cyfatebiaeth. Mae’r rheoleiddwyr yn cymharu’r fersiynau gwahanol yn fanwl i sicrhau eu bod yn cyfateb i’w gilydd, er nid ‘yr un fath’ (ar hyn o bryd, gall cynnwys pob fersiwn fod yn wahanol a gellir eu hasesu’n wahanol, o fewn meini prawf sydd ar lefel uchel iawn).

76. Mae’r rheoleiddwyr a’r cyrff dyfarnu eu hunain yn treulio llawer o amser yn gwneud mwy o waith cymhleth i sicrhau bod y lefel cyrhaeddiad y mae’n rhaid i ddysgwr ei ddangos er mwyn ennill gradd benodol yn gyson ar draws gwahanol fersiynau o’r un cymhwyster. Ar hyn o bryd mae’r gwaith hwn yn dibynnu ar gymariaethau ystadegol soffistigedig.

77. Er gwaethaf y gwaith hwn, mae’r system yn dal i fod yn agored i honiadau (boed yn wir neu beidio) bod rhai cymwysterau yn ‘haws’ nag eraill. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, yn achos fersiynau gwahanol o TGAU yn yr un pwnc, lle mae rhai yn honni bod manyleb un corff dyfarnu yn haws na manyleb cyrff eraill, neu awgrymiadau mwy cyffredinol bod holl gymwysterau un corff dyfarnu yn ‘haws’ na chymwysterau un arall.

78. Rhagwelir y bydd cyflwyno'r Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol ac, o fewn honno, restr o gymwysterau cyfyngedig, yn helpu i symleiddio’r system gymwysterau drwy sefydlu un gyfres o gymwysterau ar gyfer rhai mathau o bynciau.

79. Lle penderfynir bod cymhwyster blaenoriaethol yn gymhwyster cyfyngedig, bydd yn golygu bod Cymwysterau Cymru yn penderfynu mai hyn a hyn o fersiynau o'r cymhwyster y gellir eu cymeradwyo ar unrhyw un adeg. Er mwyn gwneud penderfyniad o'r fath, rhaid i Gymwysterau Cymru fod yn fodlon mai dyma'r peth gorau i'w wneud, o ystyried ei brif amcanion, ei ddymuniad i osgoi anghysondeb rhwng gwahanol fersiynau o'r cymhwyster, a'i ddymuniad i roi'r gallu iddo'i hun i ddewis rhwng gwahanol gyrff dyfarnu (wrth ddod i drefniant o dan adran 15) a rhwng gwahanol fersiynau o gymhwyster (wrth roi cymeradwyaeth o dan adran 17).

80. Rhoddir pŵer i Gymwysterau Cymru ddod i drefniant gyda chorff dyfarnu er mwyn iddo ddatblygu cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig, gyda'r nod o gymeradwyo'r cymhwyster hwnnw. Trefniant comisiynu yw hwn, a bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi cynllun yn amlinellu sut mae'n bwriadu cyflawni'r swyddogaethau hyn a sut y bydd yn gweithredu gweithdrefn sy'n agored, yn deg ac yn dryloyw fel y bydd cyrff dyfarnu ac eraill yn gwybod am y broses.

81. Nid oes angen i gorff gael ei gydnabod cyn cyflwyno trefniadau o'r fath, ond rhaid i'r corff dyfarnu sicrhau ei fod wedi cael cydnabyddiaeth cyn y gellir cymeradwyo'r cymhwyster a ddatblygwyd. Pan wneir cais i gymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a ddatblygwyd o dan y trefniadau y darperir ar eu cyfer yn y Bil, bydd yn rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried a ddylid cymeradwyo'r cymhwyster ai peidio a gall gymeradwyo'r cymhwyster lle bydd hynny'n briodol (gweler adran 16).

82. Fel arall, gall cyrff dyfarnu hefyd gyflwyno cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig, lle na fydd Cymwysterau Cymru wedi gwneud unrhyw drefniadau comisiynu (gweler adran 17).

83. Lle gwneir cais i gymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig <u>nad</u> yw wedi'i ddatblygu o dan y trefniadau comisiynu, gall Cymwysterau Cymru ddewis y fersiwn neu'r fersiynau o gymhwyster y bydd yn ei/eu g/cymeradwyo. Unwaith eto, bydd yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi cynllun yn amlinellu sut dylid gwneud ceisiadau a sut bydd yn ystyried y ceisiadau hynny ac yn dewis o'u plith. Mae o dan ddyletswydd i sicrhau bod ei weithdrefnau cymeradwyo yn agored, yn deg ac yn dryloyw, fel o'r blaen.

84. Yn y ffordd hon, lle bydd Cymwysterau Cymru o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, gellir newid system gymwysterau Cymru o fod yn un sy'n ymateb i'r cyflenwad i fod yn un sy'n ymateb i'r galw, gan sicrhau bod nifer llai o gymwysterau, a'r rheini'n gymwysterau gwell, yn cynnig gwerth am arian a dewis syml i ganolfannau a dysgwyr sy'n diwallu anghenion dysgwyr a'r economi mewn ffordd well.

85. Rhagwelir y bydd galluogi Cymwysterau Cymru i wneud trefniadau â chyrff dyfarnu (adran 15) i ddatblygu cymhwyster yn sicrhau y gellir teilwra cymwysterau yng Nghymru i'w hanghenion economaidd ac addysgol, gan eu cymharu'n drwyadl ar yr un pryd â chymwysterau cyfatebol mewn gwledydd cyfagos a gwledydd pellach i ffwrdd.

86. Os na fydd ond un corff dyfarnu a darparu ar gyfer cymhwyster penodol, mae'n bwysig bod Cymwysterau Cymru:

a) yn meddu ar y ddealltwriaeth angenrheidiol o'r farchnad iddo allu asesu effeithiau'r camau y mae'n eu cymryd ac ystyried yn ofalus strategaethau priodol;

b) yn creu dulliau o weithio'n agosach gydag athrawon a dysgwyr, o ran pennu gofynion a monitro'r hyn a ddarperir yn erbyn y gofynion hyn;

c) yn dilyn proses agored a thryloyw o wneud penderfyniadau, yn unol â gofynion ei gynlluniau sy'n manylu ar gyfyngu ar gymhwyster a threfniadau â chyrff dyfarnu.

87. Rhagwelir y bydd angen i Gymwysterau Cymru gymryd camau priodol i greu system arall ar gyfer comisiynu a chymeradwyo. Cymwysterau Cymru sydd yn y sefyllfa orau i reoli ei brosesau ei hun yn hyn o beth, ac mae Rhan 4 ac Atodlen 1 o'r Bil yn rhoi pwerau a strwythurau corfforaethol o bob math iddo i'w alluogi i wneud hynny.

88. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru (gan gydweithio â Gweinidogion Cymru, yn achos cymhwyster blaenoriaethol) bennu unrhyw gymhwyster yn gymhwyster blaenoriaethol neu'n gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig. Er y bydd rhai cymwysterau galwedigaethol yn parhau i fodoli o fewn marchnad lle mae mwy nag un darparwr, bydd yn bosibl i Gymwysterau Cymru benderfynu mai sicrhau un gyfres sydd fwyaf priodol ar gyfer cymwysterau eraill.

89. Mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru (adran 46) greu a chyhoeddi datganiadau polisi am ei swyddogaethau cydnabod, cymeradwyo, dynodi a gorfodi, yn ogystal â'i bwerau adolygu, er mwyn rhoi syniad clir i gyrff dyfarnu ac eraill sut mae'n bwriadu cyflawni'r swyddogaethau hynny.

**Nid oes digon o gapasiti i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cymwysterau yn strategol o fewn y trefniadau cyfredol - gan greu risg na chaiff cymwysterau Cymru eu parchu, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gymaint â chymwysterau cenhedloedd eraill**

**Pŵer i wneud gwaith ymchwil**

90. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth (adran 45(3)) i Gymwysterau Cymru allu cynnal rhaglenni ymchwil i unrhyw fater sy'n ymwneud â

chymwysterau, a allai gynnwys maes cynllunio a darparu cymwysterau, gyda'r nod o ddatblygu'r arferion gorau, asesu sut mae cymwysterau yng Nghymru yn cymharu â chymwysterau gwledydd eraill, a nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi.  Bydd yn gallu defnyddio'r ymchwil i'w helpu i ddatblygu polisi rheoleiddio a meini prawf, ac i hyrwyddo'r arferion gorau ym maes cymwysterau - yn ogystal â rhoi cyngor i Weinidogion Cymru, pan ofynnir amdano (adran 50) neu fel arall.

**Amodau cydnabod a chymeradwyo**

91. Bydd Cymwysterau Cymru yn gallu cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â chymwysterau academaidd neu alwedigaethol a ddyfernir yng Nghymru, ac eithrio graddau sylfaen, graddau cyntaf, neu raddau ar lefel uwch (adran 55).

92. Mae dau fath o gydnabyddiaeth - cyffredinol a phenodol. Mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru bennu meini prawf cydnabod cyffredinol, a gall bennu meini prawf cydnabod penodol ar gyfer cyrff dyfarnu. Gall cyrff dyfarnu wneud cais i Gymwysterau Cymru am gydnabyddiaeth ac, os bydd y cyrff dyfarnu yn bodloni'r meini prawf, bydd yn rhaid i Gymwysterau Cymru eu cydnabod (Rhan 3). Caiff unrhyw gymhwyster a ddyfernir gan gorff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru ei reoleiddio o dan yr amodau cydnabod sy'n berthnasol i'r corff hwnnw (ac, os yw'n gymwys, i'r cymhwyster hwnnw) – cyn belled â bod y corff wedi'i gydnabod mewn perthynas â'r cymhwyster dan sylw. I ryw raddau, bydd hyn yn diogelu dysgwyr gan y bydd yn galluogi Cymwysterau Cymru i ystyried, er enghraifft, gwynion am unrhyw gymhwyster (o fewn cylch cydnabyddiaeth y corff dyfarnu) a ddarperir yng Nghymru.

93. Mae cydnabyddiaeth gyffredinol yn berthnasol i bob cymhwyster, ac eithrio'r rheini y mae yna feini prawf cydnabod penodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, gall corff ddewis peidio â chael ei gydnabod mewn perthynas â chymwysterau a fyddai, fel arall, yn cael cydnabyddiaeth gyffredinol (naill ai drwy eu heithrio o'i gais am gydnabyddiaeth gyffredinol, neu drwy ildio'r gydnabyddiaeth). Mae cydnabyddiaeth benodol yn golygu bod y corff yn cael ei gydnabod yn gyffredinol, a'i gydnabod mewn perthynas â chymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster y mae yna feini prawf penodol ar ei gyfer. Mae'r Bil (Rhan 3) yn mynd i'r afael â mater ceisiadau am gydnabyddiaeth ac yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru wneud rheolau ynghylch ceisiadau o'r fath (adran 10).

94. At hyn, gall cyrff dyfarnu sydd wedi'u cydnabod gan Gymwysterau Cymru (Rhan 3) gyflwyno cymhwyster i'w gymeradwyo neu ei ddynodi. Mae Rhan 4 o'r Bil yn mynd i'r afael â mataer cymeradwyo cymwysterau, gyda phŵer tebyg i Gymwysterau Cymru i greu rheolau am geisiadau am gymeradwyaeth. Mae Rhan 5 o'r Bil yn mynd i'r afael â mater dynodi cymwysterau.

95. Mae'n bosibl y bydd yna amodau ar gyfer cydnabod (Atodlen 3) a chymeradwyo (Rhan 4). Os torrir yr amodau, gallai Cymwysterau Cymru

gymryd camau gorfodi (Rhan 7), sef dirwyo, rhoi cyfarwyddyd, adennill costau a llog gorfodi a mynd i safle a'i arolygu (ar ôl cael gorchymyn llys i gael gwneud hynny, ac mewn achosion prin a ddisgrifir yn y Bil).

96. Mae yna ddarpariaethau manwl hefyd ar gyfer tynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi wrth gorff (Atodlen 3, paragraff 19) neu dynnu'n ôl statws cymhwyster fel un a gymeradwywyd (adran 27). Mae sawl amod ynghlwm wrth hyn yn y Bil, gan gynnwys rhoi gwybod i'r corff dyfarnu a rhoi cyfle iddo ymateb cyn cymryd y camau arfaethedig. Gall corff dyfarnu hefyd ildio cymeradwyaeth ac ildio cydnabyddiaeth (gall fod yn ildio rhannol, neu'n ildio ar gydnabyddiaeth mewn perthynas â phob cymhwyster sydd wedi'i gydnabod).

97. Mae Rhan 5 o'r Bil yn galluogi Cymwysterau Cymru i ddynodi cymwysterau fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar gyrsiau addysg neu hyfforddiant i ddysgwyr o dan 19 oed a gyllidir yn gyhoeddus. Mae'n nodi dwy amod yn benodol y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru fod yn fodlon eu bod wedi'u cyflawni er mwyn dynodi – gan gynnwys a yw dynodi ar y pryd yn opsiwn mwy priodol na chymeradwyo. Mae yna derfyn amser i ddynodiadau a wneir gan Gymwysterau Cymru a byddant yn dod i ben yn gynharach os daw cydnabyddiaeth y corff dyfarnu i ben, os caiff y cymhwyster ei gymeradwyo, pan gymeradwyir unrhyw fersiwn flaenoriaethol gyfyngedig o'r cymhwyster, neu os caiff ei ddiddymu. Mae diddymu dynodiadau yn gysylltiedig â blynyddoedd academaidd: erbyn 31 Rhagfyr ar ddiwedd unrhyw flwyddyn, rhaid bod yn glir pa gymwysterau sydd wedi'u diddymu o 1 Medi y flwyddyn galendr ganlynol. Gall Cymwysterau Cymru ddiddymu dynodiadau ar ôl hysbysu'r corff dyfarnu perthnasol ac ystyried unrhyw sylwadau gan y corff hwnnw. Gall Cymwysterau Cymru ddynodi cymhwyster at ddibenion penodol (a.30(6)). Os na chynigir cymwysterau dynodedig yn unol ag unrhyw ddibenion penodedig o'r fath, ni ellir cyllido'n gyhoeddus gyrsiau'r cymhwyster ar gyfer pobl ifanc o dan 19 oed.

**Cyfatebiaeth**

98. Mae'r Bil yn darparu bod cyfatebiaeth rhwng cymwysterau yn fater y mae'n rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddo. Rhagwelir y bydd Cymwysterau Cymru yn gwneud hyn drwy sefydlu rhaglenni adolygu (gweler adran 45) a thrwy gynnwys rhanddeiliaid yn helaeth yn ei waith. Drwy alluogi Cymwysterau Cymru i bennu ei feini prawf cymeradwyo ei hun a thrwy ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ddangos sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ei adroddiad blynyddol (sydd hefyd yn gorfod nodi sut mae Cymwysterau Cymru wedi cynnwys rhanddeiliaid), rhagwelir y bydd y cymwysterau a gaiff eu creu a'u dyfarnu yng Nghymru yn cymharu'n bositif â'r rheini yng ngweddill y DU ac mewn gwledydd eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig, gan fod arfer dysgwyr o symud i Addysg Uwch a chyflogaeth yr ochr draw i ffiniau Cymru yn dibynnu ar yr hyder sydd gan sefydliadau Addysg Uwch a chyflogwyr yng nghymwysterau a system gymwysterau Cymru.

99. Mae nod y ddeddfwriaeth arfaethedig yn ddeublyg. Y gobaith yw, drwy'r darpariaethau a ddisgrifir uchod, sicrhau bod cymwysterau a system gymwysterau'r dyfodol yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru ac yn sicrhau hyder rhanddeiliaid ehangach - yng Nghymru, ac yn rhyngwladol.

## Ar bwy y bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith?

### Dysgwyr

100. Un o brif egwyddorion prosiect creu Cymwysterau Cymru oedd sicrhau na fydd unrhyw ddysgwr yng Nghymru yn cael mantais annheg, nac ychwaith o dan anfantais annheg, o ganlyniad i drosglwyddo swyddogaethau oddi wrth Weinidogion Cymru i Gymwysterau Cymru. Yn y prif amcanion ar gyfer Cymwysterau Cymru, mae'r Bil yn rhoi'r lle canolog i ddysgwyr o fewn y system gymwysterau.

101. Yng nghyd-destun gweithredu'r diwygiadau ehangach a argymhellwyd gan yr Adolygiad o Gymwysterau, mae Llywodraeth Cymru wedi creu dulliau o gyfathrebu â rhanddeiliaid ar draws yr holl sectorau, gan gynnwys grwpiau sy'n cynrychioli dysgwyr. Drwy ddefnyddio'r dulliau hyn, rhagwelir y bydd y broses o drosglwyddo i'r sefydliad newydd yn digwydd mor esmwyth â phosibl, ac y bydd y sefydliad yn dechrau ar ei waith gyda hyder llawn yr holl grwpiau o randdeiliaid y tu ôl iddo.

102. Ymhen amser, disgwylir y bydd y dysgwyr yn elwa ar y cymwysterau gwell a gynigir ac ar y ffaith bod gan gyflogwyr posibl a sefydliadau addysg fwy o hyder ynddynt. Drwy roi trwydded gredadwy iddynt ddysgu a chael gwaith yn y dyfodol, ar ffurf cymwysterau cydnabyddedig ac uchel eu parch, bydd Cymwysterau Cymru yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion addysgol a chenedlaethol o ran twf economaidd ac addysgol Cymru yn y dyfodol.

103. Drwy alluogi Cymwysterau Cymru i ddynodi cymwysterau fel rhai sy'n gymwys i gael cyllid yn ogystal â'i alluogi i ganolbwyntio ar gymwysterau blaenoriaethol i'w cymeradwyo, mae'r Bil yn cynnal yr elfen o barhad i ddysgwyr ac yn ei gwneud yn bosibl gwneud gwelliannau yn y dyfodol o ran effeithiolrwydd cymwysterau a'r system gymwysterau i ddiwallu anghenion dysgwyr.

### Cyflogwyr a Sefydliadau Addysg

104. Y prif faen prawf ar gyfer mesur llwyddiant y ddeddfwriaeth hon yw'r hyder sy'n cael ei feithrin ymhlith y cyflogwyr, y darparwyr addysg uwch, y rheini sy'n darparu'r cymwysterau, y dysgwyr a'r cyhoedd yn ehangach, yn y system gymwysterau yng Nghymru.

105. Bydd Cymwysterau Cymru yn gallu ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r sector a'r byd addysg mewn perthynas ag amrywiaeth eang o gyd-

destunau, gan gynnwys datblygu meini prawf ar gyfer cymwysterau ac asesu a yw cymwysterau'n addas i'w diben. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi gwybodaeth am ei waith ymgysylltu â rhanddeiliaid (adran 46(3)), a'r gobaith yw y bydd hyn yn hybu mwy byth o ymgysylltu.

106. Disgwylir i'r cyflogwyr sy'n darparu cyfleoedd dysgu yn y gweithle, neu brentisiaethau, elwa ar y ffaith bod cymwysterau'n bodloni eu hanghenion yn well, yn ogystal ag elwa'n economaidd yn sgil unrhyw fuddsoddi sy'n gwella cymwysterau eu gweithlu. Disgwylir y bydd effaith gronnol i'w gweld ar draws economi Cymru yn ei chyfanrwydd. Disgrifir arwyddocâd hyn yn yr wyth prif fater (adran 3(2)) sydd ymhlith y materion eraill y bydd yn ddyletswydd ar Gymwysterau Cymru i'w hystyried yn sgil y Bil fel rhan o'i weithgarwch parhaus.

**Cyfrifoldebau Ofqual**

107. Mae'r Bil yn egluro cyfrifoldebau Ofqual a Chymwysterau Cymru mewn amgylchiadau penodol (adrannau 34 a 35).

108. Fel sy'n cael ei nodi yn rhywle arall, gall Cymwysterau Cymru reoleiddio'r gwaith o gynnig a dyfarnu cymwysterau yng Nghymru drwy reoleiddio'r corff cydnabyddedig sy'n cynnig cymwysterau o dan amodau cydnabod. Er enghraifft, gall cymwysterau sydd wedi'u dynodi (sy'n gymwys i'w defnyddio ar gyfer cyrsiau a gyllidir yn gyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed) gael eu rheoleiddio yn erbyn amodau cydnabod, a allai gynnwys amodau sy'n benodol ar gyfer cymwysterau dynodedig. Bydd dyfarnu cymwysterau a gymeradwyir yn unol â chymeradwyaeth yn ddarostyngedig i unrhyw amodau cymeradwyo yn ogystal ag amodau cydnabod. Yn achos cymwysterau nad ydynt wedi'u cymeradwyo na'u dynodi, ond y cydnabyddir y corff dyfarnu mewn perthynas â nhw, gall Cymwysterau Cymru eu rheoleiddio drwy amodau cydnabod y corff. Dim ond mewn perthynas â chymhwyster a ddyfarnwyd yng Nghymru y gellir cymhwyso amodau cydnabod Cymwysterau Cymru.

109. Mae i gymwysterau a gymeradwywyd statws arbennig, sy'n adlewyrchu'r angen i Gymwysterau Cymru reoleiddio'n ofalus gynnwys y cymwysterau hyn, sut cânt eu hasesu a'u hansawdd drwy graffu'n fanylach. Mae'r Bil yn ei gwneud yn glir na all Ofqual reoleiddio'r cymwysterau penodol hyn (gweler adran 34). Fodd bynnag, gall Ofqual, drwy ei amodau cydnabod, reoleiddio corff dyfarnu sy'n dyfarnu cymhwyster yng Nghymru na ddyfernir yn unol â chymeradwyaeth, ond a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru drwy amodau cydnabod.

**Y staff yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gymwysterau ar hyn o bryd**

110. Er y bydd yna ymgyrch recriwtio allanol, mae nifer o staff Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i

drosglwyddo i Gymwysterau Cymru, gyda nifer bach yn symud i'r uned noddi yn yr Adran Addysg a Sgiliau.

111. Is-adran Bontio Cymwysterau Cymru sy'n rheoli'r rhaglen newid ar gyfer y staff. Mae hynny o reidrwydd yn cynnwys trosglwyddo asedau ffisegol, dogfennau a gwybodaeth (gweler Atodlen 2).

### Canolfannau

112. Y gobaith yw mai prin y bydd unrhyw aflonyddu ar waith canolfannau o ganlyniad i'r Bil. Ni fydd pasio'r Bil yn amharu ar y diwygiadau i gymwysterau a gyflwynir o ganlyniad i'r Adolygiad o Gymwysterau. Hefyd, bydd y gofyniad i Gymwysterau Cymru ddatblygu polisi cwynion – gan greu ffordd o ymateb yn deg, nid dim ond i gwynion am Gymwysterau Cymru ei hun, ond hefyd am gyrff dyfarnu a chymwysterau – yn rhoi gweithdrefn glir i ganolfannau (yn ogystal â rhanddeiliaid eraill) ei dilyn wrth ymateb mewn unrhyw achos o annhegwch, amhriodoldeb neu faterion eraill o bryder (gweler adran 47).

### Cyrff dyfarnu

113. Ni ragwelir y bydd y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu yn y DU yn gorfod newid ar unwaith oherwydd darpariaethau'r Bil. Y gobaith yw gwneud darpariaeth drosiannol i drosglwyddo rôl cydnabod cyrff dyfarnu oddi wrth Weinidogion Cymru i Gymwysterau Cymru a sicrhau bod y cymwysterau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyrsiau i ddysgwyr o dan 19 oed yn cael eu trosglwyddo, naill ai fel cymwysterau a ddynodwyd neu fel rhai a gymeradwywyd. Bydd hyn yn golygu y gellir parhau i'w defnyddio ar gyrsiau a gyllidir yn gyhoeddus ac y gall cyrff dyfarnu, dysgwyr a chanolfannau barhau fel y maent heb fod angen tarfu arnynt. Y gobaith yw y bydd Cymwysterau Cymru yn ymroi yn benodol i ddatblygu meini prawf cymeradwyaeth ar gyfer cymwysterau y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn y dyfodol. Dros amser, mae'r newidiadau canlynol yn debygol o gael effaith ar gyrff dyfarnu:

a) Pan fydd y Rhestr gyntaf o Gymwysterau Blaenoriaethol wedi'i chyhoeddi (adran 13), bydd Cymwysterau Cymru mewn sefyllfa i nodi cymwysterau nad ydynt yn flaenoriaeth y byddai'n fodlon ystyried eu cymeradwyo (adran 19) a gall benderfynu peidio ag ystyried cymwysterau eraill. Ni chaiff cyrff dyfarnu eu hatal rhag cynnig cymwysterau nad ydynt wedi'u cymeradwyo yng Nghymru, a chânt eu rheoleiddio o hyd o dan amodau cydnabod (oni bai nad ydynt wedi'u cydnabod mewn perthynas â nhw, er enghraifft am eu bod wedi ildio'u cydnabyddiaeth mewn perthynas â rhai cymwysterau neu bob un ohonynt) ond ni chaiff y cymwysterau eu hunain eu cymeradwyo, ac efallai y bydd angen adlewyrchu hyn ar dystysgrifau. Gall Cymwysterau Cymru hefyd gyflwyno ffioedd y gellir eu codi, er enghraifft, mewn perthynas â chymwysterau a gymeradwywyd neu a ddynodwyd yn unig (adran 48).

b) Unwaith bydd Cymwysterau Cymru mewn sefyllfa i weithredu pwerau i gyfyngu ar nifer y cymwysterau a gymeradwywyd a dod i drefniadau gyda chyrff dyfarnu i ddatblygu’r cymwysterau cyfyngedig hynny, ni fydd y cyrff dyfarnu hynny na fuont yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth i ddarparu'r cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig yn gallu darparu'r cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig ar gyfer cyrsiau mewn ysgolion a gynhelir (nac mewn darpariaeth a gyllidir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed) yng Nghymru am gyfnod y gymeradwyaeth a roddir. I'r rhan fwyaf o gyrff dyfarnu, canran fach iawn o'u gwaith yw marchnad Cymru ar hyn o bryd. Caiff cyrff dyfarnu gyfle i gystadlu am gymwysterau cyfyngedig yn rheolaidd. Mae Prif Weithredwr interim Cymwysterau Cymru yn cyfathrebu'n rheolaidd â chyrff dyfarnu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau arfaethedig, ac mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru roi gwybod i gyrff cydnabyddedig ac eraill sydd â diddordeb mewn penderfyniad o'r fath i gyfyngu ar gymwysterau, ac ymgynghori â nhw, yn ogystal â threfnu proses agored, deg a chystadleuol ar gyfer dewis y darparwr/darparwyr.

c) Bydd gan Gymwysterau Cymru y pŵer i bennu meini prawf cydnabod penodol mewn perthynas â rhai cymwysterau neu ddisgrifiadau o gymwysterau (adran 9). Mae’n bosibl na chaiff y cyrff dyfarnu nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cydnabod penodol eu cydnabod ac, os felly, ni fyddant yn gallu gwneud cais i gymeradwyo na dynodi fersiynau o'r cymhwyster hwnnw na disgrifiad o'r cymhwyster (ac felly, ni fyddai’r cymwysterau hynny yn gymwys i’w darparu ar gyrsiau dysgu i bobl ifanc o dan 19 oed a gyllidir yn gyhoeddus (gweler Rhan 6 o’r Bil)). Mae gan Gymwysterau Cymru y pŵer hefyd i bennu amodau safonol ac arbennig wrth gydnabod cyrff (Atodlen 3, paragraffau 2 i 5) ac i’w gorfodi, lle na chydymffurfir neu lle mae’n debygol na chydymffurfir, drwy bŵer i roi cyfarwyddyd (adran 36). Gall Cymwysterau Cymru hefyd bennu na ddylai corff dyfarnu penodol fod yn ddarostyngedig i amod safonol neu arbennig. O ran yr amodau arbennig, gallai'r rhain gynnwys, ymhlith pethau eraill:

    i) amodau capio ffioedd sy'n cyfyngu ar y ffioedd y gall corff dyfarnu eu codi am gymwysterau wedi’u cymeradwyo neu’u dynodi a ddyfernir i ddysgwyr ar gyrsiau addysg neu hyfforddiant a gyllidir yn gyhoeddus ac sy’n arwain at y cymwysterau hynny;

    ii) trosglwyddo amodau sy'n galluogi Cymwysterau Cymru, yn achos digwyddiad penodedig, i roi cyfarwyddyd ynghylch rhai trefniadau, er enghraifft bod pethau yn cael eu trosglwyddo o un corff dyfarnu i un arall, er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymhwyster sydd wedi'i gymeradwyo neu ei ddynodi ac a ddyfarnwyd gan y corff dyfarnu gael ei ddyfarnu gan gorff dyfarnu arall. Fodd bynnag, cyn rhoi cyfarwyddyd o'r fath, rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried bod angen gwneud hyn er mwyn osgoi effeithiau andwyol sylweddol ar ddysgwyr.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gosod, adolygu ac amrywio'r amodau capio ffioedd a'r cyfarwyddiadau ynghylch trosglwyddo wedi'u hamlinellu yn Atodlen 3, ac yn cynnwys y camau ar gyfer hysbysu, rhoi rhesymau, rhoi ystyriaeth i sylwadau, a threfn adolygiadau o benderfyniad Cymwysterau Cymru.

d) Bydd gan Gymwysterau Cymru y pŵer i bennu amodau o ran cymeradwyo cymwysterau a gymeradwyir (adran 22) ac i’w gorfodi, lle na chydymffurfir neu lle mae’n debygol na chydymffurfir, drwy bŵer i roi cyfarwyddyd (adran 36).

e) Bydd cyrff dyfarnu yn fwy diogel rhag camau rheoleiddio annheg yn eu herbyn, drwy ddarpariaeth glir yn y Bil ar gyfer adolygiad annibynnol o rai penderfyniadau rheoleiddio, er enghraifft penderfyniad i roi cyfarwyddyd yn unol ag amod trosglwyddo, neu benderfyniad i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl (Atodlen 3, paragraffau 16 a 22).

f) Gall cyrff dyfarnu ildio'u cydnabyddiaeth a'u cymeradwyaeth neu gallant gael eu tynnu'n ôl gan Gymwysterau Cymru. Mae darpariaethau manwl yn rheoli'r amgylchiadau a'r weithdrefn ar gyfer ildio a thynnu'n ôl gymeradwyaeth a chydnabyddiaeth (mae adrannau 25-28 yn sôn am gymeradwyaeth ac Atodlen 3 paragraffau 17 i 23 yn sôn am gydnabyddiaeth).

g) Rhoddir mwy o ddiogelwch i gyrff dyfarnu mewn perthynas â phwerau mynediad ac arolygu. Nid yw'r ddarpariaeth yn y Bil ar gyfer mynediad ac arolygu ar ffurf amod bellach (fel y mae ar gyfer Gweinidogion Cymru). Mae nawr yn bŵer i Gymwysterau Cymru wneud cais i'r llys – i ynad heddwch yn benodol – am Orchymyn i ganiatáu mynediad i safle corff cydnabyddedig a’i arolygu (adran 43). Gall yr ynad heddwch greu gorchymyn dim ond os oes sail resymol dros gredu bod y corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio ag amod cydnabyddiaeth neu gymeradwyaeth, a bod angen y gorchymyn; un ai am fod corff wedi gwrthod mynediad i Gymwysterau Cymru i'w safle neu fod mynediad yn debygol o gael ei wrthod, neu fod gofyn am fynediad yn debygol o danseilio pwrpas cael mynediad (er enghraifft, pan amheuir bod rhoi rhybudd ynghylch ymweliad yn debygol o olygu y bydd corff dyfarnu yn dinistrio dogfennau allweddol). Rhaid i fynediad fod yn angenrheidiol hefyd er mwyn cael gwybod a dorrwyd yr amod dan sylw ai peidio. Mae'r Bil yn nodi proses glir felly sydd, yn ymarferol, yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru brofi pam mae angen gorchymyn ac sy’n darparu’r cam diogelu pellach o’i gwneud yn ofynnol i ynad heddwch benderfynu ar y mater er mwyn cael mynediad i'r safle.

h) Bydd gan Gymwysterau Cymru y pŵer i roi cyfarwyddyd i gyrff dyfarnu o dan adran 36 os ydynt wedi methu â chydymffurfio ag

amod cydnabyddiaeth neu gymeradwyaeth, neu os ydynt yn debygol o fethu â chydymffurfio. Pwrpas rhoi cyfarwyddyd yw sicrhau y cydymffurfir ag amod drwy ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gymryd camau penodol neu beidio â'u cymryd. Mae'r Bil yn nodi gweithdrefn benodol y mae'n rhaid ei dilyn wrth roi gwybod i gorff dyfarnu o fwriad Cymwysterau Cymru i roi cyfarwyddyd, ac mae hefyd yn gwneud darpariaeth i Gymwysterau Cymru roi ystyriaeth i sylwadau'r corff dyfarnu wrth benderfynu a ddylid rhoi cyfarwyddyd ai peidio.

i) Mae sancsiynau eraill ar gael i Gymwysterau Cymru sy'n rhoi'r pŵer iddo osod cosbau ariannol. Unwaith eto, dim ond os yw'n ymddangos i Gymwysterau Cymru bod y corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio ag amod cydnabyddiaeth neu gymeradwyaeth neu os yw'n methu â gwneud hynny ar hyn o bryd, y ceir defnyddio'r pwerau hyn. Mae'r Bil yn nodi'r weithdrefn benodol ar gyfer gosod cosb, gan gynnwys darpariaethau bod Cymwysterau Cymru yn rhoi hysbysiad o'i fwriad i osod cosb, yn caniatáu cyfnod sylwadau, yn rhoi hysbysiad am y penderfyniad i osod cosb, swm y gosb a'r cyfnod pryd y mae'n rhaid gwneud y taliad (adran 37). Rhaid i Gymwysterau Cymru hefyd amlinellu'r sail dros y gosb, sut i dalu, canlyniadau peidio â thalu a'r hawl i apelio o dan y Bil. Ar hyn o bryd, o dan Ddeddf Addysg 1997, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i amlinellu swm cosb ariannol, na chaiff fod yn fwy na 10% o drosiant corff dyfarnu. Dylid pennu trosiant corff dyfarnu yn unol â gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru. O dan y Bil hwn, caiff swm y gosb ariannol ei bennu gan Gymwysterau Cymru yn unol â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

j) Mae'r Bil yn galluogi corff dyfarnu i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad i osod cosb ariannol neu i apelio ynghylch swm y gosb ei hun (adran 38). Mae yna ddarpariaethau yn y Bil sy'n ei gwneud yn bosibl codi llog os na thelir y gosb ariannol (adran 39). Caiff cyfradd y llog ei phennu yn adran 17 Deddf Dyfarniadau 1838 ac mae'r Bil yn darparu na chaiff cyfanswm y llog fod yn fwy na swm y gosb.

k) Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth bod Cymwysterau Cymru yn cael ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu dalu'r costau sy'n dod i Gymwysterau Cymru mewn perthynas â gosod sancsiwn ar y corff dyfarnu (adran 40). Diffinnir y sancsiynau fel rhoi cyfarwyddyd o dan adran 36, gosod cosb ariannol neu dynnu cydnabyddiaeth yn ôl. Mae'r Bil yn amlinellu'r elfennau sydd wedi'u cynnwys yn y costau a gofynion yr hysbysiad, sy'n gorfod cynnwys y cyfnod a roddir i'r corff dyfarnu wneud taliad i Gymwysterau Cymru. Rhaid i'r hysbysiad amlinellu hefyd sut i dalu, canlyniadau peidio â thalu a'r hawl i apelio yn erbyn y taliad.

l) Mae'r Bil yn galluogi corff dyfarnu i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad i dalu costau, neu i apelio yn erbyn cyfanswm

y costau (adran 41), ac yn darparu bod llog yn daladwy ar gostau na thelir (adran 42). Pennir y llog yn unol â’r gyfradd yn Neddf Dyfarniadau 1838, ac ni chaiff cyfanswm y llog fod yn fwy na swm y costau (yn debyg i’r hyn a nodir yn adran 39).

m) Mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru hefyd gyhoeddi ei ddull o wneud penderfyniadau rheoleiddio a chymryd camau gorfodi mewn datganiad polisi (adran 46). Gallai hyn roi dealltwriaeth i gyrff dyfarnu o'r mathau o faterion y bydd Cymwysterau Cymru yn eu hystyried wrth gyflawni ei swyddogaethau, a gallai egluro'r penderfyniadau y mae wedi'u gwneud.

# 4. Ymgynghori

## Y Papur Ymgynghori ynghylch Bil Cymwysterau Cymru

114. Yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011, cafwyd ymrwymiad gan Brif Weinidog Cymru i ymgynghori'n briodol ac i ymgysylltu'n ystyrlon gyda phartneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth. Yn unol â'r datganiad hwnnw, cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau bapur ymgynghori ffurfiol ar 1 Hydref 2013, sef '*Ein cymwysterau - ein dyfodol: Ymgynghoriad ar gynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru'.* Roedd y Papur Ymgynghori yn gwahodd sylwadau am y cynigion i greu Cymwysterau Cymru, fel corff newydd i fod yn gyfrifol am gymwysterau yng Nghymru, ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn: http://wales.gov.uk/consultations/education/our-qualifications-our-future/?skip=1&lang=cy

115. Roedd y Papur Ymgynghori yn gofyn i randdeiliaid am eu barn am gynigion fel:

- Sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru;
- Bod Cymwysterau Cymru yn datblygu ac yn dyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru;
- Symleiddio'r system gymwysterau yng Nghymru, gan dynnu ynghyd swyddogaethau allweddol sy'n ymwneud â dylunio cymwysterau, eu datblygu, eu dyfarnu, trefniadau cefnogi a sicrhau ansawdd cymwysterau o fewn un corff annibynnol ac awdurdodol;
- Bod Cymwysterau Cymru yn gyfrifol am sicrhau ansawdd cymwysterau a ddarperir yng Nghymru ac a gynigir gan gyrff dyfarnu;
- Y byddai Cymwysterau Cymru, fel corff statudol annibynnol, mewn sefyllfa well i sicrhau bod y cymwysterau a gynigir yng Nghymru yn gwasanaethu anghenion diwylliannol ac economaidd Cymru ac yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru;
- Mai Cymwysterau Cymru fyddai'r prif awdurdod ar gymwysterau yng Nghymru, gan roi cyngor proffesiynol i Weinidogion Cymru ar faterion perthnasol, yn ogystal â gwybodaeth, cyngor a chymorth i amrywiaeth eang o randdeiliaid;

- Bod Cymwysterau Cymru yn cyfathrebu â rhanddeiliaid o fewn i Gymru a'r tu allan i Gymru ynghylch gwerth y cymwysterau a gynigir yng Nghymru;

- Bod Cymwysterau Cymru, maes o law, yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ddyfarnu'r rhan fwyaf o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed yn ogystal â Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru.

116. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn y cwestiynau canlynol i randdeiliaid:

Y ddadl dros newid

1) A oes unrhyw beth arall sy'n rhwystr i effeithiolrwydd y system bresennol, neu a oes unrhyw wendidau eraill?

2) A oes unrhyw beth penodol o fewn y system bresennol yr hoffech ei weld yn newid?

Ein Gweledigaeth

3) Beth yw eich barn am ein gweledigaeth arfaethedig ar gyfer Cymwysterau Cymru?

Sut byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth

4) Yn eich barn chi, a fydd y gweithgareddau a'r swyddogaethau arfaethedig hyn yn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru? Esboniwch.

5) Beth yw eich barn am y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Cymwysterau Cymru?

6) Beth yw eich barn am gylch gorchwyl a swyddogaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru? Ydych chi'n credu bod y cylch gorchwyl a'r swyddogaethau yn briodol, neu a ddylid eu haddasu?

7) Beth ddylai Cymwysterau Cymru ei wneud i gryfhau hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a gynigir yng Nghymru?

8) Yn eich barn chi, sut ac i ba raddau y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr a/neu unrhyw gategorïau rhanddeiliaid penodol?

117. Parodd yr ymgynghoriad am ddeuddeg wythnos gan ddod i ben ar 20 Rhagfyr 2013. Mae'r tabl isod yn crynhoi faint o ymatebion a gafwyd gan bwy.

| | |
|---|---|
| Cyrff dyfarnu | 15 |
| Cymdeithasau athrawon | 7 |
| Sgiliau Sector / Busnesau / Cyflogwyr | 9 |
| Awdurdodau Lleol | 3 |
| Ysgolion / Colegau | 2 |
| Addysg Uwch | 6 |
| Addysg Bellach | 6 |
| Myfyrwyr | 2 |
| Cyrff cenedlaethol | 6 |
| Unigolion | 6 |
| **Cyfanswm** | **62** |

| | |
|---|---|
| Ymatebion o Gymru'n unig | 36 |
| Ymatebion o Gymru â buddiant ar lefel y DU | 1 |
| Ymatebion o'r tu allan i Gymru â buddiant ar lefel y DU | 25 |
| **Cyfanswm** | **62** |

118. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymarfer ymgynghori hwn i lywio'r broses o ddatblygu polisi.

119. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Ymgynghori ar 2 Mehefin 2014 ac mae ar gael yn: http://wales.gov.uk/consultations/education/our-qualifications-our-future/?skip=1&lang=cy

120. Yn ei Ddatganiad Ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau fod mwyafrif llethol yr ymatebion yn ategu'n gyffredinol ei weledigaeth ar gyfer y corff newydd a bod llawer o'r ymatebwyr wedi cynnig helpu i'w ddatblygu. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig i'w weld yn: http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/qualwalesbillconsultationresponse/?skip=1&lang=cy

121. Mae'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u crynhoi isod.

**Crynodeb o'r ymatebion**

122. Yn gyffredinol, roedd yna gefnogaeth gref iawn i sefydlu corff annibynnol i reoleiddio a sicrhau ansawdd y tu allan i'r Llywodraeth.

123. Roedd yna bryderon mawr a rhywfaint o wrthwynebiad i'r syniad o gynnwys cyfrifoldebau dyfarnu yng nghylch gwaith Cymwysterau Cymru.

Roedd yr ymatebion yn pwysleisio'n benodol yr angen i greu rhaniad clir o ran y dyletswyddau pe bai pwerau dyfarnu yn cael eu cynnwys, er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau.

124. Roedd yna bryderon hefyd ymhlith cyrff dyfarnu, yn benodol am greu un gyfres o gymwysterau, rhag lleihau'r dewis i ddysgwyr a chyfyngu ar y cymhellion i fod yn arloesol.

125. Roedd llawer yn pwysleisio'n gryf, beth bynnag oedd y system a ddatblygid yng Nghymru ac i Gymru, fod yn rhaid i'r cymwysterau fod yn drosglwyddadwy, o ansawdd uchel ac yn ddilys yng ngwledydd eraill y DU ac Ewrop. Rhaid i gymwysterau sydd â theitlau cyffredin fel TGAU a Safon Uwch, hyd yn oed os ydynt yn amrywio o ran eu strwythur, fod yn gyfwerth o ran safon a dilysrwydd yn llygaid rhanddeiliaid, er mwyn i ddysgwyr fod yn rhydd i symud a theithio, a hwyluso'r ffordd iddynt gael mynd ymlaen i addysg uwch a byd gwaith.

126. Roedd yr ymatebwyr yn gryf o blaid sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ac yn parhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill gan gynnwys Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual). Pwysleisiodd rhai hefyd y dylai Cymwysterau Cymru ymgysylltu'n drylwyr â chyrff cenedlaethol eraill yng Nghymru fel Estyn a'r Cyngor Addysgu Cyffredinol, a bod angen eglurder o ran y berthynas rhwng y cwricwlwm a'r corff cymwysterau, gan sicrhau cydlyniant yn ogystal â sefydlogrwydd.

127. Roedd cefnogaeth gref i Fagloriaeth Cymru fel prif gymhwyster Cymru yn ogystal â rhoi cyfrifoldeb fframweithiau prentisiaethau i Gymwysterau Cymru. Nodwyd hefyd fod angen i Gymwysterau Cymru fod yn gynhwysol a sicrhau cymwysterau o ansawdd uchel i bob dysgwr, gan gynnwys y rheini ag anableddau.

128. Roedd llawer o ymatebwyr o wahanol gefndiroedd yn awyddus i gymryd rhan mewn datblygiadau yn y dyfodol a mynegwyd eu hymrwymiad i weithio ar y cyd â Chymwysterau Cymru wrth i'r sefydliad ddatblygu er mwyn sicrhau system gymwysterau dryloyw a chadarn.

## Ymgynghoriad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

129. Fel rhan o gydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, cynhaliwyd ymgynghoriad a oedd wedi'i deilwra'n benodol i blant a phobl ifanc, gan ddefnyddio hwylusydd allanol, Cognition.

130. Mae'r fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: http://wales.gov.uk/consultations/education/our-qualifications-our-future/?skip=1&lang=cy

131. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai ar draws Cymru drwy'r Gymraeg a'r Saesneg i holi barn plant a phobl ifanc ar:

- fodel y sefydliad newydd ar gyfer rheoleiddio, sicrhau ansawdd ac, ymhen amser, dyfarnu cymwysterau yng Nghymru,
- enw'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU i Gymru - (ym mhynciau Saesneg a Mathemateg) a graddau Bagloriaeth Cymru yn y dyfodol,
- sut gellid diwallu eu hanghenion drwy'r rhyngwyneb ar-lein â'r sefydliad, er enghraifft yr hyn y byddent yn disgwyl ei weld, beth maent yn ei feddwl o rif unigryw'r dysgwr, cofnod o gyrhaeddiad dysgu, a chyngor gyrfaoedd.

132. Yn ystod Rhagfyr 2013 a Ionawr 2014, siaradodd Cognition â 124 o blant a phobl ifanc mewn 12 sefydliad gwahanol ledled Cymru. Mae'r tabl canlynol yn rhoi mwy o fanylion.

| | |
|---|---|
| Ysgolion (grwpiau oedran hŷn) | 52 |
| Ysgolion (grwpiau oedran iau) | 13 |
| Colegau | 35 |
| Darparwyr hyfforddiant | 16 |
| Prifysgolion | 8 |
| **Cyfanswm** | **124** |

**Crynodeb o'r ymatebion gan blant a phobl ifanc**

133. Yn gyffredinol, roedd y plant a'r bobl ifanc yn ystyried y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru yn ddatblygiad cadarnhaol iawn ar gyfer dyfodol addysg yng Nghymru, a chanmolwyd yn benodol y ffaith bod y system yn decach ac yn symlach.

134. Gwnaethant sylwadau cadarnhaol hefyd ar y manteision posibl i siaradwyr Cymraeg, y ffaith y bydd cymwysterau o ansawdd gwell yn meithrin mwy o hyder, a'r ffaith y bydd yn haws i fyfyrwyr allu symud o ysgol i ysgol yng Nghymru.

135. Ond yn ogystal â nodi'r manteision hyn, mynegwyd pryderon hefyd am y ffordd y câi'r system newydd ei chyflwyno a'i rheoli.

## Themâu cyffredin a gododd yn yr ymatebion i'r ddau ymgynghoriad

136. Dyma’r themâu cyffredin a gododd yn yr ymatebion i’r ddau ymgynghoriad:

- yr angen i gynyddu hyder y cyhoedd;

- yr angen i sicrhau trefniadau pontio cadarn;
- yr angen i sicrhau bod cymwysterau yn dal yn drosglwyddadwy;
- annibyniaeth y sefydliad newydd.

137. Yn gyffredinol, roedd y rheini a ymatebodd yn cefnogi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori, ond mynegodd llawer gryn bryderon am wrthdaro buddiannau wrth gyflawni dyletswyddau dyfarnu cymwysterau a sicrhau eu hansawdd.

## Ymgysylltu ychwanegol

138. Mae swyddogion hefyd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol; yn benodol:

- Awdurdod Cymwysterau'r Alban, mewn perthynas â’r gwersi a ddysgwyd yn sgil sefydlu un corff cymwysterau i’r Alban;
- Ofqual, mewn perthynas â’r gwersi a ddysgwyd yn sgil sefydlu rheoleiddiwr annibynnol ac â’r pwerau a’r dyletswyddau posibl a allai gael eu rhoi i Gymwysterau Cymru;
- CBAC a chyrff dyfarnu eraill, mewn perthynas â datblygu’r pŵer i Gymwysterau Cymru wneud trefniadau i ddatblygu a darparu cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig;
- Adran Addysg Llywodraeth y DU, mewn perthynas â’r cyfyngiadau ar gyllido cyrsiau i ddysgwyr o dan 19 oed, lle mae’r cyrsiau hynny yn arwain at gymwysterau, ac â diddymu pwerau cyfredol Gweinidogion Cymru.

139. Cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei drafftio, cynhaliwyd cyfarfodydd pellach gyda rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y sectorau addysg uwch ac addysg bellach, mewn perthynas â’r angen am reoleiddiwr annibynnol ar gymwysterau yng Nghymru.

140. Mae’r gwaith ymgysylltu yn parhau ag Adran Addysg Llywodraeth y DU a Swyddfa Cymru i fynd i’r afael â rhai materion trawsffiniol sy’n codi yn sgil y newidiadau arfaethedig.

# 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

141. Mae’r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae’r tabl isod yn dangos, mewn perthynas â phob darpariaeth:

- yr unigolyn neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a ddefnyddir os o gwbl, ynghyd â’r rhesymau pam y tybir ei bod yn briodol.

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Y ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 21(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | O dan y pŵer hwn, gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi'r gofynion sylfaenol y mae'n rhaid eu cyflawni mewn perthynas â chymhwyster ar unrhyw ffurf a gymeradwyir gan Gymwysterau Cymru. Gellir arfer y pŵer dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon ei bod yn briodol nodi gofynion o'r fath er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm a ddilynir gan ddysgwyr sy'n cymryd cwrs sy'n | Gweithdrefn gadarnhaol | Mae gweithdrefn gadarnhaol yn briodol gan fod y rheoliadau yn effeithio ar allu Cymwysterau Cymru i benderfynu ar yr hyn y mae’n ofynnol ei gynnwys mewn cymhwyster. Y bwriad yw y dylai Cymwysterau Cymru fod yn annibynnol ar Weinidogion wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â chymwysterau. Fodd bynnag, rhoddir y pŵer i Weinidogion Cymru amlinellu mewn rheoliadau faterion y mae’n rhaid i |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Y ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | arwain at y cymhwyster yn briodol i'w hanghenion rhesymol.<br><br>Mae angen hyblygrwydd, gan fod y pŵer yno i fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol a allai godi neu beidio â chodi yn y dyfodol.<br><br>Yr opsiwn arall fyddai i'r Bil roi pŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru. Ystyrir bod pŵer i wneud rheoliadau yn fwy priodol am ei fod yn ymyrryd â disgresiwn Cymwysterau Cymru mewn perthynas â'i swyddogaethau cymeradwyo cymwysterau. | | gyrff dyfarnu eu hystyried mewn cymhwyster sydd i'w gymeradwyo gan Gymwysterau<br>Cymru. Mae'r weithdrefn hon yn rhoi cyfle<br><br>i'r Cynulliad graffu ar ac adolygu'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn sylfaenol o ran yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y dylai dysgwr ei arddangos cyn i'r cymhwyster dan sylw gael ei ddyfarnu. |
| 37(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Rhaid i'r rheoliadau nodi sut mae Cymwysterau Cymru yn pennu swm cosb ariannol y mae'n ei gosod.<br><br>Mae adran 32AB o Ddeddf | Gweithdrefn gadarnhaol | Mae gweithdrefn gadarnhaol yn briodol gan fod hyn yn effeithio ar y swm y gallai fod gofyn i gorff dyfarnu ei dalu fel cosb ariannol ac mae'n rhoi cyfle i'r Cynulliad drafod a chraffu ar sut caiff y gosb ei phennu |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Y ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Addysg 1997 yn gwneud darpariaeth ar i gosb ariannol a osodir gan Weinidogion Cymru fod yn gyfyngedig i 10% o'r trosiant, ac i'r trosiant gael ei benderfynu yn unol â gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol.<br>Efallai y bydd angen newid y terfynau dros amser, er enghraifft i adlewyrchu newidiadau yn safonau cyfrifyddu. | | gan Gymwysterau Cymru. |
| 58(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae Atodlen 4 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol sydd eisoes yn bodoli. Efallai y bydd angen hyblygrwydd er mwyn diwygio is-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth sylfaenol o’r mathau a restrir (atodol, cysylltiedig, canlyniadol, | Gweithdrefn gadarnhaol os yn diwygio / diddymu Deddf Seneddol y Deyrnas Unedig, Mesur neu Ddeddf | Cadarnhaol - gan y byddai hyn yn effeithio ar ddeddfwriaeth sylfaenol, felly mae ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad graffu drwy'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol.<br><br>Negyddol - mae hyn yn briodol i ddarpariaethau eraill, a fyddai'n gymharol fân a thechnegol, heb fod |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Y ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | trosiannol, darfodol neu arbed) at ddibenion y Bil, o ganlyniad iddo, neu i’w wneud yn gwbl weithredol. | Cynulliad; fel arall, gweithdrefn negyddol. | yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, a rhaid iddi fod yn ddarpariaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn angenrheidiol at ddibenion, neu o ganlyniad i weithredu'n llawn unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil. |
| 59(2) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Addas ar gyfer gorchymyn gan fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil. Gall gorchmynion o dan y ddarpariaeth hon wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed.<br><br>Mae angen hyblygrwydd er mwyn gallu cychwyn darpariaethau amrywiol y Bil ar adeg briodol, pan fydd y gwaith paratoi wedi'i wneud, ac er mwyn gwneud unrhyw ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed briodol (sy'n ymwneud â'r drefn a fydd yn | Dim gweithdrefn | Mae Gorchmynion Cychwyn yn caniatáu i bolisi Bil fod yn weithredol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Y ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | parhau mewn grym ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol). | | |

142. Mae Atodlen 2 (a gyflwynir gan adran 2(3)) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud cynlluniau trosglwyddo, gan wneud darpariaeth ar i staff Llywodraeth Cymru, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru gael eu trosglwyddo i Gymwysterau Cymru. Ni ellir gweithredu cynllun trosglwyddo o'r fath drwy offeryn statudol. Fodd bynnag, o dan baragraff 5 o Atodlen 2, rhaid ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

# RHAN 2
# ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

# 6. Datganiad

143. Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gwblhau yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi) ar gyfer y Bil arfaethedig, ac mae'n dilyn ym mhenodau 7 ac 8.

144. Mae asesiad o'r gystadleuaeth a'r asesiadau o effeithiau penodol ym mhennod 9.

145. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol o fewn y Bil yn galw am arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

# 7. Yr Opsiynau

146. Amlinellir isod dri opsiwn ar gyfer sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff rheoleiddiol a sicrhau ansawdd, a nodir manteision ac anfanteision pob un.

147. Mae pob opsiwn a amlinellir yn seiliedig ar roi swyddogaethau rheoleiddio i Gymwysterau Cymru, a swyddogaethau i gomisiynu'r gwaith o ddyfarnu cymwysterau drwy broses gystadleuol. Nid ydynt yn seiliedig ar roi pwerau dyfarnu uniongyrchol i Gymwysterau Cymru, er y gellid datblygu pob model i'r perwyl hwn drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

## Opsiwn 1

148. Gwneud dim yw Opsiwn 1 – hynny yw, peidio â sefydlu Cymwysterau Cymru. Mae’r opsiwn hwn wedi’i ddadansoddi fel dau is-opsiwn: y cyntaf yw cadw pethau’n gyfangwbl fel yr oeddent cyn cychwyn gweithredu’r Adolygiad o Gymwysterau pan gâi cymwysterau eu cynnig ar lefel tair neu bedair gwlad ledled y DU i raddau helaeth. Mae’r ail is-opsiwn yn fwy realistig gan ei fod yn ystyried diwygiadau sy’n gydnaws â datblygu’r Bil ac a gyflawnwyd ar sail y disgwyliad y câi Cymwysterau Cymru ei sefydlu.

**Opsiwn 1a - Gwneud dim: Gweinidogion Cymru i gadw eu swyddogaeth reoleiddio.**

149. Dyma'r opsiwn cychwynnol - parhau â'r system bresennol.

150. Ar hyn o bryd caiff cymwysterau yng Nghymru eu darparu drwy fodel sy'n seiliedig ar y farchnad, ac mae amrywiaeth o gyrff dyfarnu yn ei defnyddio i gynnig cymwysterau i ysgolion a cholegau ledled Cymru. Ar hyn o bryd, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio'r gwaith o ddarparu cymwysterau yng Nghymru, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd iddynt o dan Ran 5 o Ddeddf Addysg 1997.

151. Caiff cyrff dyfarnu sydd wedi dewis ymuno â'r system gymwysterau a reoleiddir eu cydnabod gan reoleiddwyr Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r cyrff dyfarnu hyn yn cydymffurfio ag Amodau Cydnabyddiaeth Cyffredinol tebyg. Datblygwyd yr amodau hyn gan Ofqual, ar y cyd â swyddogion rheoleiddio yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, a chawsant eu mabwysiadu a'u diwygio ychydig gan reoleiddwyr Cymru (Gweinidogion Cymru) a Gogledd Iwerddon.

152. Mae Ofqual yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o weinyddu'r system tair gwlad, ac mae ganddo gryn adnoddau i wneud hynny.  Mae hyn yn golygu cost fechan i Lywodraeth Cymru (gweler Tabl 26 yn Atodiad B). Os parheir i weithio ar lefel tair gwlad, bydd Gweinidogion Cymru yn cadw eu llais uniongyrchol, gan ganiatáu iddynt ymyrryd lle bo'n briodol (fel a ddigwyddodd yn achos ailraddio TGAU Saesneg Iaith yn haf 2012).

**Opsiwn 1b: Gwneud dim, ond parhau i ymateb i'r gwahanu graddol sy'n digwydd rhwng arferion y tair gwlad, gyda swyddogion yn Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau Llywodraeth Cymru yn llywio'r gwaith o ddiwygio cymwysterau yng Nghymru (yn dilyn yr *Adolygiad o Gymwysterau*).**

153. Dyma'r opsiwn 'gwneud dim' realistig sy'n adlewyrchu'r angen, hyd yn oed heb 'Gymwysterau Cymru' i ymateb i newidiadau yn Lloegr drwy gryfhau prosesau ymchwil a rheoleiddio yng Nghymru.  Câi argymhellion yr *Adolygiad o Gymwysterau* eu datblygu gymaint â phosibl gan Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau Llywodraeth Cymru.

**Manteision**

154. Byddai gwaith Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau yr Adran Addysg a Sgiliau o ddiwygio cymwysterau yn parhau.

155. Mae yna gyfleoedd o hyd i gryfhau sefyllfa Llywodraeth Cymru heb wneud newidiadau strwythurol - er enghraifft y cytundeb diweddar ar goncordat rhwng Llywodraeth Cymru ac Ofqual er mwyn creu fframwaith ar gyfer cydweithio yn y dyfodol, neu gynnwys Llywodraeth Cymru yng ngwaith CBAC mewn perthynas â Bagloriaeth newydd Cymru.

**Anfanteision**

156. Hyd yn oed gyda'r adnodd mwy yn Opsiwn 1b, byddai capasiti Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymwysterau yn cael eu llunio a'u datblygu i fodloni anghenion penodol Cymru yn dal yn ddifrifol o gyfyngedig.

157. Caiff gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni argymhellion yr *Adolygiad o Gymwysterau* ei gyfaddawdu'n ddifrifol yn sgil cyfyngiadau ar adnoddau ac ar gyfleoedd i weithredu'n annibynnol.

158. Byddai gallu Llywodraeth Cymru i wella darpariaeth ddwyieithog ar draws y cymwysterau a gynigir yng Nghymru yn gyfyngedig.

159. Byddai diffyg llais arbenigol annibynnol yng Nghymru i ennyn hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau - yng ngoleuni'r ffaith bod gan Loegr reoleiddiwr annibynnol clir, hyderus.

160. Heb reoleiddio annibynnol ac arbenigol, gallai enw da cymwysterau yng Nghymru ddioddef yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan niweidio mewnfuddsoddi yn y blynyddoedd i ddod.

161. Gallai cyhuddiadau godi o ymyrryd â phenderfyniadau am gymwysterau am resymau gwleidyddol, os yw'r Gweinidogion yn cadw'r cyfrifoldebau rheoleiddio uniongyrchol.

162. Byddai rheoleiddwyr yng Nghymru yn parhau i orddibynnu ar Ofqual. Byddai parhau i ddibynnu ar y rheoleiddiwr yn Lloegr ac ymdrechu i gydblethu polisïau a phrosesau yn gwastraffu cyfleoedd ac adnoddau y gellid eu defnyddio i ymchwilio i system gymwysterau i Gymru a datblygu honno.

163. Ni fyddai parhau i ddibynnu ar y rheoleiddiwr yn Lloegr yn ein galluogi i ddatblygu'n iawn ein polisi cymwysterau i wahanol gyfeiriadau yng Nghymru. Byddai'r polisi yn ymateb i newidiadau mewn mannau eraill ac ni fyddai ei swyddogion yn gallu cymryd yr awenau a mynd ati'n rhagweithiol i ymateb i anghenion Cymru.

164. Byddai rhoi gwybodaeth i'r cyfryngau ac i'r cyhoedd ynghylch agweddau positif ar y system gymwysterau yng Nghymru yn parhau i gael ei ystyried yn ymgais i gyfleu neges wleidyddol yn hytrach na'i fod yn seiliedig ar farn arbenigol broffesiynol.

**Crynodeb**

165. Nid yw hwn yn opsiwn derbyniol. Cyn i'r *Adolygiad o Gymwysterau* ddod i gasgliadau, ystyriwyd amrywiaeth eang o dystiolaeth ac arbenigedd. Mae cefnogaeth gref i'r opsiwn o gael rheoleiddiwr annibynnol i Gymru, fel y mae'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ei ddangos.

166. Cyflwynir yr opsiwn hwn felly fel gwrth-opsiwn yn unig i'r ddau opsiwn isod.

## Opsiwn 2

**Gwneud cyn lleied â phosibl: Creu rôl a swyddfa ar gyfer Comisiynydd annibynnol i graffu ar weithgarwch uned o fewn Llywodraeth Cymru.**

167. Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoleiddio annibynnol, edrychwyd ar y syniad o sefydlu Cymwysterau Cymru fel uned reoleiddio annibynnol o fewn Llywodraeth Cymru, gan adrodd yn ôl drwy Weinidog gwahanol i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, drwy drefniant tebyg i'r hyn sy'n digwydd yn achos Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

168. Yn hytrach na chreu corff statudol, byddai'r cynnig hwn yn golygu creu deddfwriaeth i ddiddymu neu ddiwygio swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg 1997, a'u disodli â fframwaith statudol

newydd a fyddai'n caniatáu ar gyfer datblygu, rheoleiddio, sicrhau ansawdd a chomisiynu cymwysterau o fewn economi marchnad gymysg yng Nghymru.  Byddai'r fframwaith hwn yn rhoi'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau statudol newydd i Weinidogion Cymru, i'w hymarfer drwy'r uned newydd.  Byddai hyn yn rhoi cryn annibyniaeth weithredol i Gymwysterau Cymru ac yn golygu ei fod yn cael ei ystyried yn go annibynnol.  Y disgwyl oedd i staff Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau Llywodraeth Cymru symud i'r uned newydd.

169. Roedd yr opsiwn hwn hefyd yn golygu creu 'Comisiynydd Cymwysterau' annibynnol, i oruchwylio a chraffu ar waith yr uned reoleiddio (Cymwysterau Cymru), yn ogystal â chyflawni unrhyw swyddogaethau eraill.  Gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru (neu Weinidogion Cymru) benodi'r Comisiynydd Cymwysterau, a byddai gofyn iddo gyflwyno adroddiadau blynyddol gerbron y Cynulliad ar waith Cymwysterau Cymru.  Byddai swydd y Comisiynydd yn gyfreithiol annibynnol ar Gymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru yn ehangach, gan sicrhau rhywfaint o warant o graffu allanol.

170. Byddai gan y Comisiynydd dîm swyddfa, tîm gweinyddol a thîm technegol, a Phwyllgor Cynghori.


**Manteision**

171. Byddai prif ffigwr system gymwysterau Cymru - y Comisiynydd Cymwysterau - yn gweithio ar wahân i'r Llywodraeth, ac yn gallu gweithredu’n annibynnol i ryw raddau.

172. Byddai brand a statws gan y Comisiynydd Cymwysterau, gan godi proffil cymwysterau yng Nghymru, a chreu ymdeimlad o hyder ynghylch datblygu'r agenda.

173. Byddai maint uned Cymwysterau Cymru o fewn Llywodraeth Cymru a'r pwerau newydd yn ei gwneud yn bosibl symud oddi wrth fodel cydweithredol y tair gwlad o reoleiddio cymwysterau.

174. Ni fyddai angen i staff Llywodraeth Cymru symud allan o Lywodraeth Cymru.




**Anfanteision**

175. Nid yw'r model hwn yn rhoi'r annibyniaeth i Gymwysterau Cymru y mae'r Cynulliad a'i randdeiliaid yn gofyn amdani, ac mae'n creu llinellau atebolrwydd dryslyd o ran cymwysterau yng Nghymru. Gallai hyn danseilio hyder y cyhoedd yn system cymwysterau Cymru.

176. Mae'r model hwn yn gymhleth, ac nid yw'n caniatáu'r symlrwydd i Gymru a ddisgrifiwyd yn nogfen ymgynghori'r Bil.

177. Byddai angen swyddfa gymorth ar y Comisiynydd a fyddai'n creu cost ychwanegol. Fel rhan o'i waith, byddai'r Comisiynydd yn gwneud gwaith gwirio a fyddai wedi'i wneud eisoes gan uned Cymwysterau Cymru. Byddai hyn yn dyblygu gwaith ac yn weithredu aneffeithlon.

178. Nid yw’r opsiwn hwn yn cyflawni bwriad y polisi yn ei gyfanrwydd, a byddai angen creu deddfwriaeth sylfaenol er mwyn diddymu rhai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru a rhoi pwerau penodol i’r Comisiynydd.

179. Roedd yn aneglur sut, o weithredu'r model hwn, byddai modd datrys gwrthdaro o ran bwriadau polisi, neu sut byddai'r berthynas rhwng Gweinidogion atebol a Gweinidogion noddi, y Comisiynydd, cyrff dyfarnu a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio mewn ffordd gynhyrchiol.

**Crynodeb**

180. Y farn yw y byddai'r sefydliad - a'i staff yn weision sifil - yn rhy agos i'r Llywodraeth i allu bod yn ddigon annibynnol, ac nid dyma'r defnydd gorau o adnoddau. Nid hwn, felly, yw'r opsiwn a ffefrir.

# Opsiwn 3


**Yr opsiwn a ffefrir: Creu corff rheoleiddiol hyd braich**

181. Mae'r opsiwn hwn yn golygu diddymu swyddogaethau rheoleiddio Gweinidogion Cymru, a rhoi swyddogaethau dyfarnu a rheoleiddio i gorff statudol a noddir gan Lywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru.

182. Byddai'r sefydliad yn cyflawni ei swyddogaethau cymwysterau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Byddai'n ddyletswydd arno i roi sylw i bolisïau perthnasol Llywodraeth Cymru y byddai Gweinidogion Cymru am ddod â nhw i'w sylw a gallai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ychwanegol sy'n ymwneud â chymwysterau.

183. Byddai'r corff yn gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau a gymeradwyir yng Nghymru, ac am gomisiynu cymwysterau penodol - fel y gall ymateb yn fwy effeithiol a phenodol i anghenion dysgwyr Cymru, yn unol â gweledigaeth Adolygiad 2012.

184. Byddai'r corff yn derbyn cytundeb cyllid blynyddol a llythyr dyrannu grant oddi wrth Lywodraeth Cymru, yn amlinellu ei gyfrifoldebau gweinyddol ac ariannol. O ran ei swyddogaethau cymwysterau, byddai'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.




185. Byddai'r corff yn gallu mynd ati'n annibynnol i wneud gwaith ymchwil a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu unrhyw unigolyn arall ar fater cymwysterau Cymru.

186. Er na fydd y Bil hwn yn rhoi swyddogaethau dyfarnu i Gymwysterau Cymru, bwriad y polisi yw ei wneud yn gorff dyfarnu maes o law, er y byddai'n rhaid creu mwy o ddeddfwriaeth sylfaenol yn gyntaf. Mae'r swyddogaeth ddyfarnu y tu hwnt i gwmpas y Bil hwn.

187. Y disgwyl yw y byddai'r corff yn cael ei staffio gan y rhan fwyaf o weithwyr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau'r Adran Addysg a Sgiliau.

188. Rhoddir uned fasnachu i'r sefydliad ar wahân i'w swyddogaethau cymwysterau, er mwyn iddo allu ymgymryd â gweithgarwch economaidd o fewn ffiniau cymhwysedd Gweinidogion Cymru.

**Manteision**

189. Câi Cymwysterau Cymru ei sefydlu fel corff sy'n annibynnol ar y Llywodraeth o ran ei swyddogaethau cymwysterau.

190. Gallai'r sefydliad ddarparu llais arbenigol clir a brand cydnabyddedig, gan godi proffil cymwysterau Cymru a'u gwerth yng ngolwg y cyhoedd. Bydd hyn yn cynyddu hyder y cyhoedd yn y gwaith o ddatblygu cymwysterau Cymru a'i system gymwysterau, ac yn sicrhau bod dysgwyr yn elwa ar gymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol.

191. Mae'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn bosibl symud oddi wrth fodel cydweithredol y tair gwlad o reoleiddio cymwysterau, gan leihau gorddibyniaeth ar Ofqual. Bydd Cymwysterau Cymru yn gallu ymarfer

mwy o reolaeth dros y system gymwysterau yng Nghymru a mynd ati i ddelio ag anghenion Cymru.

192. Byddai cael gwared â swyddogaeth rheoleiddio cymwysterau (cyffredinol a galwedigaethol) yng Nghymru o'r Llywodraeth yn cael gwared ag unrhyw ganfyddiad o ymyrraeth wleidyddol wrth wneud penderfyniadau rheoleiddio yng Nghymru.

193. Gall deddfwriaeth sylfaenol roi pwerau i Gymwysterau Cymru sy'n mynd y tu hwnt i'r rheini sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn cynnwys y pŵer i gomisiynu a rheoli'r rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru; gan ei gwneud yn bosibl i Gymru symud oddi wrth y dull o ddarparu cymwysterau ar sail y farchnad a thuag at un gyfres o gymwysterau i Gymru. Bydd hyn, yn ei dro, yn symleiddio'r system gymwysterau ac yn helpu i gryfhau gwaith rheoleiddio.

194. Efallai y bydd creu incwm o weithgarwch busnesau annibynnol yn ei gwneud yn bosibl i'r sefydliad ysgafnhau ar y baich ar y pwrs cyhoeddus yn y tymor hirach.

195. Bydd Cymwysterau Cymru yn gallu gweithredu'r *Adolygiad o Gymwysterau* yn llawn a pharhau i adeiladu ar yr uchelgeisiau hynny, gan y bydd yn gallu ymateb i newidiadau yn anghenion dysgwyr a'r sefyllfa o ran cymwysterau.

**Anfanteision**

196. Byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn golygu gwneud newidiadau a gwelliannau sylweddol i ddeddfwriaeth sylfaenol i sefydlu'r corff.

197. Byddai angen i staff Llywodraeth Cymru sy'n cytuno i ymuno â'r sefydliad newydd symud allan o Lywodraeth Cymru, gan roi baich ychwanegol arnynt, a gallai hyn amharu ar y gwaith rheoleiddio.

198. Gallai sefydlu Cymwysterau Cymru yn gorff hyd braich y tu allan i’r Llywodraeth beri i bobl ei gymharu ag ACCAC gynt a unwyd â’r Llywodraeth – er y dylid nodi bod gan ACCAC gyfrifoldebau mewn perthynas â’r cwricwlwm, swyddogaethau sydd yn yr achos hwn yn parhau gyda’r Llywodraeth.

**Crynodeb**

199. Hwn yw'r unig opsiwn sy'n cyflawni'n llawn amcanion annibyniaeth, symleiddio a chryfhau'r broses reoleiddio ac sy'n creu model sy'n gallu ymateb i newidiadau yn y sefyllfa gymwysterau yn y dyfodol a'r uchelgais yn y tymor hirach ar gyfer system gymwysterau i Gymru.

# 8. Costau a Manteision

200. Mae'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn wedi'u cyfrifo dros gyfnod o bum mlynedd. Lle bo'n briodol, caiff y costau eu nodi yn nhermau eu gwerth presennol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5%. Mae hyn yn unol â chyfarwyddyd Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

201. Mae'r asesiad hwn yn darparu'r amcangyfrif gorau o'r costau ar sail:

- Ymarfer prisio lefel uchel PwC a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru

- Prosiect Cwmpasu TGCh Cymwysterau Cymru, a gomisiynwyd fel rhan o Brosiect Pontio Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ei hun

- Dadansoddiad o'r opsiynau ar gyfer gwasanaethau i gefnogi Cymwysterau Cymru, a gomisiynwyd o PwC, gan Dîm Pontio Cymwysterau Cymru.

202. Mae’r opsiynau a nodir isod yn amlinellu goblygiadau pob opsiwn o ran costau i Lywodraeth Cymru. Fel yr esbonnir ymhellach ym mharagraffau 257 a 258 ym Mhennod 9, ni ddisgwylir i’r opsiynau gael effaith ariannol ar sefydliadau eraill (megis awdurdodau lleol, ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr). Disgwylir i unrhyw gostau ychwanegol fod yn fach iawn.

203. Lluniwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn mewn ymgynghoriad â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, yn:

- Yr Uned Cyngor Economaidd
- Cyllid Llywodraeth Cymru
- Cyllidebu a Monitro Strategol

204. Rhoddir manylion pob ymarfer ymgynghori ym Mhennod 4 y ddogfen hon.

205. At ddibenion y gwaith costio hwn, ar gyfer pob opsiwn cymerir y bydd y sefydliad yn cychwyn gweithredu ym Medi 2015, yn unol â’r bwriad. Bydd modd gwneud hyn drwy gychwyn y darpariaethau i sefydlu’r corff yn gynnar, gan ei gwneud yn bosibl sefydlu seilwaith y corff, a hyfforddi a pharatoi staff i ymgymryd â’u swyddogaethau.

206. Rhoddir mwy o fanylion y fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y costau yn Atodiad B.

# Opsiwn 1

**Opsiwn 1a - Gwneud dim: Gweinidogion Cymru i gadw eu swyddogaeth reoleiddio.**

**Opsiwn 1b - Gwneud dim, ond parhau i ymateb i'r gwahanu graddol sy'n digwydd rhwng arferion y tair gwlad, gyda swyddogion yn Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau Llywodraeth Cymru yn llywio'r gwaith o ddiwygio cymwysterau yng Nghymru (yn dilyn yr *Adolygiad o Gymwysterau)***

## Costau

207. Yn dechnegol, fel opsiwn 'gwneud dim', ni ddylai'r opsiwn hwn olygu unrhyw gostau ychwanegol - dangosir hwn fel Opsiwn 1a.

208. Mae'r tabl isod yn rhoi amcan o gostau cynnal Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau AdAS am y pum mlynedd nesaf (gan ddefnyddio cyllidebau 2015-16 fel llinell sylfaen), costau sy'n daladwy gan Lywodraeth Cymru (gweler Tablau 5, 6 a 28 yn Atodiad B).

**Tabl 1**

| Costau i Lywodraeth Cymru | | 2015-2016 | | 2016-2017 | | 2017-2018 | | 2018-2019 | | 2019-2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau Refeniw: Staff - Swyddogaethau cymwysterau | £ | 1,562,000 | £ | 1,562,000 | £ | 1,562,000 | £ | 1,562,000 | £ | 1,562,000 |
| Costau Refeniw: Staff - ac eithrio cyflogau | £ | 64,000 | £ | 64,000 | £ | 64,000 | £ | 64,000 | £ | 64,000 |
| Cyllideb y rhaglen | £ | 2,380,000 | £ | 2,380,000 | £ | 2,380,000 | £ | 2,380,000 | £ | 2,380,000 |
| **CYFANSWM** | **£** | **4,006,000** | **£** | **4,006,000** | **£** | **4,006,000** | **£** | **4,006,000** | **£** | **4,006,000** |

209. Serch hynny, er nad yw creu Cymwysterau Cymru wedi'i gynnwys o fewn yr opsiwn hwn, byddai Gweinidogion (drwy Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau Llywodraeth Cymru) yn ceisio ymateb i'r camu graddol oddi wrth weithredu ar lefel tair gwlad ac yn parhau, i'r graddau posibl, i weithredu argymhellion eraill yr *Adolygiad o Gymwysterau.* Yn ymarferol, byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol.

210. Ni fyddai'n gywir, felly, cyflwyno'r opsiwn 'gwneud dim' fel opsiwn sydd heb unrhyw gostau ychwanegol, ac felly Opsiwn 1b yw'r opsiwn 'gwneud dim' realistig. Mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u prisio o fewn yr opsiwn hwn er mwyn darlunio'n well wir gost peidio â mynd ati i sefydlu corff statudol:

- *Symud oddi wrth drefn gydweithredol y tair gwlad*
  Prisiwyd staff cymwysterau/rheoleiddio ychwanegol i gryfhau'r swyddogaeth reoleiddio a chyflawni dyletswyddau ychwanegol tebyg i'r tasgau a gyflawnir ar hyn o bryd gan Ofqual ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, amrywiaeth o dasgau sy'n ymwneud â datblygu trefniadau achredu, monitro, adolygu a rheoleiddio.

- *Gwaith ymchwil*
  Câi mwy o ymchwil ei wneud a'i reoli i helpu i ddiwygio cymwysterau a gweithgareddau rheolaidd eraill yng Nghymru.

- *Comisiynu cymwysterau*
  Prisiwyd staff i oruchwylio'r gwaith o gaffael contractau yn ôl y gofyn a gomisiynir mewn perthynas â chymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig i'w comisiynu i Gymru.

211. Mae'r tabl isod yn rhoi amcan o gostau Opsiwn 1b. Mae mwy o fanylion yn Nhablau 5, 6, 7, 8 a 28 o Atodiad B.

**Tabl 2**

| Costau i Lywodraeth Cymru | | 2015-2016 | | 2016-2017 | | 2017-2018 | | 2018-2019 | | 2019-2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau Refeniw: Staff - Swyddogaethau cymwysterau | £ | 2,228,000 | £ | 2,703,000 | £ | 2,703,000 | £ | 2,703,000 | £ | 2,703,000 |
| Costau Refeniw: Staff - ac eithrio cyflogau | £ | 64,000 | £ | 64,000 | £ | 64,000 | £ | 64,000 | £ | 64,000 |
| Costau Refeniw: Staff Ychwanegol (ac eithrio cyflogau) | £ | 117,000 | £ | 76,000 | £ | 76,000 | £ | 76,000 | £ | 76,000 |
| Costau Refeniw: TGCh | £ | 289,000 | £ | 79,000 | £ | 79,000 | £ | 79,000 | £ | 79,000 |
| Cyllideb y rhaglen | £ | 2,380,000 | £ | 2,380,000 | £ | 2,380,000 | £ | 2,380,000 | £ | 2,380,000 |
| **CYFANSWM** | **£** | **5,078,000** | **£** | **5,302,000** | **£** | **5,302,000** | **£** | **5,302,000** | **£** | **5,302,000** |

212. Ni ddisgwylir unrhyw gostau ychwanegol i gyrff dyfarnu, dysgwyr na chyflogwyr yn sgil yr opsiwn hwn.

213. Gwerth presennol costau Opsiwn 1b ar gyfer y cyfnod 2015-16 i 2019-20 yw £23,722,000.

### Manteision

214. Prif fantais yr opsiwn hwn yw osgoi costau sefydlu a chostau rhedeg yr opsiwn a ffefrir.

215. Drwy ddod â dibyniaeth Cymru ar Ofqual i ben, a’r angen presennol i alinio polisïau a phrosesau, mae’r opsiwn hwn yn rhoi rhyddid i swyddogion ddefnyddio cyfleoedd ac adnoddau mewn ffordd a fydd yn sicrhau’r fantais fwyaf i Gymru.

## Opsiwn 2

**Gwneud cyn lleied â phosibl: Creu rôl a swyddfa ar gyfer Comisiynydd annibynnol i graffu ar weithgarwch uned o fewn Llywodraeth Cymru.**

### Costau

216. Mae yna gostau ychwanegol i'r opsiwn hwn o gymharu ag Opsiynau 1a ac 1b.

217. Mae'r tabl isod yn rhoi amcan o gostau sefydlu rôl Comisiynydd Cymwysterau allanol a swyddfa ategol, a chostau rhedeg Cymwysterau

Cymru fel adran o fewn Llywodraeth Cymru am y pum mlynedd nesaf, gyda'r disgwyliad y byddai'r uned yn parhau i ddatblygu agenda'r *Adolygiad o Gymwysterau* cyn belled â phosibl. (Esbonnir y costau hyn ymhellach ym mharagraffau 36 i 58 o Atodiad B.)

218. Llywodraeth Cymru fyddai'n talu'r costau hyn.

**Tabl 3**

| **Costau i Lywodraeth Cymru** | **2015-2016** | **2016-2017** | **2017-2018** | **2018-2019** | **2019-2020** |
|---|---|---|---|---|---|
| **COSTAU SEFYDLU** | | | | | |
| Costau Refeniw: Cost y prosiect i roi'r sefydliad newydd ar waith | £ 1,090,000 | | | | |
| Costau Refeniw: Staff - ac eithrio cyflogau | £ 164,000 | | | | |
| Costau Refeniw: TGCh | £ 356,000 | | | | |
| Costau Cyfalaf: TGCh | £ 119,000 | | | | |
| Costau Cyfalaf: Gosodiadau a Ffitiadau | £ 90,000 | | | | |
| **COSTAU GWEITHREDOL** | | | | | |
| **Costau Rhedeg** | | | | | |
| Costau Refeniw: Staff - Corfforaethol | £ 830,000 | £ 1,305,000 | £ 1,305,000 | £ 1,305,000 | £ 1,305,000 |
| Costau Refeniw: Staff - Swyddogaethau cymwysterau | £ 2,228,000 | £ 2,703,000 | £ 2,703,000 | £ 2,703,000 | £ 2,703,000 |
| Costau Refeniw: Staff - ac eithrio cyflogau | £ 189,000 | £ 218,000 | £ 218,000 | £ 218,000 | £ 218,000 |
| Costau Refeniw: TGCh | £ 29,000 | £ 138,000 | £ 138,000 | £ 138,000 | £ 138,000 |
| Costau Refeniw: Safle | £ 136,000 | £ 235,000 | £ 235,000 | £ 235,000 | £ 235,000 |
| Costau Refeniw: Eraill, Cyfreithiol a Phroffesiynol | £ 130,000 | £ 222,000 | £ 222,000 | £ 222,000 | £ 222,000 |
| Dibrisiant | £ 25,000 | £ 42,000 | £ 42,000 | £ 42,000 | £ 42,000 |
| Gwariant Rhaglen Cymwysterau Cymru (Ymchwil etc) | £ 2,380,000 | £ 2,380,000 | £ 2,380,000 | £ 2,380,000 | £ 2,380,000 |
| **CYFANSWM** | **£ 7,766,000** | **£ 7,243,000** | **£ 7,243,000** | **£ 7,243,000** | **£ 7,243,000** |

219. Mae'r costau cychwynnol mwyaf sylweddol yn ymwneud â'r buddsoddiad sy'n ofynnol ar gyfer systemau TGCh er mwyn cynnal swyddfa allanol y Comisiynydd, a chostau recriwtio staff ychwanegol y model.

220. Mae'r model hwn yn ymgorffori strwythur llywodraethu ychwanegol, sef rôl Comisiynydd a thîm gweinyddol ategol o 20, yn ogystal â Bwrdd Llywodraethu o 11 o Aelodau, gan gynnwys Cadeirydd.

221. Yn ogystal, prisiwyd 15 o staff ychwanegol i ganolbwyntio ar gymwysterau, er mwyn cryfhau'r swyddogaeth reoleiddio a chyflawni dyletswyddau ychwanegol tebyg i'r tasgau a gyflawnir ar hyn o bryd gan Ofqual ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, amrywiaeth o dasgau sy'n ymwneud â datblygu trefniadau achredu, monitro, adolygu a rheoleiddio.

222. Hefyd, prisiwyd 8 o staff pellach, i helpu'r sefydliad i gomisiynu ac ymchwilio.

223. Ni ddisgwylir unrhyw gostau ychwanegol i gyrff dyfarnu, dysgwyr na chyflogwyr yn sgil yr opsiwn hwn.

224. Gwerth presennol costau Opsiwn 2 ar gyfer y cyfnod 2015-16 i 2019-20 yw £33,208,000.

225. Dylid nodi bod costau'r opsiwn hwn wedi'u hamcangyfrif gan ddefnyddio data cyfrifyddu o swyddfeydd Comisiynwyr o faint tebyg yng Nghymru, ac addasu'r data hynny ar gyfer 20 o staff ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Cymwysterau. Ni ymchwiliwyd yn fanwl i'r opsiwn hwn, gan fod penderfyniad wedi'i wneud yn fuan i beidio â bodloni gofynion polisi, ac felly gallai costau'r opsiwn hwn amrywio, yn dibynnu ar union hyd a lled gwaith y Comisiynydd ac felly nifer y staff sy'n ofynnol. Amcan ceidwadol yw'r opsiwn a gyflwynir yma o gostau Swyddfa Comisiynydd lle byddai 20 o staff cymorth, gan gostio £2,172,000 yn ei blwyddyn gyntaf. Serch hynny, mae gan swyddfeydd Comisiynwyr eraill strwythur staffio o ryw 50, a fyddai'n gallu dyblu costau Swyddfa'r Comisiynydd i £5,010,000 yn ei blwyddyn gyntaf (gweler tabl 12 yn Atodiad B).

### Manteision

226. Gwerth am arian: mae'r model hwn yn elwa ar wasanaethau corfforaethol Llywodraeth Cymru, swyddfeydd presennol a'r trefniadau pensiwn sy'n bodoli eisoes. Mae'n ddull, felly, o sicrhau parhad busnes mewn ffordd sy'n ddiogel yn ariannol, gan leihau'r risgiau i ddysgwyr ar wahanol adegau'r cylch cymwysterau.

227. Nid yw'r opsiwn hwn yn golygu costau yn ymwneud â materion adnoddau dynol, megis Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 a phensiynau.

228. Gan y byddai'r rhan fwyaf o'r staff sy'n ofynnol i weithredu'r system newydd yn parhau'n weision sifil i Lywodraeth Cymru, nid oes perygl bod arbenigedd yn cael ei golli pe na bai staff yn dymuno symud i gorff allanol.

229. Drwy ddod â dibyniaeth Cymru ar Ofqual i ben, a'r angen presennol i alinio polisïau a phrosesau, mae'r opsiwn hwn yn rhoi rhyddid i swyddogion ddefnyddio cyfleoedd ac adnoddau mewn ffordd a fydd yn sicrhau'r fantais fwyaf i Gymru.

## Opsiwn 3

**Yr opsiwn a ffefrir: Creu corff rheoleiddiol hyd braich i ddechrau, gyda'r bwriad o'i wneud yn gorff dyfarnu maes o law.**

### Costau

230. Mae cryn gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn o gymharu ag Opsiynau 1 a 2. Mae'r costau hyn wedi'u nodi yn nhabl 4 isod, ac wedi'u hesbonio ymhellach ym mharagraffau 59 – 90 o Atodiad B.

231. Bydd Cymwysterau Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy grant cymorth. Gallai fod yn bosibl hefyd i Gymwysterau Cymru greu incwm ychwanegol drwy werthu

gwasanaethau yn y dyfodol, ond gan ei bod yn amhosibl rhagweld gweithgarwch busnes yn y dyfodol, mae'r costau hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyllid 100%.

**Tabl 4**

| **Costau i Lywodraeth Cymru** | **2015-2016** | **2016-2017** | **2017-2018** | **2018-2019** | **2019-2020** |
|---|---|---|---|---|---|
| **COSTAU SEFYDLU** | | | | | |
| Costau Refeniw: Staff - Cost y prosiect i roi'r sefydliad newydd ar waith | £ 1,202,000 | | | | |
| Costau Refeniw: Staff - Corfforaethol | £ 240,000 | | | | |
| Costau Refeniw: Staff - ac eithrio cyflogau | £ 294,000 | | | | |
| Costau Refeniw: Safle | £ 232,000 | | | | |
| Costau Refeniw: TGCh | £ 580,000 | | | | |
| Costau Cyfalaf :TGCh | £ 664,000 | | | | |
| Costau Cyfalaf: Gosodiadau a Ffitiadau | £ 226,000 | | | | |
| **COSTAU GWEITHREDOL** | | | | | |
| Costau Refeniw: Staff - Corfforaethol | £ 869,000 | £ 1,490,000 | £ 1,490,000 | £ 1,490,000 | £ 1,490,000 |
| Costau Refeniw: Staff - Swyddogaethau cymwysterau | £ 1,862,000 | £ 2,422,000 | £ 2,422,000 | £ 2,422,000 | £ 2,422,000 |
| Costau Refeniw: Staff - ac eithrio cyflogau | £ 95,000 | £ 163,000 | £ 163,000 | £ 140,000 | £ 123,000 |
| Costau Refeniw: Staff - Uned Noddi | £ 102,000 | £ 203,000 | £ 203,000 | £ 203,000 | £ 203,000 |
| Costau Refeniw: Safle | £ 436,000 | £ 748,000 | £ 748,000 | £ 748,000 | £ 748,000 |
| Costau Refeniw: TGCh | £ - | £ 326,000 | £ 326,000 | £ 326,000 | £ 326,000 |
| Costau Refeniw: Eraill, Cyfreithiol a Phroffesiynol | £ 180,000 | £ 306,000 | £ 306,000 | £ 306,000 | £ 306,000 |
| Costau Cyfalaf: TGCh | £ - | £ - | £ - | £ 178,000 | £ - |
| Dibrisiant | £ 50,000 | £ 86,000 | £ 86,000 | £ 86,000 | £ 86,000 |
| Gwariant Rhaglen Cymwysterau Cymru (Ymchwil etc) | £ 2,380,000 | £ 2,380,000 | £ 2,380,000 | £ 2,380,000 | £ 2,380,000 |
| **Cyfanswm** | **£ 9,412,000** | **£ 8,124,000** | **£ 8,124,000** | **£ 8,279,000** | **£ 8,084,000** |

232. Mae'r costau uchaf a ddangosir yn ymwneud â chostau staffio sydd, yn achos staff swyddogaethau, eisoes yn cael eu talu, i raddau helaeth, o gyllidebau Llywodraeth Cymru. Mae'r costau cychwynnol mwyaf sylweddol yn ymwneud â chostau adeiladau a chostau seilwaith TGCh.

233. Ar lefel bob dydd, mae'r costau mwyaf sylweddol (ac eithrio costau staff cymwysterau) yn ymwneud â chostau adeiladau, a chostau staffio corfforaethol.

234. Mae'r model hwn yn cynnwys creu Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae ei strwythur llywodraethu yn cynnwys Prif Weithredwr, a Bwrdd o 10 Aelod, yn ogystal â Chadeirydd.

235. Amcangyfrifir y byddai angen 73 o staff ar y sefydliad, sy'n cynnwys 3 a secondiwyd ar hyn o bryd o Lywodraeth Cymru i CBAC.

236. Ni ddisgwylir unrhyw gostau sylweddol i gyrff dyfarnu, dysgwyr na chyflogwyr yn sgil yr opsiwn hwn. Pe bai Cymwysterau Cymru yn arfer ei hawl i adennill costau gwasanaethau rheoleiddio, byddai cyrff dyfarnu yn gorfod talu'r ffioedd penodedig. Beth bynnag yw'r costau sy'n codi, dyna fydd yr unig ffioedd y ceir eu codi, a hynny'n unol â threfn sydd wedi'i chymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Bydd yn rhaid i benderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch y drefn ffioedd fod yn seiliedig ar asesiad o effaith.

237. Gwerth presennol costau Opsiwn 3 ar gyfer y cyfnod 2015-16 i 2019-20 yw £38,026,000.

**Manteision**

238. Nid oes unrhyw fanteision ariannol uniongyrchol i'r opsiwn hwn.

239. Bydd cyflwyno’r rhestr o gymwysterau blaenoriaethol a phwerau i gyfyngu ar gymwysterau yn rhoi cyfle i Gymwysterau Cymru ganolbwyntio ar ei gyfeiriad strategol. Nid yw’n bosibl cyfrifo union werth ariannol y fantais hon, gan nad yw’n hysbys eto pa gymwysterau y cyfyngir arnynt a pha rai a gomisiynir. Mater i Gymwysterau Cymru fydd nodi’r rhain.

240. Mae cost ychwanegol uchel i'r opsiwn hwn, ac fe'i cydnabuwyd gan y Cabinet fel cost y gellir ei chyfiawnhau er mwyn cael system gymwysterau annibynnol yng Nghymru. Ni ystyriwyd bod cadw'r status quo, fel yn Opsiwn 1, na chreu sefydliad ffug-annibynnol, fel yn Opsiwn 2, yn werth am arian, er gwaethaf y costau is.

241. Mae cost sefydlu Cymwysterau Cymru yn cynrychioli cost annibyniaeth; mae'n darparu swyddogaeth reoleiddio gref i Gymru nad yw'n dibynnu ar weithio ar sail tair gwlad, gydag arbenigedd proffesiynol sydd y tu allan i Lywodraeth Cymru.

242. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig corff penderfynu annibynnol sydd ag enw da i Gymru, gan roi'r pŵer iddo wneud penderfyniadau cyson a phroffesiynol yn erbyn meini prawf clir a thryloyw. Mae tystiolaeth yn yr *Adolygiad o Gymwysterau* o werth hyn. Daeth yr Adolygiad i'r casgliad bod angen corff annibynnol yng Nghymru. Mae llwyddiant Awdurdod Cymwysterau'r Alban yn enghraifft o hyn.

243. Drwy gael un corff annibynnol ac awdurdodol i gynrychioli'r system gymwysterau yng Nghymru, bydd Cymru mewn sefyllfa well i ymateb i newidiadau o ran cymwysterau yn y DU, a bydd ganddi lais awdurdodol a berchir ac y gellir ei glywed ym meysydd cymwysterau Ewrop ac yn rhyngwladol.

244. Ni fydd y sefydliad ei hun yn dod â mantais ariannol, ond fel cyfrwng i greu system gymwysterau yng Nghymru, yn ogystal â hyder, cysondeb, eglurder, atebolrwydd ac awdurdod, bydd ei effeithiau yn bellgyrhaeddol ledled y wlad, i ddysgwyr a chyflogwyr yng Nghymru, a thu hwnt. Drwy ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd a sefydlu'r corff mewn ffordd sy'n gallu dylanwadu'n bositif ar bolisi cymwysterau, aseswyd bod creu sefydliad o'r fath yn werth y gost i'r pwrs cyhoeddus.

245. Drwy drefnu nad yw Cymru yn dibynnu ar Ofqual, a chael gwared â'r angen cyfredol i gydblethu polisïau a phrosesau, mae'r opsiwn hwn yn rhoi rhyddid i swyddogion ddefnyddio cyfleoedd ac adnoddau i'r fantais orau i Gymru.

246. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi Cymru yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion ei dinasyddion (dysgwyr a busnesau), yn enwedig y rheini sy'n siarad

Cymraeg. Mae hyn, yn ei dro, yn debygol o arwain at sefyllfa lle bydd dinasyddion yn gallu cyfrannu'n fwy at yr economi**.**

247. Bydd cynnwys uned fasnachu yn golygu y gall Cymwysterau Cymru, yn y tymor hirach, greu ei incwm ei hun, a allai leihau baich cost y sefydliad ar y pwrs cyhoeddus.

## Crynodeb

248. Oherwydd natur y manteision a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nid yw'n hawdd mesur y costau. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cymharu'r costau a'r manteision yn wrthrychol. Er hynny, mae'n rhaid ceisio asesu p'un a yw'r manteision yn cyfiawnhau'r costau ychwanegol.

249. Opsiwn 1 sy'n costio leiaf ac mae'n cyflawni rhan o ofynion y polisi; byddai'r gwaith o ddiwygio cymwysterau yng Nghymru yn parhau, ond heb ymdeimlad o arbenigedd annibynnol ac o berchnogaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n methu â chyflawni'r prif ofyniad polisi, ac ni chaiff ei ystyried yn opsiwn addas.

250. Unwaith eto, mae Opsiwn 2 yn cyflawni'r gofynion polisi yn rhannol. Mae creu Comisiynydd Cymwysterau yn mynd rywfaint o'r ffordd i sicrhau peth annibyniaeth. Fodd bynnag, mae'r sefydliad annibynnol dan sylw yn un llawer llai nag yn achos yr opsiwn a ffefrir, a byddai'n arwain at rywfaint o ddyblygu gwaith, gan ddefnyddio adnoddau ychwanegol yn gwirio gweithgareddau cyrff eraill yn hytrach na chyflawni ei waith ei hun. Er ei fod yn rhatach, felly, nag Opsiwn 3, mae'r opsiwn hwn yn dal i fethu â chyflawni gofynion y polisi yn llawn, ac ni chaiff ei ystyried yn opsiwn addas.

251. Mae Opsiwn 3 yn cyflawni gofynion y polisi yn llawn. Mae'n costio mwy nag Opsiynau 1 a 2, ond mae'r posibiliadau i wneud gwahaniaeth a sicrhau gwir annibyniaeth yn fwy.

252. Yr hyn sydd wrth wraidd y penderfyniad yw'r gwerth a roddir ar ofynion y polisi. Opsiwn 3 sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian gan ei fod yn cyflawni'r amcan yn llawn, ac yn y cyd-destun hwn mae yna gyfiawnhad dros y gost ychwanegol. Dylid cymharu hyn â (diffyg) gwerth tybiedig cadw'r sefyllfa fel y mae yng Nghymru (Opsiwn 1) neu â darparu fersiwn wannach ar gyfer Cymru o'r hyn sy'n ofynnol (Opsiwn 2). Ar y sail hon, Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir.

# 9. Asesiad o'r Gystadleuaeth ac Asesiadau o Effeithiau Penodol

## Asesiad o'r gystadleuaeth

253. Cynhaliwyd prawf ffiltr cystadleuaeth mewn perthynas â pholisi'r Bil, gan y gallai ei ddarpariaethau effeithio ar bris, ansawdd, ystod a lleoliad y cymwysterau y mae yna farchnad ar eu cyfer yn y DU.

254. Mae darparwyr cymwysterau, 'cyrff dyfarnu', yn gweithredu ar draws y DU, ac felly mae'r 'farchnad gymwysterau' yn bodoli ar lefel y DU.

255. Y nod yw sicrhau, lle bo'n briodol, bod nifer y fersiynau gwahanol o gymwysterau blaenoriaethol penodol a gymeradwyir yng Nghymru yn gyfyngedig, er enghraifft un TGAU Hanes yn lle pedwar. Nid cael gwared â darparwyr o'r farchnad gymwysterau yw'r bwriad. Mae angen llai o fersiynau o gymwysterau allweddol yng Nghymru nag sydd gennym ar hyn o bryd, ond mae marchnad gystadleuol iach i ddarparu'r cymwysterau hynny yn bwysig o ran y system gymwysterau gyffredinol, ac mae'n un o'n hamcanion polisi i gynnal marchnad gymwysterau gystadleuol i ddyfarnu cymwysterau yng Nghymru.

256. Roedd y prawf yn dangos nad yw'r gystadleuaeth yn debygol o ddioddef o gwbl o fewn y farchnad gymwysterau[2]. Ni thybiwyd, felly, fod angen asesiad manwl pellach.

257. Bydd strwythur y farchnad yn parhau'n gystadleuol. Mae'n annhebygol y bydd nifer y cyrff dyfarnu yn newid yn sgil y polisi hwn gan mai rhan fach yw Cymru o farchnad ehangach y DU, a bod y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu, gan gynnwys CBAC, yn gweithredu ar draws y DU, nid dim ond yng Nghymru. Ni ddisgwylir cynnydd sylweddol, felly, o ran costau na'r farchnad lafur, na gostyngiad yn y lefelau busnes ar gyfer cyflenwyr presennol na chyflenwyr newydd i'r farchnad yn sgil y polisi a ddaw i rym drwy'r Bil arfaethedig hwn. Drwy alluogi Cymwysterau Cymru i ddynodi cymwysterau nad ydynt wedi'u cymeradwyo fel rhai sy'n gymwys i gael cyllid ar gyrsiau a gyllidir yn gyhoeddus i ddysgwyr o dan 19 oed, bydd modd i gyrff dyfarnu barhau i ddarparu'r cymwysterau sy'n bodoli eisoes – o leiaf am gyfnod. Nid yw hyn yn effeithio ar eu gallu i ddyfarnu cymwysterau ar gyrsiau nad ydynt wedi'u cyllido'n gyhoeddus neu ar gyrsiau dysgwyr dros 19 oed. Efallai y bydd yna gostau gweinyddol bach

---

[2] Wrth gynnal y prawf, holodd swyddogion farn uned cyngor economaidd Llywodraeth Cymru, a gadarnhaodd fod cyflenwyr y farchnad gymwysterau yng Nghymru, i bob golwg, yn gweithredu mewn marchnad a oedd yn cynnwys y DU gyfan, a bod marchnad Cymru yn un elfen ohoni. Ar y sail honno, nodwyd ei bod yn annhebygol y byddai'r newidiadau a gynigir ar gyfer y farchnad yng Nghymru yn cael effaith andwyol (o ran maint y cymwysterau na'u nifer) ar y rheini sy'n cyflenwi ar gyfer marchnadoedd cymwysterau Cymru na'r DU.

ynghlwm wrth lunio cynigion i gyflenwi cymwysterau cyfyngedig a gomisiynwyd. Hefyd, bydd Cymwysterau Cymru yn gallu llunio cynllun codi ffioedd sy’n amlinellu’r ffioedd a godir ar gorff dyfarnu mewn perthynas â’r costau a ddaw i Gymwysterau Cymru yn sgil rhai o’i swyddogaethau rheoleiddio, gan gynnwys cydnabod, cymeradwyo, dynodi, adolygu a delio â chwynion. Byddai gofyn cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ymlaen llaw ac, o weithredu cynllun o’r fath, byddai’n effeithio’n ariannol ar gyrff dyfarnu, ond dim ond adennill y costau a wneid. Câi asesiad o’r effaith ei lunio cyn cyflwyno’r mater i’r Gweinidogion, gan ganolbwyntio’n benodol ar yr effaith ariannol ar gyrff dyfarnu.

258. Ni ddisgwylir chwaith y bydd yna gynnydd yn y costau i gyflogwyr na dysgwyr yn sgil y polisi a ddaw i rym drwy’r Bil hwn.

## Asesiadau o Effeithiau Penodol

259. Mae cyfres o asesiadau o effeithiau ar y Bil wedi'i chwblhau fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.  Roedd yr effeithiau yn amrywio mewn nifer o feysydd polisi, ond yn bositif gan mwyaf.

260. Y bwriad yw rhoi'r gwaith o archwilio effeithiau'r sefydliad i Gymwysterau Cymru, pan fydd wedi'i sefydlu.

### Datblygu Cynaliadwy

261. Mae sawl agwedd ar bolisïau Cymwysterau Cymru a datblygu cynaliadwy sy'n cydblethu, er nid yn uniongyrchol bob amser.

262. Mae'r cydblethu amlycaf i'w weld mewn dau faes:

- Ar draws maes diwydiant yng Nghymru, lle bydd Cymwysterau Cymru yn cydweithio'n uniongyrchol â'r sectorau diwydiant hynny sy'n cefnogi agenda Twf Gwyrdd, i sicrhau bod cymwysterau yn addas i'w diben er mwyn hyrwyddo twf cynaliadwy hirdymor ym maes diwydiant, ac yn ei ganlyniadau cysylltiedig, yng Nghymru.

- O ran egwyddorion cydweithredu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, sy'n rhan annatod o brif amcanion y sefydliad newydd.

### Yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd, Bioamrywiaeth

263. Ni nodwyd unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd, yr hinsawdd na bioamrywiaeth yng Nghymru yn sgil y Bil hwn.

## Cydraddoldeb

264. Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb i'w weld ar-lein yn: http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/qualifications-wales/?lang=cy

**Oed (o dan 18)**

265. Y bwriad yw y bydd y sefydliad yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd y cymwysterau blaenoriaethol yng Nghymru a gyflwynir i'w cymeradwyo gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig – ond bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn gallu rheoleiddio pob cymhwyster a ddyfernir gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru sydd o fewn ei gylch cydnabyddiaeth – a bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cymwysterau yn llwyddo i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr a bod hyder gan y cyhoedd yn y cymwysterau hyn ac yn y prosesau rheoleiddio.

266. Dyma'r effeithiau positif arfaethedig ar blant a phobl ifanc:

- y gallant fod yn fwy hyderus y bydd y cymwysterau a ddilynant yn addas i'w diben - o ran cynnwys, dull asesu a'r gallu i symud ymlaen

- y bydd darparwyr addysg bellach ac uwch yn fwy hyderus i gynnig lle iddynt ar raglenni dysgu, ac y cânt fwy o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i lwyddo ar y rhaglenni hynny

- y bydd cyflogwyr yng Nghymru, a'r tu hwnt i Gymru, yn fwy hyderus i gynnig gwaith iddynt ac y bydd y plant a'r bobl ifanc mewn sefyllfa well i berfformio'n dda yn y gwaith hwnnw.

267. Yn y tymor hirach, y gobaith yw y bydd cymaint o barch i gymwysterau a enillir yng Nghymru ac a gymeradwyir gan Gymwysterau Cymru fel y cânt eu hystyried yn ased i blant a phobl ifanc Cymru.

268. Bydd plant a phobl ifanc yng Nghymru yn elwa o ganlyniad, drwy gael eu hystyried yn fyfyrwyr dymunol ac a allai fod yn gyflogeion effeithiol dros ben. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at fwy o botensial o ran cyflogadwyedd, a gwelliannau cysylltiedig, gobeithio, o ran lefelau incwm, iechyd a lles i blant a phobl ifanc Cymru a'u teuluoedd nawr ac i'r cenedlaethau i ddod.

269. Mae manteision iechyd a lles sy'n gysylltiedig â hyder a'r gallu i ennill incwm drwy waith yn creu cylch o fanteision iechyd meddyliol a chorfforol. Y gobaith yw y bydd dysgwyr yn y grŵp oedran hwn a grwpiau oedran eraill yn elwa ar hyn.

270. Ar unrhyw adeg yn ystod y prosiect i sefydlu'r corff (gan gynnwys y broses o basio'r Bil), bydd yna blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd wrthi'n dewis, yn dechrau, yng nghanol, yn cwblhau, neu'n ailsefyll cymwysterau. Cydnabyddir y bydd angen i Lywodraeth Cymru, a

Chymwysterau Cymru, gymryd camau i sicrhau bod pob cohort yn cael y fantais fwyaf bosibl o'r cymwysterau maent yn eu dilyn, ac yn y cyfnod pontio â Chymwysterau Cymru, na fydd unrhyw blentyn na pherson ifanc dan anfantais nac yn manteisio'n annheg. Mae categori newydd cymhwyster 'dynodedig' yn rhoi sicrwydd pellach y parheir i gynnal y ddarpariaeth i blant a phobl ifanc, gan ei gwneud yn bosibl ar yr un pryd i Gymwysterau Cymru roi sylw penodol i ansawdd cymwysterau blaenoriaethol.

271. Er mwyn lleihau'r risg bod y cyfnod pontio o'r hen system i'r newydd yn cael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau o blant a phobl ifanc, sefydlwyd system gyfathrebu ac ymgysylltu yn gynnar, i sicrhau bod y rhwydwaith cymorth o amgylch plant a phobl ifanc (athrawon, canolfannau, cyflogwyr) yn gwbl ymwybodol o'r newidiadau mewn gofynion ac yn gallu cyflawni'r gofynion hynny.

272. Mae adborth gan blant a phobl ifanc yng Nghymru yn codi'r pryder y bydd y cymwysterau a enillir cyn i Gymwysterau Cymru gael ei sefydlu yn cael eu hystyried o ansawdd is na'r rheini a gynigir wedyn, ac y bydd stigma o ryw fath yn gysylltiedig â chymwysterau plant a phobl ifanc sy'n dilyn y cymwysterau hynny nawr.

273. Mae gwaith ar y gweill i ystyried sut y penderfynir ar ganlyniadau, er mwyn peidio â rhoi un cohort o ddysgwyr dan anfantais annheg mewn perthynas ag un arall. Ymarfer busnes arferol yw hwn o fewn Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU a Safon Uwch. Rhoddir cyfarwyddiadau a/neu ganllawiau i'r corff/cyrff dyfarnu ar y broses i'w dilyn wrth benderfynu ar raddau.

274. Yn ogystal, mae'r strategaeth gyfathrebu yn cynnwys datblygu a darparu gwybodaeth ar gyfer pobl ifanc a'u rhieni ar y newidiadau i'r system gymwysterau yng Nghymru.

**Oed (18 i 50)**

275. Mae'r materion cadarnhaol a negyddol sy'n ymwneud â dysgwyr hyd at 18 oed hefyd yn berthnasol i ddysgwyr rhwng 18 a 50 oed.

276. Hefyd, rydym am i waith Cymwysterau Cymru godi hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a enillir yng Nghymru - gan gynnwys hyder cyflogwyr ynddynt wrth gyflogi staff, a chan annog mewnfuddsoddi felly, o bosibl. O ganlyniad, mae manteision y Rhaglen hon yn debygol o bara i'r dysgwr am flynyddoedd mawr o ran cyflogaeth.

**Oed (50+)**

277. Mae'r materion cadarnhaol a negyddol sy'n ymwneud â dysgwyr hyd at 18 oed hefyd yn berthnasol i ddysgwyr dros 50 oed.

**Anabledd**

278. O ran cyflawni anghenion dysgwyr sydd ag anableddau corfforol a/neu ddysgu, ni fydd darpariaethau'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol arnynt gan y bydd y cyfrifoldeb dros ddiwallu eu hanghenion yn cael ei drosglwyddo oddi wrth Lywodraeth Cymru i Gymwysterau Cymru. At hyn, nid yw'r cyfyngiad cyllid ar gwrs i ddysgwyr o dan 19 oed yn berthnasol i ddysgwr sydd ag anabledd dysgu, a hynny er mwyn sicrhau bod modd i ddysgwr o'r fath ddilyn cwrs sy'n briodol i'w amgylchiadau.

**Iechyd Meddwl**

279. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar bobl am fod ganddynt broblemau iechyd meddwl.

**Rhyw**

280. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar bobl oherwydd eu rhyw.

**Trawsrywedd**

281. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd effaith y Bil ar y polisi cymwysterau yng Nghymru yn effeithio ar bobl am eu bod yn drawsrywiol.

**Priodas neu bartneriaeth sifil**

282. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar bobl am eu bod wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil.

**Beichiogrwydd a/neu Famolaeth**

283. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd effaith y Bil ar y polisi cymwysterau yng Nghymru yn effeithio ar bobl o ran beichiogrwydd neu famolaeth.

**Hil**

284. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd effaith y Bil ar y polisi cymwysterau yng Nghymru yn effeithio ar bobl am eu bod yn perthyn i leiafrif ethnig.

**Tarddiad Cenedlaethol**

285. Fel a ddisgrifir yn *'Ein cymwysterau - ein dyfodol'*, bydd y corff newydd a sefydlir gan y Bil yn gallu ymateb yn well i anghenion diwylliannol ac economaidd; er enghraifft, bydd yn gallu mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i Gymru'n unig, megis cynnwys cyrsiau, neu sicrhau dilyniant a chydlyniaeth o ran y cwricwlwm yng Nghymru.

286. O ganlyniad, disgwylir effaith bositif gan y bydd dysgwyr Cymru yn gymwys mewn pynciau sy'n berthnasol iddyn nhw yn ddiwylliannol (er enghraifft yn y cwricwlwm a asesir ar gyfer cymwysterau hanes neu ddaearyddiaeth) ac yn economaidd (lle, er enghraifft, bydd sectorau diwydiant Cymru wedi cydweithio â Chymwysterau Cymru i sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i greu llwyddiant economaidd yn niwydiant Cymru yn cael eu darparu gan ddysgwyr a gweithwyr Cymru).

287. Mae'n destun pryder cyffredinol y dylai cyrsiau Cymwysterau Cymru gael eu parchu ar draws ei ffiniau, yn enwedig yn Lloegr, lle mae llawer o fyfyrwyr Cymru am fynd i gael addysg neu gyflogaeth. Ar wahân i'r canfyddiad cysyniadol o'r cymwysterau hynny, codwyd pryderon am effaith negyddol mewn perthynas ag ymarferoldeb astudio am gymwysterau Cymru a'u hennill yn agos iawn i'r ffin lle mae'r darpar-fyfyrwyr neu'r cyflogeion yn dod o ddwy system gymwysterau wahanol, a lle byddai unrhyw ddiffyg parch at gymwysterau Cymru yn anfantais i ddysgwyr Cymru.

288. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar bobl am eu bod yn perthyn i unrhyw un o'r grwpiau hyn:

- Ceiswyr lloches
- Sipsiwn a theithwyr
- Ymfudwyr

**Cred grefyddol neu nad yw'n grefyddol**

289. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar bobl oherwydd eu cred grefyddol neu eu cred nad yw'n grefyddol.

**Cyfeiriadedd rhywiol**

290. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd darpariaethau'r Bil yn effeithio ar bobl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.

**Hawliau Dynol**

291. Mae darpariaethau'r Bil yn ategu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol erthyglau 12, 29 a 30. Mae'r Bil hefyd yn diogelu mewn ffordd briodol ddysgwyr a chyrff dyfarnu cydnabyddedig y gallai fod angen eu diogelu.

## Y Gymraeg

292. Fel mater polisi, bwriedir maes o law i'r corff gael ei gynnwys o fewn y grŵp o gyrff a enwir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fel rhai sy'n gorfod cydymffurfio â dyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg, sef Safonau'r Gymraeg o dan y system a sefydlir gan y Mesur.

293. Disgwylir i'r mesurau/targedau canlynol gael eu sefydlu i'w cyflawni/cyrraedd gan Gymwysterau Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg - naill ai drwy'r ddeddfwriaeth, drwy'r ddogfen fframwaith neu drwy'r llythyr dyrannu grant blynyddol:

- Rhoi sylw i bolisi a strategaethau Llywodraeth Cymru megis y strategaeth addysg Gymraeg a strategaeth y Gymraeg, *Iaith fyw: iaith byw*

- Rhoi sylw i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy gynnig trefniadau asesu yn y Gymraeg, a chymwysterau sy'n hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffyrdd eraill (gweler adran 3(2)(b))

- Sicrhau bod yna gymwysterau Cymraeg fel pwnc, iaith gyntaf ac ail iaith, a Chymraeg i Oedolion

- Hyrwyddo cymwysterau Cymraeg a hwyluso'r ffordd i ddysgwyr eu dilyn

**Hawliau Plant**

294. Mae Asesiad Effaith y Bil ar Hawliau Plant i'w weld ar-lein yn: [http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/qualifications-wales/?lang=cy](http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/qualifications-wales/?lang=cy)

295. Nodwyd effeithiau positif ar blant a phobl ifanc:

- bod y dewisiadau a gyflwynir iddynt, wrth ddewis eu cymwysterau, yn gliriach

- y gallant fod yn fwy hyderus y bydd y cymwysterau a ddilynant yn diwallu eu hanghenion rhesymol – o ran cynnwys, dull asesu a'r gallu i symud ymlaen

- y bydd darparwyr addysg bellach ac uwch yn fwy hyderus i gynnig lle iddynt ar raglenni dysgu, ac y cânt fwy o'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i lwyddo ar y rhaglenni hynny

- y bydd cyflogwyr yng Nghymru, a'r tu hwnt i Gymru, yn fwy hyderus i gynnig gwaith iddynt ac y bydd y plant a'r bobl ifanc mewn sefyllfa well i berfformio'n dda yn y gwaith hwnnw.

296. Yn y tymor hirach, y gobaith yw y bydd cymaint o barch i gymwysterau a enillir yng Nghymru fel y caiff cymwysterau a reoleiddir gan Gymwysterau Cymru – ac yn benodol y rheini a gymeradwyir ganddo – eu hystyried yn ased i blant a phobl ifanc Cymru. Bydd plant a phobl ifanc yng Nghymru yn elwa o ganlyniad, drwy gael eu hystyried yn fyfyrwyr dymunol ac a allai fod yn gyflogeion effeithiol dros ben. Bydd

hyn, yn ei dro, yn arwain at fwy o botensial o ran cyflogadwyedd, a gwelliannau cysylltiedig, gobeithio, o ran lefelau incwm, iechyd a lles i blant a phobl ifanc Cymru a'u teuluoedd nawr ac i'r cenedlaethau i ddod.

297. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau na fydd yna effaith negyddol ar blant a phobl ifanc yng Nghymru yn sgil canfyddiad bod y cymwysterau a enillir *cyn* i Gymwysterau Cymru gael ei sefydlu o ansawdd is na'r rheini a gynigir wedyn, fel bod stigma o ryw fath yn gysylltiedig â chymwysterau plant a phobl ifanc sy'n dilyn y cymwysterau hynny nawr. Ymarfer busnes arferol yw hwn o fewn yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU a Safon Uwch.

## Iechyd

298. O ran iechyd, gwelir prif effeithiau'r polisi hwn yn y meysydd canlynol, sef rhai o benderfynyddion cymdeithasol cyffredin iechyd:

### Incwm / Tlodi

299. Mae yna ddisgwyliad y bydd y polisi hwn, yn sgil sefydlu corff i wella canlyniadau addysgol dysgwyr Cymru, yn cael effaith bositif maes o law ar incwm pobl Cymru drwy well cyfleoedd cyflogaeth, ac fel y disgrifir isod, dros amser dylai helpu i leihau tlodi a'i effeithiau cysylltiedig.

### Addysg

300. Disgwylir y bydd cryfhau'r system gymwysterau yn ategu llawer o'r camau sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ym maes cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru ac y bydd y cysondeb mwy, yn sgil cyfyngu ar rai cymwysterau blaenoriaethol, lle bo’n briodol, yn arwain at ansawdd gwell a chymwysterau mwy cyson, gan wella’r cyfleoedd i'r rheini sy'n ennill y cymwysterau, a chanfyddiad cyflogwyr o'r sgiliau a'r cymwysterau a enillir. Y gobaith yw y bydd yn arwain at gyflogaeth o ansawdd uchel, gan wella'r amodau lle caiff pobl eu geni, lle maent yn byw ac yn codi eu teuluoedd.

### Cyflogaeth

301. Disgwylir i ddarpariaethau'r Bil, sy’n ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ganolbwyntio ar sicrhau bod cymwysterau a’r system gymwysterau yn effeithiol o ran diwallu anghenion dysgwyr, gael effaith dda uniongyrchol ar y mathau o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i ddysgwyr Cymru ac ansawdd y cyfleoedd hynny, ac ar yr ansawdd a'r sgiliau y mae'r dysgwyr yn dod â nhw i'r gweithle.

302. Mae cael eich cyflogi yn effeithio'n uniongyrchol ar les meddyliol a chorfforol.  Mae cymhelliant a pharch hefyd yn cyfrannu at hyn, ac yn

lleihau'r tebygolrwydd y bydd gweithwyr yn absennol o'r gweithle oherwydd salwch.

303. Yn ogystal, mae plant sydd o deuluoedd lle mae un person yn gyflogedig yn llai tebygol o ddioddef o anhwylderau seiciatrig a phroblemau ymddygiad.

304. Mae holl effeithiau cyflogaeth, o'u cyfuno, yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd pobl yn fwy cyfoethog ac yn byw mewn amgylchedd iachach pan fyddant yn ymddeol, sy'n cael effaith uniongyrchol ar les, adferiad a chyfraddau marwolaeth ymhlith pobl hŷn.

305. Yn ogystal, y gobaith yw y bydd gwaith ymgysylltu'r corff cymwysterau newydd â chyflogwyr a sefydliadau hyfforddi yn cryfhau economi Cymru, a buddsoddiad busnesau yn eu cyflogeion a'u hyfforddeion. Rydym yn gobeithio y bydd effaith hyn ar gyfleoedd y dysgwyr am gyflogaeth a dyrchafiad yn sylweddol, ac rydym yn gobeithio y bydd y potensial i ehangu busnes yn cynyddu graddfa'r cyfleoedd sydd ar gael.

**Cydlyniant Cymdeithasol**

306. Disgwylir effaith bositif ar lefel fach o ran cydlyniant cymdeithasol Cymru yn sgil cyflwyno'r Bil. Mae'r effeithiau positif yn debygol o wella'r amodau lle mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio, ac felly yn cynyddu sefydlogrwydd a chydlyniant teuluol (sy'n dod â'i fanteision iechyd ei hun) ac fe allent hefyd leihau'r lefelau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau (gweler isod).

307. Fodd bynnag, disgrifir effeithiau ar iechyd a lles fel rhywbeth cylchol, hunangyflawnol, gydag anfantais neu fantais yn dechrau cyn i unigolyn gael ei eni, ac yn *cynyddu* drwy gydol ei fywyd. Y gobaith yw, drwy wella canlyniadau cymdeithasol y system addysg a chymwysterau, a hefyd amgylchedd economaidd Cymru, y bydd yr effaith gronnol ar iechyd a lles yng Nghymru, er yn rhywbeth graddol iawn, yn gwella'n sylweddol dros amser.

308. Fodd bynnag, un o fwriadau cydnabyddedig y polisi sy'n sail i'r Bil yw annog dysgwyr yng Nghymru i astudio a gweithio ledled y byd. Efallai y byddai hyn yn ganlyniad negyddol bychan i Gymru lle byddai manteision buddsoddi yn nysgwyr Cymru yn cael eu gweld mewn rhannau eraill o'r byd, ac nid yng Nghymru.

## Tlodi

309. Mae cyswllt anuniongyrchol wedi'i nodi ag agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, sef bod gweithlu mwy cymwys yn debygol o gael gwaith sy'n talu'n well, gan effeithio'n uniongyrchol ar iechyd ac ansawdd/canlyniadau bywyd.

310. Ni fydd Cymwysterau Cymru yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith o fonitro neu wella lefelau tlodi neu dlodi plant yng Nghymru.

## Cymorth Gwladwriaethol

311. Ystyriwyd yr opsiynau i Gymwysterau Cymru o ran creu incwm yn fanwl i sicrhau nad oeddent yn torri rheolau cymorth gwladwriaethol.

### Trefniadau ar gyfer cyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol

312. Cyn belled â bod cyfiawnhad clir dros wneud hynny, a'i bod yn glir mai'r pwrpas yw gwella'r system gymwysterau yng Nghymru, (a bod y broses ddewis yn agored, yn deg ac yn dryloyw), ni fyddai Cymwysterau Cymru yn torri rheolau cymorth gwladwriaethol drwy gyfyngu ar nifer y fersiynau o rai cymwysterau blaenoriaethol yng Nghymru.

### Ymgynghori/Gweithgarwch masnachu arall

313. Mae'n fwriad yn y polisi y dylai Cymwysterau Cymru allu creu incwm o werthu ei wasanaethau, megis ymgynghori, yn ogystal â gwasanaethau eraill sy'n ymwneud â chymwysterau y gallai ddewis eu darparu. Cyn belled nad yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei gyllido gan y Llywodraeth, a'i fod yn gysylltiedig â'i swyddogaethau statudol, ni fyddai hyn yn torri rheoliadau cymorth gwladwriaethol. Yn sgil datblygu'r cysyniad hwn, lluniwyd y gofyniad polisi y dylai Cymwysterau Cymru allu sefydlu uned fasnachu ar wahân, ac mae'r Bil drafft yn cynnwys darpariaeth yn galluogi hyn, drwy bŵer i sefydlu cwmni, pŵer y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo ei weithredu.

### Cynllun Codi Ffi

314. Y bwriad polisi yw y dylai Cymwysterau Cymru allu codi ffioedd am gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio, ac mae'r Bil yn ei alluogi i wneud hynny mewn perthynas â'r costau y mae'n gorfod eu talu yn sgil y swyddogaethau hynny, cyn belled â bod unrhyw ffioedd o'r fath yn cael eu cyhoeddi mewn cynllun a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru. Bydd yn rhaid i unrhyw gynllun roi ystyriaeth i faterion cymorth gwladwriaethol a byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau:

- Mai dim ond er mwyn talu'r costau y mae Cymwysterau Cymru wedi gorfod eu talu y ceir codi ffioedd.
- Mai'r un ffioedd a godir ar bob corff dyfarnu, a bod yn rhaid bod yn dryloyw yn hyn o beth.
- Bod y Cynllun Codi Ffi yn deg (hy fforddiadwy).

## Goblygiadau i'r Llysoedd

315. Yn gyffredinol, mae swyddogaethau Cymwysterau Cymru yn adlewyrchu'r rheini a gyflawnir ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Addysg 1997, gyda rhai newidiadau a swyddogaethau

ychwanegol. Yn benodol, gallai fod i bwerau gorfodi Cymwysterau Cymru oblygiadau i’r llysoedd a’r system gyfiawnder. Gallai’r gwaith olygu gwneud cais i lys (am orchymyn gorfodol i fynnu bod cyfarwyddyd yn cael ei ddilyn) neu apelio i’r Tribiwnlys Haen Gyntaf (er enghraifft, yn erbyn penderfyniad i roi cosb ariannol). Mae’r darpariaethau hyn yn adlewyrchu darpariaethau tebyg yn Neddf Addysg 1997. Fodd bynnag, mae’r Bil yn cynnwys pŵer gorfodi newydd, sy’n cynnwys y llysoedd a’r system gyfiawnder. Pŵer yw hwn i wneud cais i ynad heddwch am orchymyn yn rhoi awdurdod i gael mynediad i safle corff cydnabyddedig a’i arolygu. O gofio’r gofynion y mae’n rhaid eu cyflawni er mwyn rhoi gorchymyn o’r fath, nid oes disgwyl y bydd ceisiadau am orchmynion o’r fath yn digwydd yn aml. Nid oes disgwyl, felly, i’r effaith gyffredinol ar y llysoedd a’r system gyfiawnder fod yn sylweddol.

### Effaith Ddaearyddol

316. Ni nodwyd unrhyw effaith sylweddol ar anghenion na dymuniadau pobl, cymunedau a busnesau yng Nghymru wledig yn sgil y polisi yn y Bil hwn.

### Preifatrwydd

317. Nid oedd angen Asesiad Effaith llawn ar Breifatrwydd, gan na nodwyd unrhyw effaith ar breifatrwydd yn sgil y Bil hwn.

# 10.Adolygu ar ôl gweithredu

## Y Polisi o fewn y Bil

318. Mae'r Bil yn sefydlu Cymwysterau Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldebau mewn perthynas â chymwysterau yng Nghymru.

319. Dyma brif amcanion y sefydliad:

  a. Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i gyflawni anghenion rhesymol dysgwyr Cymru;

  b. Codi hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

**Adolygu sut mae'r polisi wedi cael ei weithredu**

320. Wrth adolygu a gwerthuso'r polisi yn y Bil, byddwn yn canolbwyntio ar weithredu'r canlynol:

- Swyddogaethau statudol Cymwysterau Cymru: bydd gan Gymwysterau Cymru swyddogaethau mewn perthynas â chymwysterau yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru yn cyflawni rhai swyddogaethau tebyg.

- Cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru dros adolygu effeithiolrwydd y system gymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys ei swyddogaeth ei hun o fewn y system honno.

- Mesur lefelau hyder y cyhoedd yn y sefydliad fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau Cymru, yn y cymwysterau a gymeradwyir yng Nghymru ac yn y system gymwysterau cyn ac ar ôl sefydlu Cymwysterau Cymru;

- Adolygu effeithiau sefydlu Cymwysterau Cymru.

321. Ymhelaethir ar y rhain isod.

## Cyflawni swyddogaethau statudol Cymwysterau Cymru: rheoleiddio, swyddogaethau sicrhau ansawdd a chomisiynu

322. Bydd yn ofynnol i'r sefydliad roi adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar (ymhlith materion eraill) sut mae wedi cyflawni ei

swyddogaethau, a'i gynlluniau ar gyfer gwneud hynny yn ystod y flwyddyn wedyn.

### Methodoleg Adolygu

323. Cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru fydd cynllunio sut caiff yr adroddiad blynyddol hwn ei lunio a mynd ati i wneud hynny. Caiff yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ei baratoi yn 2016.

324. Wrth lunio'r adroddiad, bydd yn ofynnol i Gymwysterau Cymru roi adroddiad ar, ymhlith materion eraill, sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau, yng ngoleuni ei brif amcanion. Bydd disgwyl iddo hefyd, er enghraifft, roi adroddiad ar sut mae wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth gyflawni ei swyddogaethau.

325. Gallai Cymwysterau Cymru orfod ateb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, naill ai mewn sesiwn lawn neu mewn Pwyllgor.

## Adolygu'r system gymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys y berthynas rhwng Cymwysterau Cymru a Chyrff Dyfarnu

326. I ategu’r prif amcan o sicrhau effeithiolrwydd system gymwysterau Cymru, bydd Cymwysterau Cymru o dan ddyletswydd benodol i adolygu'r rhyng-gysylltiadau rhwng gwahanol gyrff, gan gynnwys ei berthynas ei hun â chyrff dyfarnu. Bydd hyn, er enghraifft, yn galluogi Cymwysterau Cymru i fod mewn sefyllfa i roi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch pa mor ymarferol yw gwneud Cymwysterau Cymru yn gorff dyfarnu yn y tymor hirach.

### Methodoleg Adolygu

327. Bob blwyddyn, bydd y sefydliad yn rhoi adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fel rhan o'i adroddiad statudol blynyddol, mae’n debygol y bydd yn rhaid gwneud dadansoddiad cyffredinol o'r system gymwysterau yng Nghymru, o gofio y bydd gofyn i Gymwysterau Cymru adrodd ynghylch sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y cyfnod yn ogystal â’i weithgarwch a’i flaenoriaethau arfaethedig yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

## Hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru

328. Cafodd y ddadl ynghylch sefydlu corff cymwysterau annibynnol i Gymru effaith bositif ar hyder y cyhoedd yng nghymwysterau a system gymwysterau Cymru, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn un o brif amcanion y sefydliad.

329. Wrth i'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer yr adolygiad gael eu hamlinellu isod, bydd angen i Gymwysterau Cymru benderfynu ar y ffordd orau o fonitro hyder yn gyson yn y tymor hirach. Mae'n debyg mai drwy fonitro hyder grwpiau penodol y caiff hyn ei wneud. Bydd angen i Gymwysterau Cymru gytuno ar hyn gyda'i Fwrdd.

**Methodoleg Adolygu**

330. Bydd gan y corff newydd uned noddi o fewn Llywodraeth Cymru. Bydd yr uned noddi yn gyfrifol am adolygu effaith gweithredu'r *Adolygiad o Gymwysterau* sy'n cynnwys y penderfyniad i greu Cymwysterau Cymru.

331. Roedd yr *Adolygiad o Gymwysterau* yn seiliedig ar dystiolaeth gref ac yn sail gadarn dros fuddsoddi. Roedd yr argymhellion yn seiliedig ar drafodaeth fanwl ag amrywiaeth eang o randdeiliaid o Gymru a'r DU gyfan. Casglwyd eu safbwyntiau drwy ymgynghoriad ffurfiol a thrwy ymgysylltu'n ehangach â grwpiau perthnasol. I gyd-fynd â'r ymarferion hyn, dadansoddwyd ffynonellau data a chomisiynwyd nifer o brosiectau ymchwil. Gall y gwaith hwn, felly, ffurfio'r llinell sylfaen.

332. Cynhelir gwerthusiad o effaith y camau a gymerwyd drwy ymchwil ansoddol gan ddefnyddio gweithdai a chan gynnwys rhanddeiliaid sy'n aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Allanol yr *Adolygiad o Gymwysterau*. Bydd yr ymchwil yn asesu lefel yr hyder ymhlith rhanddeiliaid ac yn rhoi sylw i'r gwaith o ddiwygio cymwysterau (y bydd Cymwysterau Cymru yn ei reoleiddio) yn ogystal â chreu'r corff newydd. Y bwriad yw gwneud hyn ar 3 adeg - yn 2015 (pan aiff y corff newydd yn fyw), yn 2017 (pan fydd dysgwyr wedi cymryd y cymwysterau newydd cyntaf) ac yn 2019 (pan fydd dysgwyr wedi cymryd Bagloriaeth newydd Cymru ar lefel uwch). Gellid comisiynu rhywfaint o waith, fel grwpiau ffocws gyda'r rhieni, os bydd bylchau yn y sylfaen dystiolaeth.

333. Y bwriad yw i'r corff newydd gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a mabwysiadu protocolau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Y gobaith yw y bydd Cymwysterau Cymru yn gallu manteisio ar rai dulliau arolygu sydd eisoes yn bod yn ogystal â chomisiynu rhai newydd. Bydd Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda'i uned noddi ac efallai yn achub ar gyfleoedd i gomisiynu, dylunio a gwneud gwaith ymchwil ar y cyd. Mae'n debygol y bydd unrhyw ymchwil o'r fath yn adolygiad cyffredinol sydd wedi'i gomisiynu; gallai fod yn rhan o raglen ymchwil i fesur hyder yn y sefydliad fel rheoleiddiwr a hyder mewn cymwysterau (ynghyd â phrosiectau ymchwil a gwerthuso yn ôl yr angen).

334. Gellir mesur hyder hefyd drwy arolygon sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill. Efallai y gall y corff newydd ddefnyddio'r rhain neu gomisiynu rhai newydd.  Mesurir hyder y cyhoedd hefyd drwy'r cyfryngau.

## Effeithiau sefydlu Cymwysterau Cymru

335. Bydd uned noddi Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am adolygu effaith sefydlu Cymwysterau Cymru. Mae'r adolygu hwn yn debygol o ddigwydd drwy ailedrych ar asesiadau o effaith a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu polisi'r ddeddfwriaeth.

336. Caiff yr asesiadau hyn o effaith hefyd eu trosglwyddo i Gymwysterau Cymru pan fydd wedi'i sefydlu. Mater i Gymwysterau Cymru fydd penderfynu sut i ddefnyddio'r asesiadau hyn, ac a fyddant yn rhan o'r adolygiad a'r gwerthusiad parhaus y bydd yn ei gynnal fel rhan o'i fusnes arferol.

# BIL CYMWYSTERAU CYMRU

## Atodiad A - NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Cymwysterau Cymru, a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Rhagfyr 2014 ac a ddiwygiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Ebrill 2015. Fe'u lluniwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

2. Nid ydynt yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil ac ni fwriedir iddynt fod felly. Felly pan fo adran neu ran o adran yn hunanesboniadol, ni roddir esboniad na sylw pellach.

3. Mae'r pwerau i wneud y Bil wedi eu cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 5 o Ran 1 o Atodlen 7 iddi. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol angenrheidiol i wneud darpariaeth ar gyfer y Bil ac mewn cysylltiad ag ef yn rhinwedd Atodlen 7, paragraff 5 (Addysg a hyfforddiant).

**Cefndir**

4. Comisiynwyd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru gan Weinidogion Cymru yn 2011 a Huw Evans, cyn-bennaeth Coleg Llandrillo oedd y Cadeirydd. Y dasg oedd nodi'r modd y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan Gymru gymwysterau sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi ac sy'n diwallu anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru, a chyflwynwyd adroddiad i'r Gweinidogion ym mis Tachwedd 2012. Pwysleisiodd yr Adolygiad o Gymwysterau bwysigrwydd sicrhau bod y cymwysterau y mae dysgwyr yn eu dilyn yng Nghymru yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi ledled y byd.

5. Derbyniodd Gweinidogion Cymru y 42 o argymhellion a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Mewn perthynas â'r system gymwysterau yng Nghymru daeth yr adroddiad i'r casgliad "y dylid sefydlu un corff i reoleiddio, cymeradwyo a sicrhau ansawdd pob cymhwyster (yn is na lefel gradd) sydd ar gael yng Nghymru, gan gyflwyno ymagwedd newydd a chryfach at reoleiddio" ac y "byddai penderfyniadau rheoleiddio yn cael eu gwneud ar wahân i'r llywodraeth".

6. Rhagwelodd yr adroddiad hefyd y dylai Cymwysterau Cymru ddod yn sefydliad dyfarnu ar gyfer Cymru, gan ddatblygu a dyfarnu'r "rhan fwyaf o'r cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed a'r rhan fwyaf o'r cymwysterau cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed".

7. Mae'r Bil hwn yn rhoi effaith i ran gyntaf yr argymhelliad am ei fod yn sefydlu corff rheoleiddiol ar gyfer cymwysterau sydd hyd braich oddi wrth Weinidogion Cymru ac sy'n tynnu swyddogaethau rheoleiddiol presennol Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â chymwysterau oddi wrthynt. Nid yw'n rhoi pwerau i Gymwysterau Cymru i fod yn gorff dyfarnu. Byddai angen deddfwriaeth bellach i gyflawni hynny.

8. Ar 1 Hydref 2013, cyhoeddwyd papur ymgynghori gan nodi polisi Llywodraeth Cymru a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ym mis Mehefin 2014. Mynegodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gymeradwyaeth gref i'r cynigion i sefydlu corff rheoleiddiol newydd ac mae'r Bil hwn yn rhoi effaith i'r cynigion hynny.

**Crynodeb o'r Bil**

9. Bydd y Bil hwn yn sefydlu sefydliad newydd, Cymwysterau Cymru i gyflenwi model newydd o reoleiddio. O dan y gyfundrefn sydd i'w sefydlu gan y Bil, bydd Cymwysterau Cymru yn arfer swyddogaethau rheoleiddiol mewn perthynas â chymwysterau a ddyfernir yng Nghymru. Mae rhai o'r swyddogaethau hyn yn debyg i'r rhai sy'n cael eu harfer ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru.

10. Mae'r Bil yn rhoi i Gymwysterau Cymru ddau brif nod sy'n rhoi cyfrifoldeb i Gymwysterau Cymru am sicrhau bod cymwysterau yng Nghymru (a'r system gymwysterau sy'n sylfaen iddynt) yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a hybu hyder y cyhoedd ynddynt. Er mwyn mynd i'r afael â nifer o faterion sy'n cyfrannu at effeithiolrwydd a hyder y cyhoedd, mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru ddatblygu a gweithredu system ar gyfer cydnabod cyrff dyfarnu a chymeradwyo a dynodi cymwysterau.

11. Er mwyn gwella ansawdd cymwysterau a rhoi i Gymwysterau Cymru bwerau rheoleiddiol effeithiol, mae'r Bil yn galluogi Cymwysterau Cymru i reoleiddio cyrff dyfarnu sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru, i ganolbwyntio ar gymwysterau blaenoriaethol, i gymeradwyo ffurfiau ar gymhwyster (sydd wedyn yn gymwys i gael eu darparu ar gyfer rhai cyrsiau sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus), i ddynodi ffurfiau eraill ar gymhwyster fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar y cyrsiau dysgu hynny, i gyfyngu ar nifer y cymwysterau penodol y caniateir iddynt gael eu cymeradwyo, i gomisiynu cymwysterau pan fo cyfyngiad o'r fath yn ei le ac i adolygu cymwysterau a'r system gymwysterau.

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

## RHAN 2: SEFYDLU A PHRIF NODAU CYMWYSTERAU CYMRU

### Adran 2: Sefydlu Cymwysterau Cymru

12. Mae'r adran hon yn sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff corfforaethol. Mae'n cyflwyno Atodlen 1 sy'n darparu manylion pellach am ei sefydlu ac Atodlen 2 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru drosglwyddo staff Llywodraeth Cymru ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o Weinidogion Cymru i Gymwysterau Cymru.

**Adran 3: Prif nodau Cymwysterau Cymru**

13. Mae'r adran hon yn nodi prif nodau Cymwysterau Cymru: bydd y rhain yn sail i'r holl waith y bydd Cymwysterau Cymru yn ei wneud - a bydd angen i Gymwysterau Cymru sicrhau bob amser fod ei gamau yn gydnaws â'r nodau hyn.

14. Mae'r prif nod cyntaf yn rhoi'r cyfrifoldeb i Gymwysterau Cymru am sicrhau effeithiolrwydd cymwysterau i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru. Mae ystyr cymwysterau wedi ei ddiffinio yn adran 55. Er bod y prif nod hwn yn eang ei gwmpas, mae Rhan 4 o'r Bil (Cymeradwyaethau) yn darparu ar gyfer rhoi blaenoriaeth i rai cymwysterau, fel y caiff Cymwysterau Cymru roi ffocws i'w weithgareddau o ran cymeradwyo cymwysterau. Bydd Cymwysterau Cymru yn gallu dynodi cymwysterau eraill fel rhai sy'n gymwys i gael eu cyllido ar raglenni dysgu penodol a rheoleiddio'r cymwysterau hynny a chymwysterau eraill drwy amodau cydnabod. Mae'r prif nod hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gymryd cyfrifoldeb am effeithiolrwydd y system gymwysterau yng Nghymru (sef, y system gyfan y dyfernir cymwysterau drwyddi i bersonau a asesir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ar gyfer y cymwysterau hynny. Y 'system' yw'r seilwaith sy'n sail i'r gwaith o gyflenwi cymwysterau ac sy'n galluogi i hynny gael ei wneud - mae'n cynnwys y *ffordd* y mae cymwysterau yn cael eu datblygu, eu cyflenwi a'u dyfarnu ynghyd â *beth* sy'n cael ei ddatblygu, ei gyflenwi a'i ddyfarnu.

15. Mae'r ail brif nod yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru hybu hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a'r system ategol. Er mwyn i'r cymwysterau a'r system fod yn wirioneddol effeithiol, gyda'i gilydd rhaid iddynt ysbrydoli hyder y cyhoedd. Gallai asesiad o hyder y cyhoedd gynnwys, er enghraifft, lefel hyder cyflogwyr, darparwyr dysgu, dysgwyr, rhieni a gofalwyr yng ngwerth cymharol y cymwysterau a ddilynir yng Nghymru o'u cymharu â'r rheini a ddilynir, er enghraifft, yn Lloegr.

16. Mae is-adran 2 yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r materion y mae rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw iddynt wrth benderfynu ar yr hyn sy'n briodol er mwyn cyflawni ei brif nodau. Er bod y rhan fwyaf o'r materion hyn yn hunanesboniadol, caiff nodiadau ychwanegol eu darparu yma i roi cyd-destun a/neu enghreifftiau i egluro rhai o'r termau:

   a. Mae gweithlu medrus yn ffactor pwysig yn nhwf economi Cymru – ac mae cymwysterau yn ddangosydd o sgiliau darpar weithwyr newydd ac yn ffon fesur ar gyfer datblygu sgiliau'r gweithlu presennol.

   b. Bydd angen i Gymwysterau Cymru ystyried yn benodol y ddarpariaeth o asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac, er enghraifft, y ddarpariaeth o gymwysterau sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu neu ddefnyddio'r Gymraeg.

   c. Mae 'trefniadau asesu' yn cynnwys, er enghraifft, ystyried dilysrwydd a dibynadwyedd y trefniadau asesu. Gall gynnwys natur yr asesiad a gyflawnir gan ddysgwyr (er enghraifft, ystyried ansawdd papur arholiad) ynghyd ag, er enghraifft, y trefniadau diogelwch mewn perthynas â storio cofnodion asesu.

d. Gallai gofynion rhesymol cyflogwyr gael eu hystyried, er enghraifft, mewn perthynas â'r angen i roi i ddysgwyr yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n berthnasol i gyflogaeth gyffredinol a phenodol. Gall fod angen i Sefydliadau Addysg Uwch gael eu bodloni, er enghraifft, fod y cymwysterau a ddyfernir i ddysgwyr yng Nghymru yn gwahaniaethu'n ddigonol rhwng lefelau gwahanol o allu ac yn eu paratoi'n ddigonol ar gyfer astudiaeth bellach. Nid yw'r 'proffesiynau' wedi eu cyfyngu i unrhyw restr gyfyngedig o broffesiynau ond gellir cymryd eu bod yn cynnwys, er enghraifft, safbwyntiau cynrychiolwyr ac arbenigwyr proffesiynol perthnasol.

e. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i gynnwys cymwysterau, yn benodol y graddau y maent yn gyfredol ac yn adlewyrchu arferion gorau, er enghraifft, wrth gyflawni tasgau.

f. Gall 'lefel o gyrhaeddiad sy'n gyson', er enghraifft, ymwneud â chysondeb dros amser, dros genhedloedd gwahanol, dros bynciau neu dros gymwysterau a wneir gan grŵp oedran penodol. Yn y cyd-destun hwn, gallai cyrhaeddiad gyfeirio, er enghraifft, at y graddau y mae dysgwyr wedi caffael (neu y mae'n ofynnol iddynt gaffael) y lefel ofynnol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n ymwneud â'r cymhwyster.

g. Nid yw ystyried a yw cymwysterau yn cael eu cyflenwi yn 'effeithlon' wedi ei gyfyngu i ystyriaethau ariannol neu economaidd yn unig ond caiff gynnwys, er enghraifft, ystyriaeth o effaith nifer ac ansawdd y rhyngweithiadau rhwng cyrff ac unigolion gwahanol ar effeithiolrwydd a hyder y cyhoedd.

h. Wrth ystyried effeithiolrwydd y system, bydd angen i Gymwysterau Cymru ystyried rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol gyrff yn y system honno, gan gynnwys, er enghraifft, ei rôl ei hun yn y system. Yn y cyd-destun hwn, er enghraifft, gallai Cymwysterau Cymru ystyried ei rôl bosibl ei hun yn y dyfodol fel corff dyfarnu.

## RHAN 3: CYDNABOD CYRFF DYFARNU

17. Caiff cyrff dyfarnu wneud cais am gydnabyddiaeth gyffredinol gan Gymwysterau Cymru a chael eu rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru (o dan amodau cydnabod) o ran cymwysterau y maent wedi eu cydnabod mewn cysylltiad â hwy ac sy'n cael eu dyfarnu yng Nghymru. Mae'r Bil yn cyfeirio ar ddau fath o gydnabyddiaeth: cyffredinol a phenodol. Mae cydnabyddiaeth gyffredinol yn cynnwys pob cymhwyster ac eithrio'r rhai y mae Cymwysterau Cymru wedi datblygu meini prawf cydnabod penodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, gwneir darpariaeth yn ddiweddarach yn y Rhan hon yn adran 8 i alluogi cyrff dyfarnu i eithrio cymwysterau penodol o'u cais am gydnabyddiaeth gyffredinol, gan olygu na fyddai Cymwysterau Cymru yn cymhwyso'r amodau cydnabod i'r cymhwyster a eithrir ac felly na fyddai'n rheoleiddio'r cymhwyster a eithrir. Caiff cyrff wneud cais ar ôl hynny i Gymwysterau Cymru os ydynt yn dymuno i'r cymhwyster a eithrir gael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru yn y dyfodol.

**Adran 4: Cydnabod cyrff dyfarnu**

18. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i gydnabod cyrff dyfarnu. Dim ond cyrff dyfarnu sydd wedi cael eu cydnabod gan Gymwysterau Cymru a gaiff wneud cais i gael eu cymwysterau wedi eu cymeradwyo neu eu dynodi gan Gymwysterau Cymru (ac felly'n gymwys i'w defnyddio ar gyfer cyrsiau penodol sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus). Fel arfer, mae cyrff dyfarnu yn datblygu cymwysterau ac yn eu cyflenwi drwy ddarparwyr dysgu, megis ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Mae cyrff dyfarnu yn pennu ac yn gweinyddu trefniadau asesu ac yn atebol am benderfynu pa un ai i ddyfarnu cymhwyster i ddysgwr ai peidio (ac, os yw'n briodol, pa radd y dylid ei dyroddi).

**Adran 5: Dyletswydd i osod meini prawf cydnabod cyffredinol**

19. Mae Cymwysterau Cymru o dan ddyletswydd i osod a chyhoeddi'r meini prawf y bydd yn ystyried pa un ai i gydnabod, yn gyffredinol, corff dyfarnu ai peidio yn eu herbyn. Cyfeirir at y meini prawf hyn fel 'meini prawf cydnabod cyffredinol' ond caniateir meini prawf gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o gyrff dyfarnu. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd maen prawf ar y gallu i ddarparu cyfleusterau warws diogel i storio papurau arholiad yn ddiogel yn gymwys i gorff dyfarnu sy'n darparu asesiad ar-lein yn unig.

**Adran 6: Pŵer i osod meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster**

20. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i benderfynu y dylai cyrff dyfarnu sy'n bwriadu cynnig mathau penodol o gymhwyster, yn ychwanegol at y meini prawf cydnabod cyffredinol, fodloni meini prawf penodol er mwyn cael eu rheoleiddio mewn cysylltiad â hwy ac er mwyn bod yn gymwys i gyflwyno'r mathau hynny o gymhwyster i Gymwysterau Cymru eu cymeradwy neu eu dynodi. Er enghraifft, caniateir i Gymwysterau Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu sy'n bwriadu cynnig cymwysterau TGAU a/neu Safon Uwch yng Nghymru ddangos ei fod yn gallu bodloni prosesau marcio a graddio mewn pryd i ddyroddi nifer mawr o ganlyniadau cywir ar un dyddiad. O ran y meini prawf cydnabod cyffredinol, caniateir i'r meini prawf cydnabod penodol amrywio yn unol â'r math o gorff dyfarnu. Yn ychwanegol, caniateir iddynt amrywio yn unol â'r math o gymhwyster o dan sylw.

**Adran 7: Diwygio meini prawf cydnabod cyffredinol a meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster**

21. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i ddiwygio'r meini prawf cydnabod cyffredinol a'r meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster. Rhaid iddo gyhoeddi'r meini prawf diwygiedig a'i gwneud yn glir o ba ddyddiad y mae'r diwygiadau yn gymwys. Rhaid cyhoeddi meini prawf diwygiedig cyn y gallant ddod i rym.

**Adran 8: Cydnabod corff dyfarnu yn gyffredinol**

22. Caiff cyrff dyfarnu wneud cais i Gymwysterau Cymru i gael eu cydnabod yn gyffredinol yn gorff sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru. Caiff cyrff dyfarnu bennu, wrth wneud cais i gael eu cydnabod, nad yw'n dymuno cael eu cydnabod yn gyffredinol mewn cysylltiad â chymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster penodedig – hynny yw, eu bod yn dymuno eithrio un neu ragor o gymwysterau penodedig rhag cael eu rheoleiddio gan Gymwysterau Cymru. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gydnabod pob corff dyfarnu sydd

wedi gwneud cais iddo ac sy'n bodloni'r meini prawf cydnabod cyffredinol sydd wedi eu cyhoeddi. Pan na fo corff dyfarnu yn bodloni'r holl feini prawf dim ond oherwydd nad yw'r meini prawf sydd heb eu bodloni ond yn gymwys i gymhwyster y mae wedi ei eithrio o'i gais am gydnabyddiaeth, effaith is-adran 6 yw bod rhaid i Gymwysterau Cymru gydnabod y corff dyfarnu. Os yw corff dyfarnu wedi eithrio cymwysterau o'i gydnabyddiaeth o'r blaen, caiff wneud cais i Gymwysterau Cymru i gynnwys y cymwysterau hynny yn y gydnabyddiaeth yn y dyfodol (gweler is-adrannau 7 ac 8). Mae'r Bil hefyd yn darparu i Gymwysterau Cymru gydnabod corff dyfarnu sydd wedi gwneud cais, ond nad yw'n bodloni'r holl feini prawf yn llawn am resymau ac eithrio nad yw'r meini prawf o dan sylw ond yn gymwys i gymhwyster sydd wedi ei eithrio o gais y corff dyfarnu am gydnabyddiaeth. Mae is-adran 5 yn nodi'r materion y mae rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried wrth benderfynu pa un ai i gydnabod corff dyfarnu nad yw'n bodloni'r holl feini prawf. Gallai'r ddarpariaeth hon gwmpasu sefyllfaoedd pan fo'n dod i'r amlwg, er enghraifft, nad yw maen prawf penodol yn berthnasol i'r corff sy'n cael ei ystyried. Mae'n ofynnol cael cydnabyddiaeth gyffredinol cyn y gall Cymwysterau Cymru gymeradwyo (o dan Ran 4) neu ddynodi (o dan Ran 5) unrhyw gymhwyster sy'n cael ei gynnig gan y corff dyfarnu hwnnw. Er mwyn cael rhai mathau o gymwysterau wedi eu rheoleiddio (a hefyd wedi eu cyflwyno i gael eu cymeradwyo neu eu dynodi) gan Gymwysterau Cymru, mae'n bosibl y bydd rhaid i gorff dyfarnu, yn ychwanegol, gael 'cydnabyddiaeth benodol' o dan adran 9.

**Adran 9: Cydnabod corff dyfarnu mewn ffordd sy'n benodol i gymhwyster**

23. Mae'r adran hon yn debyg i adran 8 ond mae'n gymwys mewn sefyllfaoedd pan fo corff dyfarnu yn gwneud cais i gael ei gydnabod mewn cysylltiad â chymwysterau y mae meini prawf cydnabod penodol yn gymwys iddynt. Dim ond os yw corff dyfarnu wedi cael cydnabyddiaeth gyffredinol hefyd y mae'n gallu cael cydnabyddiaeth benodol. Os yw corff sydd â chydnabyddiaeth gyffredinol yn gwneud cais am gydnabyddiaeth benodol, cyhyd â bod y corff hwnnw yn bodloni'r meini prawf cydnabod cyffredinol a'r meini prawf cydnabod penodol sy'n gymwys, rhaid i Gymwysterau Cymru gydnabod y corff mewn cysylltiad â'r cymhwyster penodol hwnnw. Yn yr un modd â chydnabyddiaeth gyffredinol, os nad yw'r corff yn bodloni'r meini prawf, mae gan Gymwysterau Cymru ddisgresiwn i gydnabod y corff o dan yr adran hon.

**Adran 10: Pŵer i wneud rheolau ynghylch ceisiadau am gydnabyddiaeth**

24. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i nodi'r rheolau y mae angen i gyrff dyfarnu eu dilyn wrth wneud eu cais am gydnabyddiaeth i Gymwysterau Cymru. Os yw Cymwysterau Cymru yn gwneud rheolau o'r fath, rhaid iddo eu cyhoeddi. Caniateir i'r rheolau hyn bennu, er enghraifft, y modd y mae rhaid i geisiadau gael eu gwneud ac unrhyw ffioedd sydd i'w talu am gydnabyddiaeth - ar yr amod bod ffi o'r fath wedi ei chynnwys mewn cynllun a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (o dan adran 48).

**Adran 11: Darpariaeth bellach ynghylch cydnabyddiaeth**

25. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi rhesymau i'r corff dyfarnu os yw cais y corff dyfarnu am gydnabyddiaeth wedi ei wrthod.

26. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n gwneud darpariaethau pellach ynghylch cydnabyddiaeth.

**Adran 12: Cydnabod: dehongli**

27. Mae'r adran hon yn esbonio pan fo'r Bil yn cyfeirio at 'corff cydnabyddedig' ei fod yn cyfeirio at gorff dyfarnu sydd naill ai'n cael ei gydnabod yn gyffredinol o dan adran 8 (ac eithrio mewn perthynas â'r cymwysterau hynny y mae corff dyfarnu wedi eu heithrio o gydnabyddiaeth neu y mae cydnabyddiaeth mewn cysylltiad â hwy wedi ei ildio neu wedi ei dynnu'n ôl) neu, yn ychwanegol, sy'n cael ei gydnabod yn benodol o dan adran 9 mewn cysylltiad â chymhwyster y mae meini prawf cydnabod penodol ar ei gyfer.

## RHAN 4: CYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A CHYMERADWYO CYMWYSTERAU

**Adran 13: Dyletswydd i lunio rhestr o gymwysterau blaenoriaethol**

28. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru i lunio rhestr o gymwysterau sy'n flaenoriaeth ar gyfer eu cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru. Dim ond os yw'r amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni mewn perthynas â chymhwyster y caniateir iddynt gynnwys y cymhwyster yn y rhestr. Bydd y cymwysterau hynny yn cael eu cyhoeddi mewn 'rhestr o gymwysterau blaenoriaethol' a chaniateir iddi gael ei diwygio o bryd i'w gilydd, ar yr amod bod Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru yn cytuno. Caniateir i gymwysterau gael eu rhestru naill ai'n unigol, neu drwy gyfeirio at ddisgrifiad sy'n cynnwys mwy nag un cymhwyster.

29. Mae swyddogaethau Cymwysterau Cymru mewn perthynas â chymeradwyo cymwysterau (a nodir yn Rhan 4) yn amrywio yn ôl pa un a yw cymhwyster ar y rhestr ai peidio.

30. Mae is-adran 6 yn cyflwyno'r termau 'cymhwyster blaenoriaethol', 'cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig' a 'cymhwyster blaenoriaethol anghyfyngedig' - y cyfeirir atynt yn adrannau dilynol y Bil.

**Adran 14: Cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig**

31. Mae'r adran hon yn rhoi i Gymwysterau Cymru y pŵer i benderfynu y dylai rhai cymwysterau ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol gael eu cyfyngu i uchafswm nifer y fersiynau neu 'ffurfiau' y caniateir iddynt gael eu cymeradwyo gan Gymwysterau Cymru ar unrhyw un adeg. Er enghraifft, caiff Cymwysterau Cymru benderfynu nad yw ond yn bwriadu cymeradwyo un fersiwn o TGAU Iaith Saesneg. Yn yr achos hwn byddai'n gwneud penderfyniad o dan yr adran hon a byddai'r cymhwyster hwn yn dod yn gymhwyster cyfyngedig.

32. Dim ond os yw Cymwysterau Cymru wedi ei fodloni bod y cyfyngiad a fwriedir yn ddymunol, yng ngoleuni ei brif nod a'r amcanion a ganlyn, y caiff wneud penderfyniad o'r fath:

a. osgoi anghysondeb rhwng ffurfiau gwahanol ar gymhwyster penodol, a

b. galluogi Cymwysterau Cymru i arfer dewis rhwng cyrff dyfarnu a all fod am ddatblygu ffurf newydd ar y cymhwyster neu rhwng ffurfiau gwahanol ar gymwysterau sy'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

33. Cyn gwneud a chyhoeddi penderfyniad i gyfyngu ar nifer y ffurfiau a gymeradwywyd ar gymhwyster, rhaid i Gymwysterau Cymru hysbysu pob corff dyfarnu cydnabyddedig ac unrhyw bartïon eraill y mae Cymwysterau Cymru yn meddwl y gall fod ganddynt fuddiant yn y cynnig ac ystyried unrhyw ymatebion y mae'n eu cael oddi wrth y personau hynny sy'n ymwneud â'r cynnig.

34. Unwaith y bydd Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi penderfyniad i gyfyngu cymhwyster i uchafswm, yna rhaid iddo sicrhau nad oes mwy nag uchafswm y ffurfiau ar y cymhwyster yn cael eu cymeradwyo. Caiff Cymwysterau Cymru ymrwymo i drefniadau gyda chorff dyfarnu er mwyn i'r corff dyfarnu ddatblygu'r cymhwyster (mae adrannau 15 ac 16 yn cyfeirio at hynny) neu ddethol o unrhyw ffurfiau ar gymhwyster a gyflwynir gan gyrff dyfarnu (mae adran 17 yn cyfeirio at hynny). Nid yw penderfyniad o dan yr adran hon yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw gymeradwyaethau sy'n bodoli i'r math o gymhwyster o dan sylw. Fodd bynnag, gall olygu bod Cymwysterau Cymru yn cymryd camau i dynnu cymeradwyaeth yn ôl o dan adran 27 a bydd yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw ddynodiadau presennol o'r math o gymhwyster o dan sylw (gweler adran 30(3) a (4) i gael manylion am yr adegau pan fo dynodiadau adran 29 yn peidio â chael effaith pan gaiff cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig ei gymeradwyo).

### Adran 15: Pŵer i wneud trefniadau i ddatblygu cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig

35. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i ymrwymo i drefniadau gyda chorff dyfarnu er mwyn i'r corff ddatblygu ffurf newydd ar gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig. Mae'r trefniadau hynny wedi eu gwneud gyda golwg ar gyflwyno'r ffurf newydd wedyn i Gymwysterau Cymru i'w chymeradwyo. Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi cynllun sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud trefniadau o'r fath a rhaid i'r weithdrefn fod yn agored, yn deg ac yn dryloyw. Mae hyn er mwyn sicrhau bod modd cael cystadleuaeth agored, deg a thryloyw i ddethol y corff dyfarnu. Caiff Cymwysterau Cymru ddiwygio'r cynllun o bryd i'w gilydd.

36. Bydd Cymwysterau Cymru yn gallu pennu gofynion ('meini prawf') ar gyfer y cymhwyster sydd i'w ddatblygu. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn gallu, os yw'n dewis, gwneud taliadau i'r corff/cyrff dyfarnu am y gwaith y mae'r corff/cyrff dyfarnu yn ei wneud o dan y trefniadau hyn. Fodd bynnag, nid oes angen gwneud taliad o reidrwydd.

### Adran 16: Cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a ddatblygir yn unol â threfniadau adran 15

37. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i gymeradwyo cymwysterau sydd wedi eu datblygu o ganlyniad i'r trefniadau a nodir yn adran 15. Caiff cyrff dyfarnu sydd wedi eu dethol o dan y weithdrefn a nodir yn adran 15 ac sydd wedi eu cydnabod gyflwyno ffurf ar gymhwyster, y maent wedi ei datblygu wedi iddynt gael eu dethol, i Gymwysterau Cymru i'w chymeradwyo. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i ystyried a phenderfynu pa un ai i gymeradwyo'r ffurf hon ar gymhwyster ai peidio ac wrth wneud hynny, bydd yn cymhwyso ei feini

prawf a gyhoeddwyd o dan adran 20. Rhaid bodloni unrhyw ofynion sylfaenol y mae Gweinidogion Cymru wedi eu pennu (gweler adran 21), sy'n berthnasol i'r cymhwyster hwn, cyn y caiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo'r cymhwyster. Dim ond am gyfnod cyfyngedig y caniateir i gymeradwyaeth o dan yr adran hon gael ei rhoi (gweler adran 23(1)).

**Adran 17: Cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig yn absenoldeb trefniadau adran 15**

38. Mae'r adran hon yn darparu camau gweithredu amgen (i'r hyn a nodir yn adran 15) er mwyn i Gymwysterau Cymru benderfynu ar ba ffurf neu ffurfiau ar gymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig i'w chymeradwyo neu eu cymeradwyo.

39. Pan fo Cymwysterau Cymru yn dewis peidio â dilyn y llwybr o ddethol corff dyfarnu i ddatblygu cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig, caiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo ffurfiau ar y cymwysterau cyfyngedig a gyflwynir iddo gan gyrff cydnabyddedig. Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi cynllun ynghylch gwneud ceisiadau am gymeradwyaeth iddo, a'r ffordd y mae'n ystyried y ceisiadau hynny. Pan fydd cymwysterau Cymru yn cael cais i gymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig nad yw wedi ei gomisiynu ganddo o dan adran 15, rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried y cais yn unol â'i gynllun. Rhaid i'r cynllun nodi gweithdrefn agored, deg a thryloyw ar gyfer arfer swyddogaethau Cymwysterau Cymru ac ar gyfer gwneud ceisiadau am gymeradwyaeth. Unwaith eto, gwneir hyn er mwyn sicrhau proses gystadleuol, sy'n cyflawni'r nodweddion hynny, i ddethol y cymhwyster/cymwysterau a gymeradwywyd. Caiff Cymwysterau Cymru ddiwygio'r cynllun o bryd i'w gilydd.

40. Rhaid bodloni unrhyw ofynion sylfaenol y mae Gweinidogion Cymru wedi eu pennu (gweler adran 21) sy'n berthnasol i'r cymhwyster hwn, cyn y caiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo'r cymhwyster. Dim ond am gyfnod cyfyngedig y caniateir i gymeradwyaeth o dan yr adran hon gael ei rhoi (gweler adran 23(2)).

**Adran 18: Cymeradwyo cymwysterau blaenoriaethol anghyfyngedig**

41. Pan na fo cymhwyster ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol yn gyfyngedig, caiff unrhyw gorff dyfarnu a gydnabyddir yn briodol gyflwyno ffurf ar y cymhwyster hwn i Gymwysterau Cymru i'w chymeradwyo.

42. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Gymwysterau Cymru i ystyried pa un ai i gymeradwyo ceisiadau cymwys am gymwysterau sydd ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol. Wrth ystyried cymhwyster blaenoriaethol anghyfyngedig i'w gymeradwyo, rhaid i Gymwysterau Cymru gymhwyso ei feini prawf a gyhoeddwyd o dan adran 20.

43. Wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo ai peidio, rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried pa un a ymdriniwyd ag unrhyw ofynion sylfaenol perthnasol a bennwyd gan Weinidogion Cymru (mewn perthynas â gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth) (gweler adran 21) gan unrhyw ffurf ar y cymhwyster y mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu ei chymeradwyo. Os na fodlonwyd amodau o'r fath, rhaid i Gymwysterau Cymru beidio â chymeradwyo'r ffurf honno ar y cymhwyster. Caniateir i'r cymeradwyaethau fod am gyfnod cyfyngedig neu am gyfnod amhenodol, fel a bennir gan Gymwysterau Cymru (gweler adran 23).

**Adran 19: Cymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol**

44. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i ddewis pa un ai i ystyried ai peidio, i'w cymeradwyo, gymwysterau nad ydynt wedi eu rhestru ar y rhestr o gymwysterau blaenoriaethol. Mae'n sefydlu gwahaniaeth rhwng cymwysterau ar y rhestr (y mae rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried, neu y mae rhaid iddo eu hystyried yn unol â'i gynllun (adrannau 16 -18) a chymwysterau nad ydynt ar y rhestr (y caiff Cymwysterau Cymru eu hystyried).

45. Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi 'cynllun' sy'n nodi'r ffactorau y mae'n debygol o'u hystyried wrth benderfynu pa un ai i ystyried ceisiadau am gymeradwyaeth i gymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol. O ganlyniad, bydd cyrff dyfarnu a phartïon eraill â chanddynt fuddiant yn ymwybodol o broses Cymwysterau Cymru wrth iddo fynd ati i wneud penderfyniad a gellir gwneud penderfyniadau mewn modd tryloyw.

46. Os yw Cymwysterau Cymru yn penderfynu ystyried cymhwyster nad yw'n gymhwyster blaenoriaethol i'w gymeradwyo, rhaid i unrhyw ofynion sylfaenol y mae Gweinidogion Cymru wedi eu pennu (gweler adran 21), sy'n berthnasol i'r cymhwyster, gael eu bodloni cyn y caiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo'r cymhwyster. Rhaid i Gymwysterau Cymru gymhwyso ei feini prawf (gweler adran 20) wrth benderfynu pa un ai i gymeradwyo'r cymhwyster. Caniateir i'r cymeradwyaethau fod am gyfnod cyfyngedig neu am gyfnod amhenodol, fel a bennir gan Gymwysterau Cymru (gweler adran 23).

**Adran 20: Meini prawf cymeradwyo**

47. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gyhoeddi'r meini prawf y mae'n eu ddefnyddio i benderfynu pa un ai i gymeradwyo ffurf ar gymhwyster ai peidio. Caniateir amrywiaeth o feini prawf gwahanol – ar gyfer, er enghraifft, disgrifiadau gwahanol o gymwysterau megis 'pob TGAU' neu 'pob cymhwyster pan fo perfformiad yn cael ei arsylwi mewn amgylchedd gwaith', neu'n fwy penodol ar gyfer 'Ffrangeg Safon Uwch'.

48. Gallai Cymwysterau Cymru ddefnyddio meini prawf cymeradwyo i nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau blaenoriaethol penodol (ac, yn benodol, cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig) ynghyd â gofynion sy'n ymwneud â'r gofynion asesu. Wrth ystyried beth sy'n briodol i gyflawni ei brif nodau, bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn gallu ymgysylltu ag, er enghraifft, cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau i sicrhau bod y meini prawf yn adlewyrchu eu gofynion rhesymol yn briodol.

**Adran 21: Pŵer i bennu gofynion sylfaenol**

49. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi gofynion ar gyfer ffurf ar gymhwyster mewn perthynas â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth ('cynnwys pwnc' i bob pwrpas) y mae'n ofynnol i'r cymhwyster hwnnw ymdrin â hwy.

50. Caiff Cymwysterau Cymru bennu gofynion cynnwys ar gyfer cymwysterau blaenoriaethol drwy'r meini prawf cymeradwyo - ond bydd y pŵer hwn i wneud

rheoliadau yn bodoli fel pŵer wrth gefn er mwyn i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru sicrhau bod gofynion penodol wedi eu bodloni pan fo Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn angenrheidiol sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer cwrs sy'n arwain at y cymhwyster yn briodol at anghenion rhesymol y dysgwyr sy'n ymgymryd â'r cwrs.

51. Mae'r Bil yn nodi nifer o amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau. Mae'r amodau hyn yn sicrhau mai dim ond gyda'r diben o sicrhau bod dysgwyr yn dilyn cwricwlwm priodol y caiff y rheoliadau eu cyflwyno. Nid oes angen i hyn fod yn unrhyw 'cwricwlwm cenedlaethol' sydd wedi ei gyhoeddi o reidrwydd ond rhaid i'r gofynion a nodir mewn rheoliadau ymwneud â'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae rhaid i'r dysgwr eu dangos at y diben o benderfynu pa un a yw'r cymhwyster i gael ei ddyfarnu i berson. Cyn pennu gofynion sylfaenol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chymwysterau Cymru ac eraill, fel y bo'n briodol, gan roi resymau dros gynnig pennu gofynion sylfaenol.

52. Effaith cyflwyno gofynion sylfaenol yw na chaiff Cymwysterau Cymru gymeradwyo ffurf ar y cymhwyster hwnnw oni bai ei fod wedi ei fodloni bod y cymhwyster yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Rhaid i'r rheoliadau drafft gael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y gallant gael eu gwneud a dod i rym (gweler adran 54(2)).

**Adran 22: Amodau cymeradwyo**

53. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i gymhwyso amodau wrth iddo gymeradwyo cymwysterau – naill ai ar yr adeg y mae'r cymwysterau yn cael eu cymeradwyo, neu'n ddiweddarach. Caiff amodau'r gymeradwyaeth, er enghraifft, ymwneud â'r amgylchiadau pan ddyfernir cymhwyster, neu'r personau y dyfernir y cymhwyster iddynt. Er enghraifft, gall amod atal y cymhwyster a gymeradwywyd rhag cael ei ddyfarnu i ddysgwyr o dan 18 oed. Os yw Cymwysterau Cymru yn newid amodau cymeradwyo ar ôl i gymhwyster gael ei gymeradwyo (neu'n cyflwyno rhai newydd sy'n gymwys i gymhwyster a gymeradwywyd) rhaid iddo hysbysu'r cyrff dyfarnu am y newid, y dyddiad y bydd yn cael effaith a'r rheswm dros y newid. Mae hyn er mwyn sicrhau, er enghraifft, fod cyrff dyfarnu yn cael amser rhesymol i ddiwygio eu cymwysterau, os yw'n briodol, er mwyn ymdrin â'r amodau newydd neu i ofyn i'r amodau newydd neu'r amrywiadau gael eu cymhwyso iddynt mewn ffordd wahanol.

**Adran 23: Cyfnod para'r gymeradwyaeth**

54. Rhaid i gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig gael eu cymeradwyo am gyfnod cyfyngedig fel y caniateir i gyrff dyfarnu eraill gystadlu i fod yn ddarparwr cymhwyster cyfyngedig ar gyfer pob cyfnod cyfyngedig.

55. Caniateir i gymwysterau blaenoriaethol anghyfyngedig a chymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol gael eu cymeradwyo am gyfnod amhenodol neu am gyfnod cyfyngedig. Pan fo cymeradwyaeth yn cael ei rhoi am gyfnod cyfyngedig, rhaid gwneud hyn yn glir pan fydd y gymeradwyaeth yn cael ei rhoi – a phan roddir hyn, mae'r gymeradwyaeth yn peidio â bod ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. I gael manylion am y modd y caniateir i gymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl neu ei hildio, gweler y nodiadau ar gyfer adrannau 25 i 28.

**Adran 24: Rheolau ynghylch ceisiadau am gymeradwyaeth**

56. Mae Cymwysterau Cymru yn gallu gwneud rheolau am y modd y mae rhaid i geisiadau am gymeradwyaeth gael eu gwneud, yr hyn y dylai ceisiadau o'r fath ei gynnwys ac a oes rhaid talu unrhyw ffi a sut i wneud hynny (ar yr amod bod ffi o'r fath wedi ei chynnwys mewn cynllun a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 48).

57. Os yw Cymwysterau Cymru yn gwneud rheolau, rhaid iddo eu cyhoeddi.

**Adran 25: Ildio cymeradwyaeth**

58. Caniateir i gorff dyfarnu roi hysbysiad ildio i Gymwysterau Cymru sy'n gofyn iddo ddileu ei gymeradwyaeth i un neu ragor o ffurfiau ar gymhwyster. Rhaid i'r hysbysiad ildio bennu'r dyddiad y mae'r corff dyfarnu yn dymuno i'r gymeradwyaeth ddod i ben. Rhaid i Gymwysterau Cymru weithredu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wrth gydnabod cais o'r fath. Yn y gydnabyddiaeth honno, caiff Cymwysterau Cymru ei gwneud yn ofynnol i gymeradwyaeth ddod i ben ar ddyddiad gwahanol i'r hyn a awgrymwyd gan y corff dyfarnu, a rhaid iddo roi resymau dros benderfynu bod y gymeradwyaeth yn dod i ben ar y dyddiad hwnnw. Wrth benderfynu a ddylid cadw'r dyddiad a bennwyd gan y corff dyfarnu neu a ddylid gosod dyddiad gwahanol, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r angen i osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr ac i ddymuniad y corff dyfarnu i'r gymeradwyaeth ddod i ben ar y dyddiad y mae wedi ei bennu.

**Adran 26: Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad ag ildio cymeradwyaeth**

59. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r gydnabyddiaeth o ildio a roddir gan Gymwysterau Cymru o dan adran 25 ddarparu ar gyfer cyfnod estyn o'r dyddiad y mae cymeradwyaeth wedi ei hildio ar ei ôl (y dyddiad ildio) hyd ddyddiad diweddarach (y dyddiad estyn). Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r ffurf ar y cymhwyster yn parhau i gael ei thrin fel un sydd wedi ei chymeradwyo, ond dim ond at y dibenion a bennir yn y gydnabyddiaeth o ildio. Dim ond os yw Cymwysterau Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr y mae modd gwneud hyn.

**Adran 27: Tynnu cymeradwyaeth yn ôl**

60. Diben yr adran hon yw galluogi Cymwysterau Cymru i roi terfyn ar ei gymeradwyaeth i ffurf ar gymhwyster drwy dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl. Y rhesymau dros dynnu cymeradwyaeth yn ôl yw bod Cymwysterau Cymru wedi ei fodloni:

a) nad yw'r corff dyfarnu wedi cydymffurfio ag amod cymeradwyo. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, os yw'r corff dyfarnu yn methu â chydymffurfio â'r amodau a nodwyd ar adeg rhoi'r gymeradwyaeth neu'n eu hepgor, neu os yw'r amodau cymeradwyo (megis gofynion gwybodaeth) yn newid a bod y cymhwyster yn peidio â chydymffurfio â'r amodau mwyach (yn yr achos hwn gallai corff dyfarnu fwriadu cyflwyno ffurf ar gymhwyster yn ei lle i'w chymeradwyo);
b) nad yw'r corff dyfarnu sy'n cynnig y ffurf honno ar gymhwyster yn cael ei gydnabod mwyach yn gorff dyfarnu gan Gymwysterau Cymru (mewn cysylltiad â'r ffurf honno ar gymhwyster);

c) bod Cymwysterau Cymru wedi penderfynu bod y ffurf ar gymhwyster yn 'cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig'.

61. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y mae rhaid i Gymwysterau Cymru ei wneud i dynnu cymeradwyaeth yn ôl. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i Gymwysterau Cymru:

a) hysbysu'r corff dyfarnu am fwriad Cymwysterau Cymru i ddyroddi hysbysiad tynnu'n ôl, gan esbonio pam y mae'n bwriadu tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl a'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei benderfyniad; a
b) ystyried unrhyw ymateb a ddarparwyd gan y corff dyfarnu.

62. Rhoddir hefyd y pŵer i Gymwysterau Cymru i amrywio'r dyddiad tynnu'n ôl, cyhyd â bod y corff dyfarnu yn cydsynio i'r amrywiad hwnnw. Gallai amrywiad alluogi Cymwysterau Cymru i ystyried yr amser y mae ei angen i ddatblygu cymwysterau yn lle'r cymwysterau sy'n bodoli ac i estyn yr amser hwnnw os oes oedi, er enghraifft.

63. Wrth benderfynu ar ddyddiad i dynnu cymeradwyaeth yn ôl neu ar amrywiad i'r dyddiad hwnnw, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r angen i osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr.

### Adran 28: Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad a thynnu cymeradwyaeth yn ôl

64. Caiff Cymwysterau Cymru wneud trefniadau i barhau i drin cymhwyster sydd wedi ei dynnu'n ôl fel pe bai wedi ei gymeradwyo, am amser penodedig ac at ddibenion penodedig, er mwyn effaith andwyol ar ddysgwyr.

## RHAN 5: DYNODI CYMWYSTERAU ERAILL

### Adran 29: Dynodi cymwysterau eraill

65. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i ddynodi ffurf ar gymhwyster (sydd o fewn cydnabyddiaeth y corff dyfarnu) fel bo'r cymhwyster dynodedig yn gymwys i gael ei ddarparu ar gyrsiau addysg neu hyfforddiant sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus ar gyfer dysgwyr sydd o dan 19 oed. Caiff corff cydnabyddedig wneud cais am ddynodiad mewn cysylltiad â ffurf ar gymhwyster y mae'n ei chynnig ac y mae wedi ei gydnabod gan Gymwysterau Cymru mewn cysylltiad â hi. Dim ond os yw Cymwysterau Cymru wedi ei fodloni bod yr amodau yn is-adran (4) wedi eu bodloni y caiff wneud dynodiad. Mae'r amodau yn ymwneud â phriodoldeb defnyddio'r cymhwyster ar gwrs sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus a phriodoldeb dynodi'r cymhwyster yn hytrach na'i gymeradwyo. Bydd hyn yn helpu yn y broses o drosglwyddo'r cymwysterau o'r gyfundrefn reoleiddiol flaenorol i gyfundrefn Cymwysterau Cymru, gan alluogi Cymwysterau Cymru ei hun i ystyried a barnu pa gymwysterau y dylid eu cymeradwyo – ac eithrio'r rhai sydd wedi eu trosglwyddo iddo fel rhai sydd wedi eu cymeradwyo. Bydd hefyd yn galluogi Cymwysterau Cymru i ganiatáu (neu barhau i ganiatáu) i gyrsiau sy'n arwain at ffurfiau penodol ar gymhwyster gael eu cyllido'n gyhoeddus fel na fydd bylchau'n ymddangos yn y ddarpariaeth a gyllidir yn gyhoeddus pe bai rhai cymwysterau yn peidio â chael eu cyflwyno ar gyfer eu cymeradwyo. Caiff Cymwysterau Cymru ddynodi

cymwysterau fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar gwrs addysg neu hyfforddiant penodol (er enghraifft, i'w defnyddio ar raglenni prentisiaeth penodol) neu fel rhai sy'n gymwys i gael eu cyllido ar gyrsiau ar gyfer dysgwyr sydd o dan 19 oed yn fwy cyffredinol.

**Adran 30: Darpariaeth bellach ynghylch dynodiadau adran 29**

66. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol cael terfyn amser ar gyfer dynodiadau o dan adran 29: mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru bennu'r dyddiad y bydd y dynodiad yn dechrau ac yn dod i ben. Yn ogystal â dod i ben yn unol â'r terfyn amser a bennir gan Gymwysterau Cymru ar ddechrau dynodiad, bydd dynodiad hefyd yn peidio â chael effaith o dan yr amgylchiadau a ganlyn (ac yn yr achosion hyn bydd rhaid i Gymwysterau Cymru hysbysu'r corff dyfarnu am y dyddiad y bydd y dynodiad yn peidio â chael effaith):

(i) os yw cydnabyddiaeth y corff dyfarnu yn dod i ben mewn cysylltiad â'r ffurf ar gymhwyster sydd wedi ei dynodi (felly mae'r dynodiad yn peidio â chael effaith ar yr un pryd ag y mae'r gydnabyddiaeth yn peidio â chael effaith);
(ii) os yw'r ffurf ar gymhwyster a ddynodwyd yn cael ei chymeradwyo o dan Ran 4, o'r dyddiad y mae'n dod yn gymhwyster a gymeradwywyd, er y caiff Cymwysterau Cymru wneud trefniadau trosiannol o dan adran 31 i drin y cymhwyster fel pe bai wedi ei gymeradwyo at ddibenion penodedig am gyfnod estynedig o amser er mwyn osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr;
(iii) o'r adeg pan gaiff ffurf ar y cymhwyster ei chymeradwyo fel cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig – er y caiff Cymwysterau Cymru, unwaith eto, wneud trefniadau trosiannol o dan adran 31.

67. Caiff Cymwysterau Cymru bennu'r diben y mae dynodiad yn cael effaith ato, a allai fod drwy gyfeirio at yr amgylchiadau y caniateir i gymhwyster dynodedig gael ei ddyfarnu odanynt neu'r personau y caniateir i'r cymhwyster dynodedig gael ei ddyfarnu iddynt. Byddai hyn yn galluogi Cymwysterau Cymru i ddatgan, er enghraifft, na chaniateir i'r cymhwyster gael ei gynnig i ddysgwyr sy'n iau nag unrhyw derfyn oedran isaf a osodir ar y cymhwyster gan Gymwysterau Cymru (sy'n debyg, er enghraifft, i amod sy'n cyfyngu ar ddyfarniad ar gyfer cymwysterau a gymeradwywyd (gweler adran 33(3) i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

**Adran 31: Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â dynodiadau adran 29**

68. Mae'r adran hon yn caniatáu i Gymwysterau Cymru ddarparu i ddynodiadau barhau i gael effaith at ddibenion cyfyngedig ar ôl iddynt beidio, fel arall, â chael effaith (oherwydd naill ai bod y ffurf ar gymhwyster yn cael ei chymeradwyo, neu oherwydd bod cymeradwyaeth i ffurf flaenoriaethol gyfyngedig ar y cymhwyster yn cymryd effaith). Caiff Cymwysterau Cymru ddarparu i'r ffurf ar y cymhwyster a ddynodwyd gael ei drin fel pe bai wedi ei dynodi at ddibenion a bennir gan Cymwysterau Cymru ac am y cyfnod amser a bennir ganddo. Dim ond pan fo Cymwysterau Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud darpariaeth drosiannol at ddiben osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr sy'n ceisio cael y ffurf ar y cymhwyster y caiff wneud hynny – er enghraifft, er mwyn caniatáu i ddysgwyr gwblhau cymhwyster y maent wedi dechrau paratoi ar ei gyfer neu, er enghraifft, er mwyn caniatáu i ddysgwyr ailsefyll cymhwyster.

### Adran 32: Dirymu dynodiadau adran 29

69. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i ddirymu dynodiad. Cyn gwneud hyn, rhaid iddo rhoi hysbysiad am ei fwriad i'r corff dyfarnu cydnabyddedig perthnasol sy'n esbonio pam y mae'n bwriadu dirymu ac sy'n datgan pa bryd y bydd yn penderfynu pa un ai i ddirymu ai peidio. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan y corff cydnabyddedig ac, os yw'n penderfynu dirymu, rhaid iddo roi hysbysiad i'r corff cydnabyddedig am y penderfyniad a pha bryd y mae'r dirymiad i gymryd effaith. Bydd y dirymiad yn gymwys o 1 Medi yn y flwyddyn ar ôl i'r penderfyniad i ddirymu gael ei wneud a dim ond mewn cysylltiad â dysgwyr sy'n dechrau cwrs ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw y mae'n gymwys. Rhaid gwneud yr hysbysiad am ddirymiad i'r corff cydnabyddedig yn ddi-oed ond beth bynnag erbyn (neu ar) 31 Rhagfyr yn y flwyddyn y caiff ei wneud. Mae hyn yn golygu y bydd gan gyrff cydnabyddedig (ac o ganlyniad darparwyr dysgu a dysgwyr) o leiaf 8 mis rhwng gwybod bod y penderfyniad i ddirymu wedi ei wneud a'r dirymiad yn cael effaith ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Rhaid i'r hysbysiad am y penderfyniad i ddirymu gael ei gyhoeddi.

## RHAN 6: DARPARIAETH BELLACH SY'N BERTHNASOL I GYDNABOD, CYMERADWYO A DYNODI

### Adran 33: Cyfyngu ar gyllido a darparu cyrsiau penodol

70. Mae'r adran hon yn gosod cyfyngiad ar gyllid cyhoeddus ar gyfer cyrsiau addysg neu hyfforddiant ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed, os yw'r cyrsiau hynny yn arwain at gymwysterau. Pan fo'r cyrsiau hynny yn cael eu cyllido gan Weinidogion Cymru, gan awdurdodau lleol neu'n cael eu darparu gan (neu ar ran) ysgol a gynhelir, rhaid i'r cymwysterau a ddefnyddir fod yn rhai a ddyfernir gan gorff cydnabyddedig yn unol â chymeradwyaeth iddynt gan Gymwysterau Cymru o dan Ran 4, neu a ddynodir gan Gymwysterau Cymru o dan Ran 5. Mewn achos pan fo ysgol a gynhelir yn darparu'r cwrs (neu fod y cwrs yn cael ei ddarparu ar ei rhan), rhaid i'r awdurdod lleol a'r corff llywodraethu sicrhau eu bod yn glynu wrth y cyfyngiad hwn. Mae hefyd yn ofynnol i'r cwrs gael ei ddarparu yn unol ag unrhyw amod sy'n cyfyngu ar ddyfarniad sydd ynghlwm wrth gymeradwyaeth (yn achos cymhwyster a gymeradwywyd), neu yn unol ag unrhyw ddibenion penodedig y mae'r dynodiad i gael effaith atynt (yn achos dynodiad). Mae is-adran (4) yn esbonio bod amod sy'n cyfyngu ar ddyfarniad yn amod cymeradwyo sy'n ymwneud â'r person neu'r disgrifiad o berson y caniateir i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu iddo – megis cyfyngiad sy'n seiliedig ar oedran dysgwyr.

71. Mae eithriad penodol i'r cyfyngiad hwn ar gyfer unrhyw gwrs sy'n cael ei ddarparu i berson sydd ag anawsterau dysgu. Nid yw'r eithriad hwn ond yn ymwneud â'r cwrs a ddarperir i'r person sydd ag anawsterau dysgu ac nid yw'n darparu eithriad mewn perthynas â dysgwyr eraill ar y cwrs hwnnw. Yn ddibynnol ar bwerau cyllido'r corff awdurdodedig, byddai'r eithriad hwn yn ei alluogi i gyllido cyrsiau a ddarperir ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu pa le bynnag y darperir y cwrs, er enghraifft pa un ai yng Nghymru neu y tu allan iddi. Mae adran 56 yn diffinio ystyr person ag anhawster dysgu at ddibenion y Bil hwn.

72. Mae is-adran 8 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud eithriadau pellach i'r cyfyngiad hwn - naill ai ar gyfer rhai cyrsiau penodol neu ar gyfer amgylchiadau penodol eraill neu achosion penodol a all godi. Er enghraifft, gallai fod yn rhesymol gwneud eithriad mewn perthynas â dysgwr y mae cyflogaeth ei riant/rhieni wedi ei throsglwyddo i Gymru, yn agos iawn at ddiwedd ei gwrs, er mwyn galluogi'r dysgwr i orffen y cwrs ac felly i gymryd y cymhwyster y mae wedi ei baratoi ar ei gyfer. Gwneir yr eithriad gan Weinidogion Cymru drwy ddynodi'r cwrs (yn ysgrifenedig).

73. Nid yw dynodiad gan Weinidogion Cymru yn sefydlu llwybr arall ar gyfer cymeradwyo cymwysterau - ei effaith yw ei bod yn bosibl y bydd cyrff awdurdodedig yn gallu cyllido cyrsiau ar gyfer dysgwyr (sydd o dan 19 oed) er eu bod yn arwain at ffurf ar gymhwyster nad yw wedi ei chymeradwyo, na'i dynodi, gan Gymwysterau Cymru.

74. Fel arall, nid yw'r Bil yn cyfyngu ar y cymwysterau y caniateir iddynt gael eu defnyddio ar gyrsiau. Er enghraifft, gallai ysgol annibynnol yng Nghymru ddarparu cyrsiau sy'n arwain at ffurfiau ar gymwysterau nad ydynt wedi eu cymeradwyo na'u dynodi gan Gymwysterau Cymru..

**Adrannau 34: Dyfarnu cymhwyster a gymeradwywyd yng Nghymru: cyfyngu ar gymhwyso amodau a osodir gan Ofqual**

75. Diben adran 34 yw osgoi bod ffurf ar gymhwyster sydd wedi ei chymeradwyo gan Gymwysterau Cymru yn cael ei rheoleiddio ar yr un pryd gan Gymwysterau Cymru ac Ofqual. Mae Ofqual yn rheoleiddiwr cymwysterau fel y'i sefydlwyd o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Mae swyddogaethau Ofqual yn debyg i swyddogaethau Cymwysterau Cymru. Caniateir i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Ofqual a chan Gymwysterau Cymru o dan y priod gyfundrefnau deddfwriaethol.

76. Mae adran 34 yn atal unrhyw amodau cydnabod a osodir gan Ofqual rhag bod yn gymwys i ddyfarnu ffurf ar gymhwyster yng Nghymru (sef pan fo dysgwyr yn cael eu hasesu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru) yn unol â chymeradwyaeth iddi gan Gymwysterau Cymru. Byddai amodau cydnabod ac unrhyw amodau cymeradwyo a osodir gan Gymwysterau Cymru yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn. Ni fyddai amodau cydnabod Ofqual yn gymwys.

77. Caniateir i gymwysterau sydd wedi eu rheoleiddio o dan amodau cydnabod Cymwysterau Cymru, gan gynnwys unrhyw gymwysterau dynodedig, gael eu rheoleiddio hefyd, yn ymarferol, gan Ofqual (gweler adran 35 - caiff Cymwysterau Cymru reoleiddio, drwy amodau cydnabod, gymwysterau a ddyfernir yng Nghymru sydd o fewn cydnabyddiaeth y corff hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu cymeradwyo). Mae adran 34 yn sicrhau nad oes gorgyffwrdd o'r fath yn digwydd mewn perthynas â chymwysterau a ddyfernir yn unol â chymeradwyaeth o dan Ran 4 o'r Bil. Nid yw'r adran hon yn effeithio ar gymhwyso amodau cydnabod (os oes rhai) a osodir gan Ofqual i ddyfarnu yng Nghymru ffurfiau ar gymhwyster nad ydynt wedi eu dyfarnu yn unol â chymeradwyaeth gan Gymwysterau Cymru – er enghraifft, cymwysterau dynodedig neu gymhwyster nad yw wedi ei ddyfarnu yn unol â chymeradwyaeth a gall, yn lle hynny, fod yn un y mae Ofqual yn rheoleiddio mewn perthynas ag ef.

**Adran 35: Cyfyngu ar gymhwyso amodau a osodir gan Gymwysterau Cymru**

78. O dan adran 35, mae amodau cydnabod a osodir gan Gymwysterau Cymru ar gorff cydnabyddedig yn gymwys mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau gan y corff yng Nghymru, y mae'r corff wedi ei gydnabod mewn cysylltiad â hwy. Mae hyn yn cwmpasu pob cymhwyster o fewn ei gydnabyddiaeth, ac nid dim ond unrhyw un neu ragor a gymeradwyir o dan Ran 4 neu a ddynodir o dan adran 29. Caniateir i gyrff dyfarnu cydnabyddedig gael eu rheoleiddio hefyd drwy amodau cydnabod a osodir gan Ofqual (o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009) mewn cysylltiad â chymwysterau a ddyfernir yng Nghymru, ac eithrio'r rhai a ddyfernir yn unol â chymeradwyaeth. Y rheswm dros hyn yw nad yw adran 34 ond yn atal amodau cydnabod Ofqual rhag bod yn gymwys mewn cysylltiad â chymwysterau a ddyfernir yng Nghymru yn unol â chymeradwyaeth.

79. Ni fydd amodau cydnabod a osodir gan Gymwysterau Cymru yn gymwys mewn perthynas â dyfarnu ffurf ar gymhwyster y tu allan i Gymru.

## RHAN 7: GORFODI

**Adran 36: Pŵer i roi cyfarwyddydau**

80. Diben yr adran hon yw galluogi Cymwysterau Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gymryd camau (neu beidio â chymryd camau), drwy ddyroddi cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r corff dyfarnu hwnnw. Dim ond pe bai Cymwysterau Cymru yn barnu bod y corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio, neu'n debygol o fethu â chydymffurfio, ag un neu ragor o'r amodau cydnabod a/neu un neu ragor o'r amodau cymeradwyo y gallai cyfarwyddyd gael ei ddyroddi. Rhaid i unrhyw gamau y mae Cymwysterau Cymru yn eu gwneud yn ofynnol (neu'n eu gwahardd) drwy'r cyfarwyddyd fod at y diben o sicrhau bod y corff dyfarnu yn cydymffurfio â'r amod.

81. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi hysbysiad i'r corff dyfarnu os yw'n bwriadu dyroddi cyfarwyddyd a rhaid iddo roi i'r corff dyfarnu y rhesymau dros y cyfarwyddyd arfaethedig a phennu pa bryd y mae'n bwriadu gwneud y penderfyniad. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall y corff dyfarnu gyflwyno sylwadau cyn yr amser hwnnw ac os yw'n gwneud hynny, rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried. Os yw Cymwysterau Cymru, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau, yn bwrw ati i ddyroddi cyfarwyddyd, rhaid iddo wneud hynny yn ysgrifenedig a rhaid i'r corff dyfarnu gydymffurfio ag ef. Pe bai angen i Gymwysterau Cymru wedi hynny orfodi'r cyfarwyddyd, caiff wneud cais i'r Llys am orchymyn mandadol a fyddai, pe bai'n cael ei ganiatáu, yn gwneud cydymffurfedd yn ofynnol.

82. Wrth arfer y pŵer hwn, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r egwyddorion sy'n ymwneud â gweithgareddau rheoleiddiol a nodir yn adran 53. Ni fyddai'r pŵer hwn yn rhagwahardd Cymwysterau Cymru rhag ceisio ymdrin ag unrhyw bryderon o ran methiannau posibl i gydymffurfio ag amodau drwy drafodaethau gyda chyrff dyfarnu.

### Adrannau 37 i 39: Cosbau ariannol

83. Diben yr adrannau hyn yw:

a) galluogi i Gymwysterau Cymru i osod cosb ariannol ar gorff dyfarnu a nodi'r gofynion mewn perthynas â rhoi hysbysiad am gosb o'r fath;
b) darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar sut i benderfynu ar y swm i'w dalu;
c) galluogi cyrff dyfarnu i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn cosb o'r fath;
d) galluogi Cymwysterau Cymru i adennill llog ar unrhyw ran o'r gosb sydd heb ei thalu erbyn amser penodol.

84. Wrth arfer ei holl swyddogaethau sy'n ymwneud â chosbau ariannol, mae gan Gymwysterau Cymru ddyletswydd i gydymffurfio â'r egwyddorion yn adran 53. O dan adran 46 rhaid i Gymwysterau Cymru nodi yn ei ddatganiad o bolisi yr amgylchiadau pan fo'n debygol o osod cosb o'r fath a'r ffactorau y bydd yn eu hystyried wrth benderfynu ar y swm i'w osod.

85. Os yw'n ymddangos i Gymwysterau Cymru fod corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio ag amod o ran ei gydnabod neu unrhyw gymeradwyaeth i gymhwyster, caiff osod cosb ariannol (gweler adrannau 37(1) a (2)).

86. Fodd bynnag, rhaid i Gymwysterau Cymru yn gyntaf roi hysbysiad i'r corff dyfarnu am ei fwriad i osod cosb ariannol, gan roi ei resymau, gan bennu'r swm arfaethedig a'r cyfnod y mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu gwneud ei benderfyniad pan ddaw i ben. Mae hyn er mwyn rhoi cyfle i'r corff dyfarnu i gyflwyno sylwadau. Yn yr achos hwn, rhaid darparu ar gyfer isafswm cyfnod o 28 o ddiwrnodau (gan ddechrau o'r dyddiad yr anfonir yr hysbysiad).

87. Os yw Cymwysterau Cymru yn penderfynu, ar ôl iddo ystyried unrhyw sylwadau, osod cosb ariannol, rhaid iddo nodi hyn mewn hysbysiad ysgrifenedig pellach, gan bennu'r swm, y cyfnod y mae rhaid i'r taliad gael ei wneud ynddo (rhaid iddo beidio â bod yn llai nag 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad) a nodi'r wybodaeth o ran y seiliau drosto, y modd y caniateir i'r taliad gael ei wneud, hawliau apelio a chanlyniadau peidio â thalu.

88. Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn nodi'r gofynion o ran y modd y mae'r swm i gael ei gyfrifo. Mae'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a osodir gan y rheoliadau hynny, caiff Cymwysterau Cymru benderfynu ar swm y gosb, er fod rhaid ei fod wedi nodi'r ffactorau y mae'n debygol o'u hystyried wrth benderfynu ar y swm hwnnw yn ei ddatganiad polisi (adran 46).

89. Caiff corff dyfarnu apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad i osod cosb ariannol (ar y seiliau a nodir yn adran 38(2)) neu yn erbyn penderfyniad ar swm y gosb. Mae llog hefyd yn daladwy ar unrhyw swm o gosb ariannol nad yw wedi ei dalu ar ôl y "dyddiad cymwys", y darperir ar ei gyfer yn adran 39(2) (ac eithrio ar gyfer unrhyw gyfnod pan fo'r gofyniad i dalu wedi ei atal dros dro). Y gyfradd llog yw'r hyn a bennir yn adran 17 o Deddf Dyfarniadau 1838. Ni chaniateir i gyfanswm y llog fod yn fwy na swm y gosb.

### Adrannau 40 i 42: Adennill costau ar gyfer gosod sancsiynau; apelau a llog

90. Diben yr adrannau hyn yw galluogi Cymwysterau Cymru i adennill costau yr aed iddynt mewn cysylltiad â gosod sancsiwn. Caniateir mynd i gostau naill ai drwy roi cyfarwyddyd (adran 36), gosod cosb ariannol (adran 37) neu am dynnu cydnabyddiaeth yn ôl (paragraff 19 o Atodlen 3).

91. Mae adran 40 yn disgrifio'r math o gostau y caniateir iddynt gael eu hadennill ac mae'n pennu'r modd y gall Cymwysterau Cymru ei gwneud yn ofynnol i gostau gael eu hadennill a'r manylion sydd i'w darparu i'r corff dyfarnu.

92. Mae adran 41 yn rhoi'r pŵer i gyrff dyfarnu i apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniad gan Gymwysterau Cymru i adennill costau neu o ran swm y costau.

93. Mae adran 42 yn darparu i log gronni ar unrhyw swm o gostau nad yw wedi ei dalu ar ddiwedd y cyfnod sy'n gorffen â'r "dyddiad cymwys" fel y'i diffinnir yn adran 42(2) (ac eithrio ar gyfer unrhyw gyfnod pan fo'r gofyniad i dalu yn cael ei atal dros dro). Rhaid i gyfanswm y llog beidio â bod yn fwy na swm y costau.

### Adran 43: Mynd i mewn i fangre a'i harolygu

94. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i wneud cais i ynad heddwch am orchymyn i'w alluogi i fynd i mewn i fangre corff dyfarnu i arolygu a chopïo cofnodion, dogfennau ac arolygu a gwirio gweithrediad dyfeisiau electronig. Dim ond aelod o staff sydd wedi ei awdurdodi gan Gymwysterau Cymru at ddibenion yr adran hon a gaiff wneud cais i'r ynad heddwch. Dim ond os yw'r ynad heddwch wedi ei fodloni bod y gofynion yn is-adrannau (3) i (5) wedi eu bodloni y gellir gwneud gorchymyn. Os rhoddir gorchymyn, caiff aelod awdurdodedig o staff Cymwysterau Cymru, fynd i mewn i'r fangre at y diben o ganfod a yw amod cydnabod neu gymeradwyo, y mae'r corff dyfarnu, neu ei ffurf ar gymhwyster, yn ddarostyngedig iddo, wedi ei dorri. Caiff y gorchymyn ganiatáu neu ei gwneud yn ofynnol i swyddog heddlu fynd gyda'r person awdurdodedig. Caiff y person awdurdodedig a'r swyddog heddlu (os bydd yn bresennol) wneud amryw bethau (a restrir yn is-adran (6)) at y diben hwnnw. Os oes angen i'r swyddog heddlu sy'n mynd gyda'r person awdurdodedig ddefnyddio grym rhesymol i alluogi i'r pwerau gael eu harfer, yna caniateir hynny.

## RHAN 8: ATODOL

### Adran 44: Darparu gwasanaethau etc gan Gymwysterau Cymru

95. Mae gan Gymwysterau Cymru y pŵer i ddarparu gwasanaethau ymgynghori a gwasanaethau eraill ar sail fasnachol ac i godi ffioedd am y rhain. Caiff Cymwysterau Cymru ddatblygu arbenigedd mewn perthynas â chymwysterau a allai fod o werth masnachol. Yn wahanol i unrhyw ffioedd i'w codi am ei swyddogaethau rheoleiddiol, y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ymlaen llaw ar gyfer cynllun o'r fath (gweler adran 48), bydd Cymwysterau Cymru yn gallu pennu ei raddfa ffioedd ei hun ar gyfer gweithgareddau masnachol heb gyfeirio at Weinidogion Cymru.

96. Mae'n bosibl y bydd yn hwylus i Gymwysterau Cymru ddarparu gwasanaethau o'r fath drwy gwmni. Mae'r adran hon yn caniatáu i Gymwysterau Cymru ddarparu'r gwasanaethau drwy gwmni a berchenogir yn gyfan gwbl, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

**Adran 45: Adolygu ac ymchwil**

97. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i adolygu cyrff dyfarnu cydnabyddedig a dyfarnu cymwysterau a gymeradwywyd ac a ddynodwyd yn barhaus, ynghyd â chynnal unrhyw adolygiadau eraill sy'n ymwneud â chymwysterau sy'n cael eu dyfarnu yng Nghymru. Er enghraifft, caiff Cymwysterau Cymru gynnal adolygiad o brosesau sicrhau ansawdd corff dyfarnu cydnabyddedig penodol, neu caiff benderfynu adolygu'r prosesau ar gyfer cyflenwi asesiadau ar-lein yn yr holl gyrff dyfarnu y mae'n eu cydnabod. Mewn perthynas â chymwysterau a gymeradwywyd neu a ddynodwyd, caiff Cymwysterau Cymru, er enghraifft, benderfynu adolygu ffurf ar gymhwyster Bioleg TGAU un corff dyfarnu, neu caiff benderfynu, er enghraifft, adolygu pob cymhwyster a gymeradwywyd a/neu ddynodwyd ar lefel benodol yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (megis Lefel Mynediad neu Lefel 1).

98. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru adolygu ei rôl ei hun a rôl cyrff dyfarnu yn gyson. Caniateir i'r ddyletswydd hon gwmpasu ystyried a ddylai ddod yn gorff dyfarnu ac ym mha ffordd, mewn amser.

99. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i wneud neu i gomisiynu gwaith ymchwil, pa un ai ynghylch cymwysterau a ddyfernir yng Nghymru neu ynghylch testunau sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau hynny. Caiff Cymwysterau Cymru ddefnyddio ei staff ei hun i wneud y gwaith ymchwil hwn, neu caiff ofyn i eraill ei wneud ar ei ran.

**Adran 46: Datganiad polisi a datganiad ynghylch ymgynghori**

100. Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi sut y bydd yn mynd ati i gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddiol allweddol. Diben y datganiad polisi yw gwneud y ffordd y mae Cymwysterau Cymru yn cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddiol yn dryloyw i'r rheini y maent yn effeithio arnynt a'r cyhoedd yn gyffredinol. Rhaid i'r datganiad gynnwys gwybodaeth am y materion a restrir yn is-adran (2), gan y gallai'r materion hyn gael effaith sylweddol ar gyrff dyfarnu a'r modd y maent yn cynnal eu busnes.

101. Rhaid i Gymwysterau Cymru hefyd lunio datganiad am yr amgylchiadau, a'r modd, y mae'n bwriadu cynnal ymgynghoriad. Nid yw hyn yn gyfyngedig i ymgyngoriadau ysgrifenedig, a byddai hefyd yn cwmpasu ffurfiau eraill ar ryngweithio ag eraill gyda golwg ar gael eu safbwyntiau.

102. Oherwydd y caiff Cymwysterau Cymru newid ei bolisïau o bryd i'w gilydd, mae'n bosibl y bydd angen i'r datganiadau hyn gael eu diwygio i adlewyrchu newidiadau o'r fath. Rhaid cyhoeddi'r datganiad cyntaf ac unrhyw ddatganiadau diwygiedig dilynol.

**Adran 47: Cwynion**

103. Rhaid i Gymwysterau Cymru gyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi'r ffyrdd y bydd yn ymdrin â chwynion y mae'n eu cael, pa un a ydynt am arfer ei swyddogaethau ei hun, am weithgareddau corff dyfarnu cydnabyddedig (sy'n berthnasol i'w gydnabyddiaeth), neu'n benodol mewn perthynas â dyfarnu cymhwyster a gymeradwywyd neu a ddynodwyd. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru benderfynu pa weithdrefnau y bydd yn eu dilyn pan ddigwydd unrhyw un neu ragor o'r mathau hyn o gwynion, a chyhoeddi'r gweithdrefnau hyn. Caniateir i'r gweithdrefnau fod yn wahanol yn unol â'r math o gŵyn. Caiff Cymwysterau Cymru benderfynu, unwaith y mae wedi ymdrin â chŵyn hyd at bwynt penodol, fod angen atgyfeirio'r gŵyn at drydydd parti annibynnol. Mae'r Bil yn diffinio 'annibynnol' fel rhywun nad yw'n aelod o Fwrdd Cymwysterau Cymru nac ychwaith yn aelod o'i staff (neu, mewn achos pan fo'r person annibynnol yn gorff, os nad yw unrhyw un o'i aelodau yn aelod o Gymwysterau Cymru nac yn aelod o staff Cymwysterau Cymru).

**Adran 48: Cynllun codi ffioedd**

104. Os yw Cymwysterau Cymru yn dymuno codi ffioedd ar gyrff dyfarnu am ei weithgareddau rheoleiddiol, rhaid iddo yn gyntaf lunio rhestr o'r ffioedd arfaethedig mewn perthynas â chostau Cymwysterau Cymru mewn cynllun sydd i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Caiff cynllun osod ffioedd mewn cysylltiad â'r swyddogaethau rheoleiddiol a restrir yn is-adran (1), nad ydynt yn cynnwys swyddogaethau gorfodi yn Rhan 6 (mae pŵer penodol yn adran 40 i Gymwysterau Cymru adennill costau mewn cysylltiad â gosod sancsiynau). Dim ond yn unol â'r cynllun y caiff Cymwysterau Cymru godi ffioedd.

**Adran 49: Grantiau**

105. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i wneud grantiau cyhyd â'i fod yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau. Caniateir i'r grantiau hyn fod yn ddarostyngedig i amodau.

**Adran 50: Darparu gwybodaeth neu gyngor**

106. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ddarparu gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau i Weinidogion Cymru, fel y maent yn gofyn amdanynt.

**Adran 51: Cydweithio**

107. Mae'r adran hon yn galluogi Cymwysterau Cymru i weithio gydag eraill, cyhyd â'i fod yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny mewn cysylltiad â'i swyddogaethau ei hun. Er enghraifft, efallai y bydd Cymwysterau Cymru am gydweithio â rheoleiddwyr cymwysterau eraill y DU mewn perthynas â chymwysterau dynodedig.

**Adran 52: Dyletswydd i roi sylw i bolisi llywodraeth a materion eraill**

108. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd i Gymwysterau Cymru gan nodi y dylai roi sylw i un neu ragor o bolisïau'r llywodraeth ac unrhyw faterion eraill a bennir yn y cyfarwyddyd. Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd o'r fath gael ei gyhoeddi a chaniateir iddo gael ei amrywio neu ei ddirymu.

**Adran 53: Cyflawni gweithgareddau rheoleiddiol gan Gymwysterau Cymru**

109. Mae'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru, wrth iddo gyflawni'r swyddogaethau rheoleiddiol a restrir yn is-adran (1), fabwysiadu egwyddorion rheoleiddio da megis tryloywder, atebolrwydd, cymesuredd a chysondeb.

## RHAN 9: CYFFREDINOL

**Adran 54: Rheoliadau**

110. Mae'r adran hon yn nodi bod y tair set o reoliadau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) i gael eu gwneud drwy offeryn statudol yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymeradwyo cyn y gallant ddod i rym. Mae'r pwerau i wneud y rheoliadau y cyfeirir atynt yn cael eu darparu yn adrannau 21 (pŵer i bennu gofynion sylfaenol), 37(3) (pŵer i wneud rheoliadau ynghylch swm cosbau ariannol) a 58 (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol). Ond os nad yw rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol yn diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r weithdrefn negyddol yn gymwys (is-adran(3)).

**Adran 55: Dehongli cyfeiriadau at "cymhwyster"**

111. Mae'r adran hon yn diffinio'r cymwysterau sy'n dod o fewn cwmpas y Bil. Mae graddau o lefelau amrywiol wedi eu heithrio.

112. Mae is-adran 2 yn darparu bod cymhwyster yn cael ei ddiffinio fel un a ddyfernir yng Nghymru mewn perthynas â lleoliad asesiad, neu ddarpar asesiad, y dysgwyr, y mae rhaid iddo fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, yn hytrach na lleoliad y cyrff dyfarnu. Mae adran 56 yn esbonio ymhellach beth yw ystyr hyn.

113. Mae dyfarnu cymhwyster yn cael ei ddiffinio i gynnwys dyfarnu credydau mewn cysylltiad ag elfennau cymhwyster ac i gymhwyster a ddyfernir gan un neu ragor o gyrff gyda'i gilydd. Mae cyfeiriadau at ffurf ar gymhwyster yn gyfeiriadau at y fersiwn o gymhwyster y mae corff dyfarnu penodol yn ei chynnig neu'n dymuno ei chynnig.

**Adran 56: Dehongli cyffredinol a mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio**

114. Mae'r adran hon yn darparu bod dehongliadau yn Neddf Addysg 1996 (p.56) i'w cymhwyso i'r Bil hwn. Ond pan fo darpariaeth yn y Bil hwn yn rhoi dehongliad gwahanol i derm sydd hefyd yn ymddangos yn Neddf Addysg 1996, y diffiniad yn y Bil hwn sy'n gymwys yn hytrach na'r diffiniad yn Neddf Addysg 1996.

115. Mae is-adran 3 yn nodi cyfres o ddiffiniadau sy'n hunanesboniadol ac mae is-adran 4 yn esbonio, at ddibenion y Bil, pan ddywedir bod person yn cael ei asesu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, fod hyn yn cyfeirio at y lleoliad lle y mae'r dysgwr yn gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu hasesu (er enghraifft sefyll arholiad neu gyflawni gweithgaredd sy'n cael ei arsylwi) yn hytrach na lleoliad y

person sy'n llunio barn ar yr asesiad (er enghraifft arholwr yn marcio papurau arholiad mewn man arall yn y DU).

116. Mae diffiniadau hefyd wedi eu darparu mewn cysylltiad â'r hyn a olygir yn y Bil wrth gyfeirio at bersonau sydd ag anawsterau dysgu ac at gyrff cydnabyddedig.

**Adran 57: Diwygiadau canlyniadol**

117. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth i ystyried sefydlu Cymwysterau Cymru a system reoleiddiol newydd.

**Adran 58: Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc**

118. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer unrhyw ddarpariaeth ganlyniadol ychwanegol, ddarpariaeth atodol neu ddarpariaeth gysylltiedig, neu unrhyw ddarpariaethau trosiannol, darfodol neu arbed er mwyn rhoi effaith lawn i ddarpariaeth yn y Bil, neu at ddibenion darpariaeth yn y Bil neu o ganlyniad iddi.

**Adran 59: Dod i rym**

119. Mae'r adran hon yn darparu i ddarpariaethau penodol yn y Bil ddod i rym pan gaiff y Cydsyniad Brenhinol. Bydd darpariaethau eraill y Bil yn dod i rym ar y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchmynion cychwyn a wneir o dan yr adran hon.

**Adran 60: Enw byr a chynnwys y Ddeddf fel un o'r Deddfau Addysg**

120. Mae'r adran hon yn hunanesboniadol.

## ATODLEN 1 CYMWYSTERAU CYMRU

### RHAN 1 - SEFYDLU CYMWYSTERAU CYMRU

121. Cyflwynir yr Atodlen hon gan adran 2.

**Paragraff 1: Statws**

122. Mae'r paragraff hwn yn egluro nad corff i'r Goron yw Cymwysterau Cymru.

**Paragraff 2: Aelodaeth**

123. Mae'r paragraff hwn yn amlinellu aelodaeth Cymwysterau Cymru. Mae'n nodi y bydd y Prif Weithredwr yn aelod o Gymwysterau Cymru ac y bydd cadeirydd ac wyth i ddeg aelod arferol yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru.

**Paragraffau 3 i 9: Y cadeirydd ac aelodau arferol**

124. Mae'r paragraffau hyn yn amlinellu'r gofynion a'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â phenodiadau, ymddiswyddo a'r posibilrwydd o symud aelodau o Gymwysterau Cymru o'u swydd. Caniateir i'r cadeirydd gael ei ailbenodi fel cadeirydd unwaith yn unig, ac mae cyfyngiadau ar delerau penodi ac ailbenodi aelodau arferol yn galluogi i aelodaeth Cymwysterau Cymru gael ei hadnewyddu'n rheolaidd.

### Paragraffau 10 i 16: Y prif weithredwr a staff eraill

125. Bydd y prif weithredwr cyntaf yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru, am gyfnod o hyd at dair blynedd a bydd penodiadau dilynol yn cael eu gwneud gan aelodau Cymwysterau Cymru. Caniateir ailbenodiadau i rôl y prif weithredwr.

126. Ac eithrio'r prif weithredwr cyntaf, caiff Cymwysterau Cymru benodi ei staff ei hun. (Mae hyn yn ychwanegol at bŵer Gweinidogion Cymru i wneud cynllun trosglwyddo o dan Atodlen 2 i'r Bil i drosglwyddo staff o Lywodraeth Cymru i Gymwysterau Cymru). Bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu ar delerau ac amodau, tâl a darpariaethau pensiwn staff - ond rhaid i'r trefniadau hyn gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Ni fydd staff Cymwysterau Cymru yn weision sifil.

### Paragraffau 17 a 18: Pwyllgorau

127. Diben y paragraffau hyn yw rhoi'r pwerau i Gymwysterau Cymru i sefydlu a diddymu pwyllgorau, is-bwyllgorau a chyd-bwyllgorau. Mae Cymwysterau Cymru yn gallu talu tâl a lwfansau i aelodau pob un o'r tri chategori hyn o bwyllgor (oni bai eu bod yn aelodau o Gymwysterau Cymru neu ei staff).

### Paragraffau 19 i 21: Dirprwyo

128. Diben y paragraffau hyn yw rhoi'r pwerau i Gymwysterau Cymru i ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau i aelod o Gymwysterau Cymru, i aelod o staff, i bwyllgor neu i gyd-bwyllgor. Caiff pwyllgor neu gyd-bwyllgor is-ddirprwyo swyddogaeth i un o'i is-bwyllgorau. Caiff pwyllgorau a chyd-bwyllgorau osod telerau a graddau'r dirprwyo i is-bwyllgor, ond mae unrhyw ddirprwyo, yn achos pwyllgor, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Gymwysterau Cymru ac yn achos cyd-bwyllgor, i gyfarwyddyd a roddir gan Gymwysterau Cymru a'r person y mae'r cyd-bwyllgor wedi ei sefydlu gydag ef. Mae'r dirprwyo ac unrhyw gyfarwyddyd yn llywodraethu'r hyn y caiff pwyllgor ei wneud neu beidio â'i wneud.

### Paragraffau 22 i 25: Gweithdrefn

129. Caiff Cymwysterau Cymru benderfynu ar y weithdrefn (er enghraifft, y cylch gorchwyl) ar ei gyfer ef ei hun, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau. Caiff pwyllgorau reoleiddio gweithdrefn yr is-bwyllgorau y maent yn eu sefydlu. Caiff cyd-bwyllgorau osod eu gweithdrefnau eu hunain a gweithdrefnau'r is-bwyllgorau y maent yn eu sefydlu. Nid yw lleoedd gwag o ran aelodaeth neu ddiffygion o ran penodiadau i Gymwysterau Cymru, ei bwyllgorau, is-bwyllgorau neu gyd-bwyllgorau yn effeithio ar ddilysrwydd y trafodion (cyhyd ag y glynir wrth drafodion, gan gynnwys cworwm).

### Paragraff 26: Cofrestr buddiannau

130. Mae'r paragraff hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru gofnodi a chyhoeddi buddiannau ei aelodau.

### Paragraff 27: Pwerau atodol

131. Diben y paragraff hwn yw rhoi'r pŵer i Gymwysterau Cymru i wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol neu'n briodol mewn perthynas â'i swyddogaethau. Mae is-baragraff 2 yn nodi'r eithriadau i'r sefyllfa gyffredinol, gyda'r effaith na all Cymwysterau Cymru fynd y tu hwnt i unrhyw drothwy gwariant a nodir gan

Weinidogion Cymru, nac ychwaith cael benthyg neu roi benthyg arian, heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Bydd y trothwy gwariant yn cael ei nodi mewn hysbysiad a roddir i Gymwysterau Cymru gan Weinidogion Cymru.

**Paragraffau 28 i 30: Adroddiadau blynyddol ac adroddiadau eraill**

132. Diben y paragraffau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a phennu'r hyn y mae rhaid i'r adroddiad hwnnw ei gynnwys, gan alluogi Cymwysterau Cymru i gynnwys gwybodaeth ychwanegol. Yn ogystal ag adrodd ar ei waith yn ystod y flwyddyn flaenorol, a nodi ei gynigion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, rhaid i Gymwysterau Cymru adrodd ar unrhyw ganfyddiadau y mae wedi eu gwneud yn y flwyddyn adrodd am effaith ei weithgareddau ar effeithiolrwydd y system gymwysterau, am ei waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac am unrhyw gasgliadau y mae wedi dod iddynt drwy waith ymchwil y mae wedi ei wneud.

133. Rhaid i Gymwysterau Cymru gyflwyno ei adroddiad yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r flwyddyn adrodd yn rhedeg i 31 Awst bob blwyddyn a dylai'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dyddiad hwnnw. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi. Caiff Cymwysterau Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau ychwanegol fel y mae'n gweld yn dda.

**Paragraff 31: Ariannu**

134. Mae'r paragraff hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cyllid, ar ffurf grantiau, i Gymwysterau Cymru.

**Paragraff 32 - 34: Cyfrifon ac archwilio**

135. Mae'r paragraffau hyn yw nodi'r prosesau cyfrifon ac archwilio y mae'n ofynnol i Gymwysterau Cymru eu dilyn. Mae'r rhain yn cynnwys llunio a chyflwyno datganiad blynyddol o gyfrifon i'r Archwilydd Cyffredinol, yn unol â chyfarwyddydau a ddarperir gan Weinidogion Cymru, erbyn 31 Awst bob blwyddyn. Mae'r paragraff hefyd yn gosod dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â'r datganiad o gyfrifon ac yn diffinio'r flwyddyn ariannol gymwys.

136. Rhaid i Gymwysterau Cymru sicrhau ei fod yn cadw cyfrifon a chofnodion priodol, ac yn llunio datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddyroddi cyfarwyddydau i Gymwysterau Cymru o ran llunio'r datganiad o gyfrifon, sy'n cwmpasu'r wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad, y modd y mae angen i'r wybodaeth gael ei chyflwyno, y dull a'r egwyddorion y mae angen i'r datganiad gael ei wneud yn unol â hwy ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd i fynd gyda'r datganiad.

137. Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd a roddir i Gymwysterau Cymru ar unrhyw adeg.

**Paragraff 35: Cynnal ymchwiliadau i'r defnydd o adnoddau**

138. Mae'r paragraff hwn yn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio perfformiad Cymwysterau Cymru (ond nid rhinweddau amcanion polisi Cymwysterau Cymru).

## ATODLEN 1 RHAN 2

### Paragraffau 36 i 40: Diwygiadau canlyniadol

139. Mae'r paragraffau hyn yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Effaith y diwygiadau hyn yw:
   a) y bydd Cymwysterau Cymru yn dod yn ddarostyngedig i gael ei adolygu gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl hŷn Cymru;
   b) bod rhaid i Gymwysterau Cymru lynu wrth ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
   c) y caiff Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i Gymwysterau Cymru; a
   d) bod rhaid i Gymwysterau Cymru gydymffurfio â dyletswyddau o dan Deddf Cydraddoldeb 2010.

## ATODLEN 2: TROSGLWYDDO EIDDO A STAFF I GYMWYSTERAU CYMRU

140. Diben yr Atodlen hon yw galluogi Gweinidogion Cymru i drosglwyddo eiddo, hawliau, rhwymedigaethau a staff i Gymwysterau Cymru drwy gynllun neu gynlluniau trosglwyddo. Rhaid i Weinidogion Cymru osod y cynllun neu'r cynlluniau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i darperir ym mharagraff 5.

141. Mae paragraff 1(3) yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o'r darpariaethau y caniateir iddynt gael eu gwneud yn y cynllun, gan gynnwys creu hawliau a gosod rhwymedigaethau, darparu i faterion sydd wedi eu trosglwyddo gael effaith barhaus, a gwneud darpariaeth sydd yr un fath â darpariaeth a wneir gan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 neu'n debyg iddi o dan amgylchiadau pan na fo'r rheoliadau hynny yn gymwys.

142. Mae paragraff 2 yn caniatáu i'r cynllun gael ei addasu drwy gytundeb ac i addasiadau o'r fath gael eu hôl-ddyddio i ddyddiad gwreiddiol y cynllun.

143. Mae paragraff 3 yn egluro'r modd y mae cyflogaeth unigolion yn y gwasanaeth sifil i gael ei thrin pan fyddant yn trosglwyddo i Gymwysterau Cymru.

144. Mae paragraff 4 yn darparu ar gyfer ystyron termau wedi eu diffinio sy'n ymddangos yn yr Atodlen hon.

## ATODLEN 3: DARPARIAETH BELLACH YNGHYLCH CYDNABOD CYRFF DYFARNU

### Paragraff 1: Cyfnod para cydnabyddiaeth

145. Mae'r paragraff hwn yn egluro dyddiad dechrau cydnabyddiaeth corff dyfarnu ac yn pennu'r tri amgylchiad pan ddaw cydnabyddiaeth i ben.

**Paragraffau 2 a 3: Amodau cydnabod safonol**

146. Mae'r paragraffau hyn yn gosod dyletswydd ar Gymwysterau Cymru i gyhoeddi 'amodau cydnabod safonol' a fydd yn gymwys i gyrff dyfarnu unwaith y byddant wedi cael eu cydnabod. Fel yn achos y meini prawf cydnabod, mae'r darpariaethau yn caniatáu i amodau gwahanol gael eu cymhwyso mewn perthynas ag:

a) mathau gwahanol o gyrff dyfarnu (er enghraifft, 'cyrff dyfarnu sy'n sefydliadau aelodaeth');
b) mathau gwahanol o gymhwyster (er enghraifft, 'cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau dynodedig);
c) amgylchiadau gwahanol pan gaiff cymhwyster ei ddyfarnu (er enghraifft pan gaiff cymhwyster ei ddyfarnu ar ôl i ymgeisydd ailsefyll modiwl); a
d) disgrifiadau gwahanol o berson y mae cymhwyster yn cael ei ddyfarnu iddo (er enghraifft pan gaiff ei ddyfarnu i ddysgwyr o dan 19 oed).

147. Bydd amodau safonol fel arfer yn gymwys i gyrff dyfarnu cydnabyddedig, ond bydd Cymwysterau Cymru yn gallu penderfynu, mewn achosion penodol, na fydd rhai o'r amodau safonol yn gymwys a chaiff wneud y penderfyniad hwnnw naill ai wrth roi cydnabyddiaeth neu ar ôl hynny. Mae Cymwysterau Cymru hefyd yn gallu dirymu ei benderfyniad. Mae paragraff 2(6) yn darparu nad yw amodau 'capio ffioedd' a 'trosglwyddo' yn amodau safonol (gweler paragraff 4 o Atodlen 3 am ragor o wybodaeth am amodau capio ffioedd a throsglwyddo).

148. Gall Cymwysterau Cymru ddiwygio'r amodau safonol, ond os yw'n gwneud hynny rhaid iddo gyhoeddi'r diwygiadau, hysbysu cyrff cydnabyddedig a bod yn glir am y dyddiad y byddant yn gymwys (mewn perthynas â chorff, ni all y dyddiad hwnnw fod cyn y maent wedi ei hysbysu amdano). Caniateir i ddyddiadau dechrau gwahanol fod yn gymwys ar gyfer cyrff gwahanol.

**Paragraffau 4 a 5: Amodau arbennig y caniateir i gydnabyddiaeth fod yn ddarostyngedig iddynt**

149. Mae'r paragraffau hyn yn nodi'r mathau eraill o amodau (a elwir yn amodau arbennig) y caniateir eu gosod ar gorff dyfarnu cydnabyddedig gan Gymwysterau Cymru, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig iddynt) capio ffioedd (ei gwneud yn ofynnol sicrhau nad yw ffioedd yn mynd y tu hwnt i derfyn penodol); trosglwyddo (ei ddiben yw sicrhau y caniateir i gymhwyster a gymeradwywyd neu a ddynodwyd a ddyfernir gan y corff cydnabyddedig gael ei ddyfarnu gan gorff arall) a'i gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu cydnabyddedig gydymffurfio â chyfarwyddydau a roddir gan Gymwysterau Cymru. Gwneir darpariaeth debyg i Gymwysterau Cymru ddiwygio neu ddirymu'r amodau arbennig hyn, gan ei gwneud yn ofynnol sicrhau eglurder mewn perthynas â hysbysu ac amseru.

150. Rhaid i ddatganiad polisi Cymwysterau Cymru nodi'r amgylchiadau pan fo cydnabyddiaeth o gorff dyfarnu yn debygol o gael ei gwneud yn ddarostyngedig i amod arbennig a pha bryd y mae'r amodau arbennig yn debygol o gael eu hadolygu neu eu diwygio a'r ffactorau sy'n debygol o gael eu hystyried wrth wneud hynny (adran 46(2)).

**Paragraffau 6 i 11: Amodau capio ffioedd**

151. Mae'r paragraffau hyn yn diffinio beth yw amod capio ffioedd. Dim ond mewn perthynas â chymwysterau a gymeradwywyd neu a ddynodwyd a ddyfernir i ddysgwyr, sy'n dilyn cyrsiau addysg neu hyfforddiant a gyllidir yn gyhoeddus ac sy'n arwain at y cymwysterau hynny, y gellir cyfyngu ar ffioedd. Rhaid i Gymwysterau Cymru fod wedi ei fodloni ei bod yn briodol gosod yr amod i sicrhau gwerth am arian. Mae adran 46(2) yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru nodi yn ei ddatganiad polisi y materion y mae'n debygol o'u hystyried wrth benderfynu a yw'n briodol gosod amod capio ffioedd, y terfyn a bennir ynddo a chyfnod para tebygol yr amod. Diffinnir cwrs addysg sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus ym mharagraff 6(2).

152. Mae paragraff 8 yn nodi'r broses y caiff Cymwysterau Cymru osod amod capio ffioedd drwyddi, gan gynnwys y gofyniad i roi hysbysiad i gyrff dyfarnu am ei fwriad i osod yr amod, rhoi resymau dros ei fwriad i osod yr amod a dweud pa bryd y mae'n bwriadu penderfynu pa un ai i osod yr amod. Rhaid i Gymwysterau Cymru ystyried sylwadau a gyflwynir gan y corff cydnabyddedig ac os yw'n penderfynu gosod yr amod, rhaid hysbysu'r corff dyfarnu am hyn a hefyd am ei hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad. Rhaid i'r hysbysiad hefyd ddweud pa bryd y mae'r amod yn cymryd effaith os nad yw'r corff dyfarnu yn gwneud cais am adolygiad.

153. Os yw'r corff dyfarnu yn gwneud cais am adolygiad o'r penderfyniad i osod amod capio ffioedd, mae paragraff 10 yn darparu manylion am y trefniadau y mae rhaid i Gymwysterau Cymru eu gwneud wrth drefnu i adolygydd annibynnol adolygu'r penderfyniad. Yn dilyn yr adolygiad, os yw Cymwysterau Cymru yn cadarnhau ei benderfyniad i osod yr amod, neu'n newid yr amod, yna rhaid i Gymwysterau Cymru roi hysbysiad i'r corff dyfarnu sy'n cynnwys y manylion a nodir ym mharagraff 10(5).

154. Mae paragraff 11 yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru ddilyn yr un weithdrefn ar gyfer dyroddi amrywiad i amod capio ffioedd ag ar gyfer dyroddi amod capio ffioedd cychwynnol.

**Paragraff 12 i 16: Amodau trosglwyddo**

155. Caniateir i amod trosglwyddo alluogi Cymwysterau Cymru i gyfarwyddo corff dyfarnu i drosglwyddo pethau i gorff dyfarnu arall er mwyn i'r corff arall hwnnw ddyfarnu'r cymhwyster. Y seiliau dros roi cyfarwyddyd o'r fath yw bod Cymwysterau Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn osgoi effeithiau andwyol sylweddol ar ddysgwyr. Os yw'r digwyddiadau a ddisgrifir yn yr amod yn dod i fod, caiff Cymwysterau Cymru gyfarwyddo corff dyfarnu i wneud trefniadau i alluogi corff dyfarnu arall i gyflenwi ffurf a gymeradwywyd neu a ddynodwyd ar gymhwyster. Rhaid i Gymwysterau Cymru nodi mewn datganiad polisi yr amgylchiadau pan fo cyfarwyddyd yn debygol o gael ei roi i gorff dyfarnu yn unol ag amod cymhwyster a phwnc tebygol unrhyw gyfarwyddyd o'r fath (adran 46).

156. Mae paragraffau 13 a 14 yn nodi'r broses i Gymwysterau Cymru wneud y cyfarwyddyd, i'r corff dyfarnu gael ei hysbysu am gyfarwyddyd arfaethedig, ac i'r corff allu gwneud cais am adolygiad o unrhyw benderfyniad dilynol i gyfarwyddo.

Mae paragraff 16 yn nodi manylion y broses ar gyfer adolygiad gan berson annibynnol. Os yw Cymwysterau Cymru, yn dilyn yr adolygiad, yn cadarnhau ei benderfyniad, mae paragraff 16 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru hysbysu'r corff ac mae'n nodi pa fanylion y mae rhaid i'r hysbysiad eu cynnwys.

157. Mae paragraff 15 yn galluogi Cymwysterau Cymru i dalu digolllediad i'r corff mewn cysylltiad â cholledion yr aed iddynt wrth gydymffurfio â'r cyfarwyddyd, ond dim ond os yw Cymwysterau Cymru yn meddwl ei bod yn rhesymol ac yn briodol gwneud hynny o dan yr amgylchiadau. Rhaid i Gymwysterau Cymru, mewn datganiad polisi o dan adran 46, nodi'r materion y mae'n debygol o'u hystyried wrth benderfynu pa un ai i wneud taliad o'r fath ac wrth benderfynu ar ei swm.

### Paragraff 17 a 18: Ildio cydnabyddiaeth

158. O dan baragraff 17, caiff corff dyfarnu cydnabyddedig roi hysbysiad ildio i Gymwysterau Cymru gan ofyn iddo dynnu ei gydnabyddiaeth o'r corff dyfarnu – naill ai mewn cysylltiad â phob cymhwyster y'i cydnabyddir mewn cysylltiad ag ef neu mewn perthynas â chymhwyster penodedig (neu ddisgrifiad penodedig o gymhwyster). Rhaid i'r hysbysiad ildio bennu'r dyddiad y mae'r corff dyfarnu yn dymuno i'r gydnabyddiaeth ddod i ben. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi cydnabyddiaeth o ildio i'r corff dyfarnu sy'n nodi'r dyddiad y bydd y gydnabyddiaeth yn dod i ben. Caniateir i'r dyddiad fod yr un a gynigir gan y corff dyfarnu neu ddyddiad gwahanol, fel y gwêl Cymwysterau Cymru yn briodol. Rhaid i Gymwysterau Cymru roi rhesymau yn yr hysbysiad o ran pam y mae dyddiad gwahanol i'r un a gynigiwyd gan y corff dyfarnu yn cael ei ddarparu, ac mae paragraff 17 yn cyfeirio at y materion y mae rhaid i Gymwysterau Cymru eu hystyried wrth benderfynu ar y dyddiad i'r gydnabyddiaeth gael ei hildio, sef yr angen i osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr a dymuniad y corff dyfarnu i'r gydnabyddiaeth ddod i ben ar y dyddiad y mae wedi ei bennu.

159. O dan baragraff 18, caiff Cymwysterau Cymru, am gyfnod penodedig, drin corff sydd wedi ildio ei gydnabyddiaeth fel pe bai'n parhau i gael ei gydnabod at ddibenion penodedig. Dim ond os yw Cymwysterau Cymru yn meddwl ei bod yn briodol gwneud darpariaeth o'r fath er mwyn osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr y caiff wneud hynny.

### Paragraffau 19 i 23: Tynnu cydnabyddiaeth yn ôl

160. Mae'r paragraffau hyn yn galluogi Cymwysterau Cymru i roi terfyn ar ei gydnabyddiaeth o gorff dyfarnu mewn cysylltiad â chymhwyster (neu ddisgrifiad o gymhwyster) neu bob cymhwyster y mae wedi ei gydnabod mewn cysylltiad ag ef. Caniateir i gydnabyddiaeth gael ei thynnu'n ôl os nad yw'r corff dyfarnu yn cydymffurfio ag amodau cydnabod neu amodau cymeradwyo.

161. Mae'r broses ar gyfer tynnu cydnabyddiaeth yn ôl wedi ei nodi ym mharagraffau 20 i 22 ac mae'n cynnwys gofynion i roi hysbysiad gyda rhesymau dros y cynnig i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl, i ystyried sylwadau a gyflwynir gan y corff cydnabyddedig, i hysbysu'r corf cydnabyddedig am benderfyniad i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl a'i hawl i adolygu ac i wneud trefniadau ar gyfer adolygiad annibynnol o'r penderfyniad i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl, os yw'r corff dyfarnu yn gwneud cais am adolygiad o'r fath. Os yw Cymwysterau Cymru, yn dilyn yr

adolygiad, yn cadarnhau ei benderfyniad i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl, rhaid i'r corff dyfarnu gael ei hysbysu am y penderfyniad ac am ba bryd y bydd y tynnu'n ôl yn cymryd effaith.

162. Mae paragraff 23 yn nodi bod hysbysiadau a roddir gan Gymwysterau Cymru o dan baragraffau 21 neu 22 (tynnu cydnabyddiaeth yn ôl, neu gadarnhau penderfyniad i dynnu cydnabyddiaeth yn ôl) yn gallu gwneud darpariaeth i'r perwyl bod corff y mae ei gydnabyddiaeth wedi ei thynnu'n ôl yn cael ei drin fel pe bai'n cael ei gydnabod am gyfnod penodedig ac at ddibenion penodedig. Gwneir hyn er mwyn osgoi effaith andwyol ar ddysgwyr. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys yr wybodaeth ychwanegol a nodir ym mharagraff 23(3).

## ATODLEN 4: DIWYGIADAU CANLYNIADOL

163. Mae'r Atodlen hon yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol i adlewyrchu bod y Bil hwn yn sefydlu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr system newydd o reoleiddio cymwysterau yng Nghymru. Un newid o'r fath yw diddymu swyddogaethau rheoleiddiol Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chymwysterau o dan Ddeddf Addysg 1997; un arall yw cyfyngu ar y cymhwysiad o'r cyfyngiad ar gyllido cyrsiau penodol gydag arian cyhoeddus yn y Ddeddf Dysgu a Sgiliau i Loegr yn unig, gan fod adran 33 yn darparu'r cyfyngiad newydd o ran Cymru.

# Atodiad B – Prisio'r Opsiynau

## Y Prif Ragdybiaethau

1 Wrth ddadansoddi'r costau, defnyddiwyd y rhagdybiaethau allweddol canlynol:

### Creu'r sefydliad

2 At ddibenion y gwaith costio hwn, ar gyfer pob opsiwn cymerir y bydd y sefydliad yn cychwyn gweithredu ym Medi 2015, yn unol â'r bwriad.

3 O ran Opsiwn 1b, cyfrifwyd costau'r staff ychwanegol o fis Medi 2015.

4 O ran Opsiwn 2, cyfrifwyd y costau ar gyfer cychwyn swyddogaethau Swyddfa'r Comisiynydd o fis Medi 2015.

5 O ran Opsiwn 3, cyfrifwyd y costau ar sail y rhagdybiaeth y bydd y sefydliad yn cael ei sefydlu yn fuan ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, yn ystod yr haf 2015, ac y bydd ei swyddogaethau cymwysterau yn dechrau o fis Medi 2015. Cyfrifwyd y costau hefyd ar sail y rhagdybiaethau ychwanegol canlynol:

- y bydd y gwaith o recriwtio'r Bwrdd Cysgodol yn mynd rhagddo o fis Ebrill 2015
- y bydd pedwar uwch-aelod o staff yn cael eu recriwtio o fis Ebrill 2015
- y bydd y gwaith o osod seilwaith a ffitiadau'r swyddfa yn digwydd yn ystod yr haf 2015
- y bydd y staff yn trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r sefydliad newydd ym mis Medi 2015.

### Statws y sefydliad

6 Rhagdybiwyd na fyddai gan y sefydliad statws elusennol ac na fyddai'n gorfod talu treth gorfforaeth yn y DU. Rhagdybiwyd hefyd y byddai Cymwysterau Cymru yn cofrestru at ddibenion TAW, yn seiliedig ar sefydliadau cyfatebol.

7 Gallai unrhyw newidiadau i'r statws treth gael effaith sylweddol ar unrhyw gostau sy'n daladwy.

## Costau staffio

8 Roedd y data am gyflogau ac argostau yn seiliedig ar gyfuniad o gyfraddau Llywodraeth Cymru a chyfraddau cyflog y farchnad. Defnyddiwyd y canlynol i amcangyfrif y costau:

- Graddfeydd cyflog sy'n gysylltiedig â gradd.
- Costau cyflogau presennol y staff a gyflogir ar hyn o bryd yn yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau (37 ohonynt ym mis Awst 2013).
- Ffigur sy'n amcangyfrif o gyflog ac argostau ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil ar gyfer rôl Comisiynydd fel y'i nodir yn Opsiwn 2.
- Amcangyfrifon o nifer y staff corfforaethol a rheoleiddio ychwanegol y byddai eu hangen ar gyfer Opsiynau 2 a 3.

9 O ran Opsiynau 1b a 2, defnyddiwyd y costau cyflog a gafwyd yn y gwaith a wnaed gan ymgynghorwyr PWC, wrth iddynt ddatblygu modelau opsiynau i Weinidogion eu defnyddio i ystyried y polisi ar gyfer creu Cymwysterau Cymru yn 2013. Gan nad archwiliwyd y modelau hyn yn fanwl, roedd eu lefelau staffio a'u disgrifiadau swydd yn ddamcaniaethol, a chawsant eu seilio ar gyfraddau cyfartalog y farchnad. Gan na wnaed rhagor o waith manwl ar y modelau hyn, y gred oedd na fyddai'n ddefnyddiol ceisio eu cydweddu â bandiau cyflog Llywodraeth Cymru, ac felly, mai'r peth gorau fyddai defnyddio cyfrifiadau ar sail costau cyflog cyfartalog er mwyn cymharu'r modelau hynny â'r model a ffefrir. Mae'r ffigurau staffio ar gyfer Opsiwn 3 yn fwy manwl, ac maent yn defnyddio pegwn uchaf graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru. Y teimlad yw, nes bod dyluniad y sefydliad ar ei ffurf derfynol, bod hyn yn adlewyrchiad mwy cywir o gostau posibl llawn strwythur y sefydliad.

10 Mae costau recriwtio yn seiliedig ar gostau recriwtio cyfartalog y pen fel sy'n briodol ar gyfer y diwydiant, gan nad yw'r dull recriwtio wedi ei bennu hyd yn hyn.

11 Nid yw'r model yn cynnwys unrhyw elfennau sy'n ymwneud â chwyddiant, nac ychwaith unrhyw symud mewn graddfeydd cyflog a allai ddigwydd dros gyfnod cyflogi unigolyn.

12 Gallai'r ffaith bod elfennau chwyddiant wedi eu hepgor olygu y bydd costau cyflogau yn cynyddu ychydig o flwyddyn 1 ymlaen.

## Hyfforddiant

13 Mae hyn yn seiliedig ar gyfrifiadau fesul pen sydd wedi eu tynnu o sefydliadau cyfatebol.

14 Rhagdybiwyd y bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant yn flynyddol, ac y rhoddir hyfforddiant cynefino cychwynnol mewn perthynas â phob penodiad newydd.

**Bwrdd Llywodraethu**

15 Rhagdybir y bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, a gaiff dâl o £35,000 y flwyddyn, a 10 aelod arall sy'n cael tâl o £7,500 y flwyddyn. Rhagdybir bod y ffigurau hyn yn cynnwys ffioedd a chostau teithio a chynhaliaeth.

**Costau teithio a chynhaliaeth**

16 Cafodd y rhain eu hamcangyfrif ar sail gwariant y pen presennol o fewn Llywodraeth Cymru (wedi ei wirio yn erbyn gwybodaeth gyllidebol am sefydliadau cyfatebol).

17 Rhagdybiwyd y byddai'r costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer Opsiynau 2 a 3 yn union yr un fath, gan mai staff rheoleiddio yn bennaf fyddai'n eu hawlio. Mae hyn hefyd yn helpu i ddangos y gwahaniaeth rhwng costau'r ddau opsiwn yn fwy clir.

**Costau TGCh**

18 O ran Opsiwn 2, rhagdybiwyd y bydd costau rhedeg TGCh Llywodraeth Cymru yn cael eu codi ar y sefydliad yn unol â'r cyfraddau cyfredol.

19 O ran Opsiwn 3, mae'r amcangyfrif ar gyfer costau cyfalaf caledwedd a systemau a delir ymlaen llaw wedi ei dynnu o astudiaeth gwmpasu fanwl a dyfynbrisiau cyllidebol. Cafodd ei wirio yn erbyn costau sy'n ymddangos yng nghyfrifon Ofqual.

20 Mae gwaith wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r systemau a'r galedwedd TGCh y mae eu hangen ar gyfer Opsiwn 3, ac mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r costau hyn ar ôl i ddarparwyr telathrebu wneud arolwg manwl o'r safle newydd.

**Gwariant y rhaglen**

21 Amcangyfrifir mai gwariant y rhaglen fydd £2,380,000 y flwyddyn am bum mlynedd, a hynny ar gyfer pob opsiwn. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys meysydd megis ymchwil, cyfathrebu a gwasanaethau arbenigol a fyddai'n gorfod cael eu talu waeth pa opsiwn a ddewisir.

**Effaith chwyddiant**

22 Nid yw unrhyw elfennau chwyddiant wedi eu cynnwys wrth brisio costau gweithredu cyffredinol.

### Yr hinsawdd gymwysterau

23 Rhagdybiwyd na fyddai unrhyw argyfwng na newidiadau sylweddol yn digwydd o fewn system gymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod prisio, ac y byddai'r cyllid a ddyrennir i Gymwysterau Cymru yn parhau ar yr un lefel.

### Y gost o weithredu'r model

24 Nid yw cost y prosiect i roi Opsiwn 2 ar waith yn cynnwys cost ffrydiau gwaith Adnoddau Dynol a Lleoliad. Er bod angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Opsiwn 3, nad oedd ei hangen ar gyfer Opsiwn 2, y teimlad oedd y byddai'r ddeddfwriaeth y byddai ei hangen i ddiddymu swyddogaethau Gweinidogion yn debyg, ac y byddai'r amcangyfrif ar gyfer gweddill y costau yr un fath ar gyfer y ddau opsiwn. Nid yw'r gost o lunio deddfwriaeth wedi ei chynnwys yn y gost hon.

### Cymharu â sefydliadau cyhoeddus eraill

25 Rhagdybiwyd y byddai'r modelau, a oedd yn cael eu prisio, yn cymharu'n briodol â sefydliadau cyhoeddus eraill. Defnyddiwyd gwybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd mewn perthynas â sefydliadau cyfatebol eraill, a cheisiwyd arbenigedd a gwybodaeth bellach gan y sefydliadau hynny a sefydliadau eraill er mwyn cael gwybodaeth am gostau.

26 Mae'r sefydliadau hyn yn cael eu rhestru ym mharagraffau 91-93 isod.

### Cyflwyno'r ffigurau

27 Mae'r holl gyfrifiadau wedi eu talgrynnu i'r £1000 agosaf, ac eithrio costau staffio, sydd o reidrwydd yn cael eu cyfrifo'n fanwl. Mae'r cyfansymiau hynny wedi eu talgrynnu i'r £1000 agosaf.

## Opsiwn 1

**Opsiwn 1a - Gwneud dim: Gweinidogion Cymru i gadw eu swyddogaeth reoleiddio.**

**Opsiwn 1b - Gwneud dim, ond parhau i ymateb i'r gwahanu graddol sy'n digwydd rhwng arferion y tair gwlad, gyda swyddogion yn Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau Llywodraeth Cymru yn llywio'r gwaith o ddiwygio cymwysterau yng Nghymru (yn dilyn yr *Adolygiad o Gymwysterau)*.**

## Rhagdybiaethau manwl – Opsiwn 1a

### Staffio

28 Mae'r costau hyn wedi eu cyfrifo ar sail y rhagdybiaeth y byddai'r lefel staffio yn yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau yn parhau ar 37 aelod o staff.

## Rhagdybiaethau manwl – Opsiwn 1b

### Staffio

29 Mae'r costau hyn wedi eu cyfrifo ar sail y rhagdybiaeth y bydd 23 aelod o staff ychwanegol yn cael eu recriwtio ar ben y 37 aelod o staff sydd yn yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau, er mwyn parhau i ddatblygu'r agenda ar gyfer diwygio cymwysterau, gan:

- <u>Symud oddi wrth drefn gydweithredol y tair gwlad</u>
  Amcangyfrifwyd beth fyddai'r gost o gyflogi 15 aelod o staff cymwysterau/rheoleiddio ychwanegol er mwyn cryfhau'r swyddogaeth reoleiddio a chyflawni dyletswyddau ychwanegol sy'n debyg i'r tasgau hynny y mae Ofqual yn eu cyflawni ar hyn o bryd ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, amrywiaeth o dasgau sy'n ymwneud â datblygu trefniadau achredu, monitro, adolygu a rheoleiddio. Mae'r amcangyfrif hwn yn debyg i'r amcangyfrif ar gyfer aelodau o staff rheoleiddio ychwanegol a gynigir yn Opsiwn 2.

- <u>Gwaith ymchwil</u>
  Byddai mwy o waith ymchwil yn cael ei wneud a'i reoli gan 3 aelod o staff (sef y nifer a amcangyfrifir) er mwyn helpu i ddiwygio cymwysterau a chynnal y gweithgareddau rheolaidd sy'n mynd rhagddynt yng Nghymru.

- <u>Comisiynu cymwysterau</u>
  Amcangyfrifwyd y gost o gyflogi 5 aelod o staff ychwanegol i oruchwylio'r gwaith o gaffael contractau yn ôl y gofyn a gomisiynir mewn perthynas â'r gyfres unigol o gymwysterau i'w comisiynu i Gymru.

30 Er mwyn cynnal cysondeb ag opsiynau eraill, amcangyfrifir y gost o gyflogi staff ychwanegol o fis Medi 2015, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i weithgarwch a gynigir yn Opsiynau 2 a 3.

31 O ran Opsiwn 1b, amcangyfrifir y gost ar gyfer cyfanswm nifer y staff o fis Medi 2015, sef 60 aelod o staff.

## Cyfrifiadau

### Costau refeniw: staff – swyddogaethau sy'n ymwneud â chymwysterau

32 Amcangyfrifir ar gyfer strwythurau staff ychwanegol drwy ddefnyddio cysyniadau strwythur trefniadaeth rhagbaratoawl sy'n cael eu datblygu ar gyfer Cymwysterau Cymru fel y'i rhagwelir yn yr opsiwn a ffefrir, sef Opsiwn 3. Mae'r strwythurau hyn yn ymwneud â'r timau rheoleiddio, ymchwil, a chomisiynu a chaffael ychwanegol y bydd eu hangen.

**Tabl 5**

| Gradd | Cyflogau £ | x | Costau Cyflogau £ | Argostau % | Argostau £ | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Y staff rheoleiddio presennol (37)* | | | | | | 650,811 | 911,136 | 1,561,947 | Ffigurau Llywodraeth Cymru |
| *Amcangyfrif o staff rheoleiddio ychwanegol* | | | | | | | | | |
| G6 | 62,850 | 1 | 62,850 | 0.32 | 20,112 | | | | Gwybodaeth cyflogau Llywodraeth Cymru |
| G7 | 51,025 | 4 | 204,100 | 0.32 | 65,312 | | | | |
| SEO | 39,425 | 3 | 118,275 | 0.27 | 31,934 | | | | |
| HEO | 30,725 | 3 | 92,175 | 0.27 | 24,887 | | | | |
| EO | 24,075 | 2 | 48,150 | 0.27 | 13,001 | | | | |
| TS | 19,075 | 2 | 38,150 | 0.24 | 9,156 | | | | |
| | | 15 | 563,700 | | 164,402 | | | | |
| Cost staff rheoleiddio ychwanegol, gan gynnwys argostau | | | | | 728,102 | | | 728,102 | |
| Pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | | 424,726 | | |
| *Amcangyfrif o staff swyddogaethau ymchwil ychwanegol* | | | | | | | | | |
| G7 | 51,025 | 1 | 51,025 | 0.32 | 16,328 | | | | **Amcangyfrifwyd** ar sail cysyniad dylunio sefydliadol dros dro |
| SEO | 39,425 | 2 | 78,850 | 0.27 | 21,290 | | | | |
| | | 3 | 129,875 | | 37,618 | | | | |
| Cost staff rheoleiddio ychwanegol, gan gynnwys argostau | | | | | 167,493 | | | 167,493 | |
| Pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | | 97,704 | | |
| *Amcangyfrif o staff comisiynu / caffael ychwanegol* | | | | | | | | | |
| G7 | 51,025 | 1 | 51,025 | 0.32 | 16,328 | | | | **Amcangyfrifwyd** ar sail cysyniad dylunio sefydliadol dros dro |
| SEO | 39,425 | 2 | 78,850 | 0.27 | 21,290 | | | | |
| HEO | 30,725 | 2 | 61,450 | 0.27 | 16,592 | | | | |
| | | 5 | 191,325 | | 54,209 | | | | |
| Cost staff rheoleiddio ychwanegol, gan gynnwys argostau | | | | | 245,534 | | | 245,534 | |
| Pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | | 143,228 | | |
| | | | | | | **£ 651,000** | **£ 1,577,000** | **£ 2,703,000** | Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf |

### Costau refeniw : staff – ac eithrio cyflogau

33 Mae'r costau hyn yn adlewyrchu'r costau presennol nad ydynt yn cynnwys cyflogau ar gyfer Opsiwn 1a.

**Tabl 6**

| Costau Refeniw: Staff – ac eithrio cyflogau | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|
| Costau hyfforddiant arferol | 45,000 | Llywodraeth Cymru. Cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn |
| Teithio a chynhaliaeth | 19,000 | Llywodraeth Cymru. Cyfartaledd o £505 y pen y flwyddyn |
| | **£64,000** | |

**Costau refeniw: staff ychwanegol – ac eithrio cyflogau**

34 Mae'r costau'n cynnwys:

- Teithio a chynhaliaeth ar gyfer staff rheoleiddio ychwanegol ar gyfer y saith mis rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2016, ac wedyn.
- Costau hyfforddi ar gyfer y staff presennol, a hefyd staff rheoleiddio, ymchwil, a chomisiynu/caffael ychwanegol, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2016.
- Y costau sefydlu cychwynnol sy'n gysylltiedig â hyfforddi staff i ddefnyddio systemau TGCh newydd.
- Costau recriwtio.

**Tabl 7**

| Costau Refeniw: Staff ychwanegol ac eithrio cyflogau | 2015-16 Sefydlu | 2015-16 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Staff Newydd** | | | | |
| Recriwtio 23 o staff newydd | 46,000 | | | Yn ôl cyfartaledd CIPD o £2k y pen |
| Hyfforddiant ymlaen llaw ar ddefnyddio systemau newydd | | 28,000 | | Yn ôl cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn |
| Taliadau TGCh | | 23,000 | 40,000 | Taliadau Llywodraeth Cymru, sef £145 y pen bob mis calendr |
| Costau hyfforddiant arferol | | 16,000 | 28,000 | Cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn |
| Teithio a chynhaliaeth | | 4,000 | 8,000 | Cyfartaledd o £505 y pen y flwyddyn, 15 aelod o staff rheoleiddio 09.2015 |
| | 46,000 | 71,000 | 76,000 | |

**Costau refeniw: TGCh**

35 Mae'r costau hyn yn adlewyrchu costau cychwynnol a chostau parhaus y trefniadau a fydd yn disodli'r Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (DAQW).

**Tabl 8**

| Costau Refeniw : TGCh | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (creu cronfa ddata newydd) | 115,000 | | | |
| Adnoddau TGCh Llywodraeth Cymru | 144,000 | | | |
| Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (costau parhaus) | | | 29,000 | |
| Contractwr TGCh | | 30,000 | 50,000 | Cyfateb i F and F |
| | £ 259,000 | £30,000 | £79,000 | |

# Opsiwn 2

**Gwneud cyn lleied â phosibl: creu rôl a swyddfa ar gyfer Comisiynydd annibynnol i graffu ar weithgarwch uned o fewn Llywodraeth Cymru.**

## Rhagdybiaethau manwl

### Deddfwriaeth

36 Rhagdybiwyd y byddai’r ddeddfwriaeth y byddai ei hangen i ddiddymu swyddogaethau’r Gweinidogion, a rhoi rôl Comisiynydd yn eu lle yn digwydd yn ôl yr un amserlen â’r un ar gyfer y Bil hwn.

### Adleoli

37 Rhagdybiwyd na fyddai unrhyw gostau adleoli ar gyfer staff o dan yr opsiwn hwn.

### Costau TGCh

38 Ar gyfer yr opsiwn hwn, rhagdybiwyd y bydd costau rhedeg TGCh Llywodraeth Cymru yn cael eu codi ar y sefydliad yn unol â’r cyfraddau cyfredol.

### Staffio

39 O dan yr opsiwn, byddai 37 o aelodau staff yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau; a hefyd (fel o dan Opsiwn 1b), 15 o staff rheoleiddio ychwanegol (sef y nifer y rhagwelir y bydd ei angen i gyflawni swyddogaethau ychwanegol, wrth i’r sefydliad dorri ei gwys ei hun ac ymbellhau o drefn gydweithredol y tair gwlad); 3 aelod o staff i gyflawni swyddogaethau sy’n ymwneud ag ymchwil; a 5 aelod o staff i reoli elfennau comisiynu a chaffael cylch gwaith yr uned, sy’n dod â chyfanswm nifer y staff sy’n ymdrin â chymwysterau i 60.

40 Yn ogystal â’r rhain, bydd angen 20 aelod o staff corfforaethol ychwanegol i gefnogi’r Comisiynydd, a’r Bwrdd Cynghori. Bydd angen 32 aelod o staff, gan gynnwys 11 o aelodau’r Bwrdd, ar gyfer y strwythur staffio corfforaethol yn ei gyfanrwydd.

41 Nifer cyfanswm y staff ar gyfer yr opsiwn hwn, gan gynnwys y Comisiynydd, yw 92.

## Cyfrifiadau

### Costau refeniw: cost y prosiect i roi’r sefydliad newydd ar waith

42 Wrth brisio cost y prosiect i roi'r sefydliad newydd ar waith, gwelwyd ei bod yn debyg i'r costau cyfredol, heb gynnwys y costau sy'n ymwneud â ffrydiau gwaith Adnoddau Dynol a Lleoliad.

**Tabl 9**

| Cost y prosiect i roi'r sefydliad ar waith | 2015-2016 | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth (i'r £1000 agosaf) |
|---|---|---|---|
| Cymwysterau Cymru – Tîm y Prosiect Trosglwyddo | 560,000 | | Cyflogau, gan gynnwys argostau |
| Cyngor cyfreithiol a phroffesiynol | 200,000 | | Amcangyfrif |
| Contractwyr TGCh | 250,000 | | Amcangyfrif |
| Costau eraill gweithredu'r prosiect | 80,000 | | Teithio a chynhaliaeth / Arlwyo / Llogi car / Llety |
| | £ 1,090,000 | £ - | |

**Costau refeniw: staff – swyddogaethau sy'n ymwneud â chymwysterau**

43 Rhagdybir y bydd yr adran fewnol yn Llywodraeth Cymru yn y model hwn yn cynnwys cyfanswm nifer presennol y staff yn yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau (sef 37), yn ogystal â 15 aelod o staff rheoleiddio ychwanegol, 3 aelod o staff ymchwil ychwanegol, a 5 aelod o staff i reoli'r gweithgarwch comisiynu. Mae'r dull o gyfrifo'r costau staffio blynyddol yn defnyddio graddfeydd cyflog presennol Llywodraeth Cymru fel y'u nodir isod:

**Tabl 10**

| Gradd | Cyflogau £ | x | Costau cyflogau £ | Argostau % | Argostau £ | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Y staff rheoleiddio presennol*** *(37)* | | | | | | 650,811 | 911,136 | 1,561,947 | Ffigurau Llywodraeth Cymru |
| ***Amcangyfrif o staff rheoleiddio ychwanegol*** | | | | | | | | | |
| G6 | 62,850 | 1 | 62,850 | 0.32 | 20,112 | | | | Gwybodaeth am gy1ogau Llywodraeth Cymru |
| G7 | 51,025 | 4 | 204,100 | 0.32 | 65,312 | | | | |
| SEO | 39,425 | 3 | 118,275 | 0.27 | 31,934 | | | | |
| HEO | 30,725 | 3 | 92,175 | 0.27 | 24,887 | | | | |
| EO | 24,075 | 2 | 48,150 | 0.27 | 13,001 | | | | |
| TS | 19,075 | 2 | 38,150 | 0.24 | 9,156 | | | | |
| | | 15 | 563,700 | | 164,402 | | | | |
| Cost staff rheoleiddio ychwanegol, gan gynnwys argostau | | | | | 728,102 | | | 728,102 | |
| Pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | | 424,726 | | |
| ***Amcangyfrif o staff swyddogaethau ychwil ychwanegol*** | | | | | | | | | |
| G7 | 51,025 | 1 | 51,025 | 0.32 | 16,328 | | | | **Amcangyfrifwyd** ar sail cysyniad dylunio sefydliadol dros dro |
| SEO | 39,425 | 2 | 78,850 | 0.27 | 21,290 | | | | |
| | | 3 | 129,875 | | 37,618 | | | | |
| Cost staff rheoleiddio ychwanegol, gan gynnwys argostau | | | | | 167,493 | | | 167,493 | |
| Pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | | 97,704 | | |
| ***Amcangyfrif o staff comisiynu/caffael ychwanegol*** | | | | | | | | | |
| G7 | 51,025 | 1 | 51,025 | 0.32 | 16,328 | | | | **Amcangyfrifwyd** ar sail cysyniad dylunio sefydliadol dros dro |
| SEO | 39,425 | 2 | 78,850 | 0.27 | 21,290 | | | | |
| HEO | 30,725 | 2 | 61,450 | 0.27 | 16,592 | | | | |
| | | 5 | 191,325 | | 54,209 | | | | |
| Cost staff rheoleiddio ychwanegol, gan gynnwys argostau | | | | | 245,534 | | | 245,534 | |
| Pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | | 143,228 | | |
| | | | | | | **£ 651,000** | **£ 1,577,000** | **£2,703,000** | Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £1000 agosaf |

44 Mae cost y staff ychwanegol yn 2015-2016 ar gyfer y 7 mis rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2016.

45 Mae’r gost hon ar gyfer staff sy’n cyflawni swyddogaethau sy’n ymwneud â chymwysterau yn debyg i’r hyn a geir yn Opsiwn 1b ar gyfer staff sy’n cyflawni swyddogaethau o’r fath.

**Costau refeniw: staff - corfforaethol**

46 Mae’r costau staffio corfforaethol yn cynnwys costau cyflogau ychwanegol rôl y Comisiynydd, ei staff gweinyddol a’r Bwrdd Llywodraethu. Cyfrifir cost flynyddol swyddogion corfforaethol o dan Opsiwn 2 isod:

**Tabl 11**

| Gradd | Cyflog cyfartalog £ | x | Cyflogau / ffioedd £ | Argostau % | Argostau £ | 2015-16 | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Bwrdd Llywodraethu*** | | | | | | | | |
| Cadeirydd | 35,000 | 1 | 35,000 | | - | | | Ffioedd, dim argostau, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth |
| Aelodau | 7,500 | 10 | 75,000 | | - | | | Ffioedd, dim argostau, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth |
| | | 11 | 110,000 | | | | | |
| Costau'r Bwrdd Llywodraethu ar sail pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | 64,167 | 110,000 | |
| ***Y Tîm Corfforaethol*** | | | | | | | | |
| Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol | 55,500 | 1 | 55,500 | 0.32 | 17,760 | | | |
| Cynorthwy-ydd Gweithredol | 42,850 | 1 | 42,850 | 0.27 | 11,570 | | | |
| Cynorthwy-ydd Personol | 33,900 | 1 | 33,900 | 0.27 | 9,153 | | | |
| Cymorth Tîm / staff y dderbynfa | 25,750 | 1 | 25,750 | 0.24 | 6,180 | | | |
| Cymorth TG | 42,850 | 1 | 42,850 | 0.27 | 11,570 | | | |
| Cymorth cyllid | 42,850 | 1 | 42,850 | 0.27 | 11,570 | | | |
| Cymorth Adnoddau Dynol | 42,850 | 1 | 42,850 | 0.27 | 11,570 | | | |
| Dirprwy Gomisiynydd | 62,850 | 1 | 62,850 | 0.32 | 20,112 | | | |
| Swyddogion ymchwil | 33,900 | 3 | 101,700 | 0.27 | 27,459 | | | |
| Swyddogion polisi | 42,850 | 4 | 171,400 | 0.27 | 46,278 | | | |
| Cynorthwywyr ymchwil | 25,750 | 2 | 51,500 | 0.24 | 12,360 | | | |
| Swyddog materion cyhoeddus | 42,850 | 1 | 42,850 | 0.27 | 11,570 | | | |
| Pennaeth cyfathrebu | 55,500 | 1 | 55,500 | 0.32 | 17,760 | | | |
| Cynorthwy-ydd cyfathrebu | 33,900 | 1 | 33,900 | 0.27 | 9,153 | | | |
| | | 20 | 806,250 | | 224,063 | | | |
| Cyfanswm cost y staff corfforaethol ychwanegol, gan gynnwys argostau | | | | | 1,030,313 | | 1,030,313 | |
| Costau'r Tîm Corfforaethol ar sail pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | 601,016 | | |
| ***Comisiynydd*** | | | | | - | 165,000 | 165,000 | Amcangyfrif yn cynnwys argostau |
| | | | | | | **£ 830,000** | **£ 1,305,000** | Mae'r figurau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf |

47 Ar gyfer y flwyddyn lawn y mae’r gost ar gyfer y Comisiynydd yn 2015-2016. Mae costau ffioedd aelodau’r Bwrdd ar gyfer y 7 mis rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2016.

48 Cyfrifwyd y costau yn seiliedig ar ddata cyfrifyddu sydd ar gael gan swyddfeydd o faint tebyg. Ni ymchwiliwyd yn fanwl i’r opsiwn hwn, a chafodd ei roi i’r neilltu yn gynnar yn y broses gan nad oedd yn bodloni meini prawf y polisi. Felly, mae posibilrwydd y gallai maint a strwythur swyddfa’r Comisiynydd fod yn wahanol iawn, gan ddibynnu ar gwmpas penodol gwaith y Comisiynydd, ac felly nifer y staff y byddai eu hangen. Amcangyfrif ceidwadol yw’r opsiwn a gyflwynir yma o gostau swyddfa Comisiynydd lle byddai 20 o staff cymorth ac a fyddai’n costio £2,172,000 yn ei blwyddyn gyntaf. Serch hynny, mae gan swyddfeydd Comisiynwyr eraill strwythur staffio o ryw 50, a fyddai’n gallu dyblu costau’r Swyddfa Comisiynydd Cymwysterau i £5,010,000 yn ei blwyddyn gyntaf. Mae’r cyfrifiadau ar gyfer y ffigurau i’w gweld yn y tabl isod.

**Tabl 12**

| | |
|---|---|
| **Y 12 mis cyntaf, gan amcangyfrif 20 o staff** | |
| Cost y Bwrdd | £110,000 |
| Cost y Comisiynydd | £165,000 |
| Cost 20 o staff | £1,030,000 |
| Costau ac eithrio cyflogau | £138,000 |
| Safle | £235,000 |
| Cyfalaf safle | £90,000 |
| TGCh (Sefydlu caledwedd a refeniw) | £404,000 |
| | **£2,172,000** |
| **Y 12 mis cyntaf, gan amcangyfrif 50 o staff** | |
| Cost y Bwrdd | £110,000 |
| Cost y Comisiynydd | £165,000 |
| Cost 50 o staff | £2,576,000 |
| Costau ac eithrio cyflogau | £344,000 |
| Safle | £470,000 |
| Cyfalaf safle | £335,000 |
| TGCh (Sefydlu caledwedd a refeniw) | £1,010,000 |
| | **£5,010,000** |

**Costau refeniw: staff – ac eithrio cyflogau**

49 Dangosir y rhain yn Nhabl 13 ac maent yn cynnwys:

- Teithio a chynhaliaeth ar gyfer y staff presennol, ac ar gyfer staff rheoleiddio a chorfforaethol ychwanegol ar gyfer y saith mis rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2016.
- Costau hyfforddi ar gyfer y staff presennol, ac ar gyfer staff rheoleiddio a chorfforaethol ychwanegol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2016.
- Y costau cychwynnol sy’n gysylltiedig â hyfforddi staff i ddefnyddio systemau TGCh newydd.
- Costau recriwtio.
- Llywodraeth Cymru yn codi tâl ar y sefydliad newydd am ei TGCh.

50 Dim ond costau staff rheoleiddio a’r Comisiynydd sydd wedi eu prisio at ddibenion teithio a chynhaliaeth.

51 Ni chyfrifwyd costau hyfforddi a thaliadau TGCh mewn perthynas â’r 11 o aelodau’r Bwrdd.

**Costau cyfalaf: TGCh**

52 Mae’r gost hon yn ymwneud â chaledwedd TGCh ac adnoddau swyddfa eraill y mae eu hangen i sicrhau bod swyddfa arferol yn gallu bwrw ymlaen â’i gwaith. Amcangyfrifwyd y costau drwy ddefnyddio’r un ffigurau ag a ddefnyddiwyd ar gyfer Opsiwn 3, ond wedi eu diwygio a’u cyfrifo pro rata i weddu i Opsiwn 2.

**Tabl 13**

| Costau Refeniw Ychwanegol: Staff – ac eithrio cyflogau | 2015-16 Sefydlu | 2015-16 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth (I'r £1000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|
| **Costau ar gyfer Staff Cymwysterau Newydd** | | | | |
| Recriwtio staff newydd | 46,000 | | | Yn ôl cyfartaledd CIPD o £2k y pen (23 aelod o staff) |
| Hyfforddiant ymlaen llaw ar y systemau newydd | | 28,000 | | Yn ôl cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn (23 aelod o staff) |
| Taliadau TGCh | | 23,000 | | Taliadau Llywodraeth Cymru, sef £145 y pen bob mis calendr (23) |
| Costau hyfforddiant arferol | | 16,000 | | Cyfartaledd o £1,214 y pen y 1wyddyn (23 aelod o staff) |
| Teithio a chynhaliaeth | | 4,000 | | Cyfartaledd o £505 y pen y flwyddyn (15 aelod o staff rheoleiddio o 09.2015) |
| | 46,000 | 71,000 | - | |
| **Costau Staff Corfforaethol Newydd** | | | | |
| Recriwtio staff newydd | 64,000 | | | Yn ôl cyfartaledd CIPD o £2k y pen (32 aelod o staff gan gynnwys y Bwrdd, Comisiynydd) |
| Hyfforddiant ymlaen llaw ar y systemau newydd | | 25,000 | | Yn ôl cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn ( 21 aelod o staff) |
| Costau hyfforddiant arferol | | 15,000 | | Yn ôl cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn ( 21 aelod o staff) |
| Teithio a chynhaliaeth | | 3,000 | | Cyfartaledd o £505 y pen y flwyddyn Comisiynydd + 10 aelod o staff rheoleiddio o 09.2015 |
| | 64,000 | 43,000 | - | |
| **Costau Staff Arferol** | | | | |
| Costau hyfforddiant arferol | 19,000 | 26,000 | 79,000 | Cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn (37, wedyn 65 aelod o staff) |
| Teithio a chynhaliaeth | 8,000 | 11,000 | 26,000 | Cyfartaledd o £505 y pen y flwyddyn (cyfanswm o 52 aelod o staff rheoleiddio) |
| Taliadau TGCh | 27,000 | 38,000 | 113,000 | Taliadau Llywodraeth Cymru, sef £145 y pen bob mis calendr |
| | 54,000 | 75,000 | 218,000 | |
| | **£ 164,000** | **£ 189,000** | **£ 218,000** | |

### Costau cyfalaf: gosodiadau a ffitiadau

53 Mae'r gost hon yn ymwneud â gosodiadau a ffitiadau swyddfa yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i ddodrefnu swyddfa arferol. Amcangyfrifwyd y costau drwy ddefnyddio'r un ffigurau ag a ddefnyddiwyd ar gyfer Opsiwn 3, ond wedi eu diwygio a'u cyfrifo pro rata i weddu i Opsiwn 2.

### Costau refeniw: TGCh

54 Byddai costau i'r broses o gychwyn y sefydliad newydd o fewn Llywodraeth Cymru, sef ar gyfer ei gronfa ddata, ei wefan, a'i drefniadau rheoli cofnodion a chyfathrebu'n fewnol. Rhagdybiwyd y byddai contractwr yn cael ei gadw i gynnal y gronfa ddata a fyddai'n cael ei defnyddio o dan Opsiwn 2. Mae ffioedd ar gyfer hynny wedi eu cynnwys yn y costau refeniw ar gyfer TGCh.

55 Byddai'r costau sy'n gysylltiedig â chaledwedd yn ymwneud â phrynu adnoddau bach newydd, megis ffonau symudol, offer argraffu ac offer fideogynadledda, sy'n codi'n barhaus.

**Tabl 14**

| Costau refeniw: TGCh | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU SEFYDLU** | | | | |
| Ymgynghori ar wefannau | 78,000 | | | Pob cost yn cynnwys TAW |
| Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru | 115,000 | | | |
| Adnoddau TGCh Llywodraeth Cymru | 144,000 | | | |
| Gartner | 19,000 | | | |
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Ymgynghori ar wefannau | | | 32,000 | |
| Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru | | | 29,000 | |
| Contractwr | | 29,000 | 50,000 | Cyfateb i Fand F |
| Caledwedd | | | 27,000 | |
| | **£ 356,000** | **£29,000** | **£138,000** | |

**Costau refeniw: safle**

56 Mae'r costau hyn yn cynnwys cynnal a chadw, offer swyddfa a chostau postio, a chawsant eu hamcangyfrif drwy ddefnyddio data cyfrifyddu ar gyfer sefydliad cyfatebol.

**Tabl 15**

| Costau Refeniw: Safle | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Rhent | - | 41,000 | 71,000 | Defnyddio ffigurau sefydliad cyfatebol |
| Atgyweirio, cynnal a chadw, diogelwch | - | 27,000 | 47,000 | Defnyddio ffigurau sefydliad cyfatebol |
| Costau gweinyddu a swyddfa | | 68,000 | 117,000 | Defnyddio ffigurau sefydliad cyfatebol |
| | - | **£136,000** | **£235,000** | |

**Costau refeniw: eraill, cyfreithiol a phroffesiynol**

57 Cafodd y costau hyn eu hamcangyfrif drwy ddefnyddio data cyfrifyddu ar gyfer sefydliad cyfatebol.

**Tabl 16**

| Costau refeniw: Eraill, Cyfreithiol a Phroffesiynol | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth (I'r £1000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Cyfathrebu | | 41,000 | 71,000 | Yn seiliedig ar sefydliad cyfatebol |
| TGCh | | 30,000 | 51,000 | Yn seiliedig ar sefydliad cyfatebol |
| Costau cyfreithiol a phroffesiynol | | 25,000 | 42,000 | Yn seiliedig ar sefydliad cyfatebol |
| Yswiriant | | 34,000 | 58,000 | Yn seiliedig ar £1,048 y cyflogai wedi ei gapio ar £60k |
| | - | **£130,000** | **£222,000** | |

**Dibrisiant**

58 Mae'r raddfa ddibrisio wedi ei chyfrifo ar linell wastad dros gyfnod o 5 mlynedd yn dilyn y 12 mis ar ôl trosglwyddo asedau i Gymwysterau Cymru.

**Tabl 17**

| Costau Refeniw: Dibrisiant | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Caledwedd TGCh | 0 | 14,000 | 24,000 | |
| Gosodiadau a ffitiadau | 0 | 11,000 | 18,000 | |
| | - | £25,000 | £42,000 | |

# Opsiwn 3

## Rhagdybiaethau manwl

### Data safle – Opsiwn 3

Amcangyfrifwyd yr anghenion o ran gofod yn seiliedig ar $10m^2$ i bob unigolyn. Hefyd defnyddiwyd pwynt canolog gan ddefnyddio costau safle ar ben uchaf a phen isaf y raddfa eiddo i amcangyfrif costau pellach.

59 Cafodd yr ardrethi busnes eu seilio ar gyfartaleddau'r diwydiant ar gyfer y troedfeddi sgwâr y byddai eu hangen er mwyn sicrhau bod safle'n addas.

60 Yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r farchnad bresennol, nid yw unrhyw bremiwm wedi ei ymgorffori wrth brisio les ar safle, nac ychwaith unrhyw gyfnod di-rent ar ddechrau'r les.

61 Mae rhagor o waith yn cael ei wneud mewn perthynas â lleoliad y sefydliad newydd. Caiff unrhyw newidiadau sylweddol i'r costau a amcangyfrifwyd eu nodi wrth graffu ar y Bil.

### Costau eraill

62 Mae costau megis trydan, nwy, a dŵr; costau cyfreithiol a phroffesiynol; a chostau gweinyddiaeth swyddfa wedi eu seilio ar gostau y pen sydd wedi eu tynnu o sefydliadau cyfatebol.

63 Mae'r yswiriant a'r ffioedd archwilio wedi eu seilio ar sefydliad sy'n debyg o ran ei faint a chymhlethdod ei strwythur.

### Cyllid

64 Er bod yna fwriad i'r sefydliad gynhyrchu swm bach o incwm annibynnol ymhen amser, at ddibenion prisio'r costau hyn rhagdybiwyd y byddai'r sefydliad yn cael 100% o'i gyllid am ei bum mlynedd gyntaf drwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

**Cyllido**

65 Wrth amcangyfrif swm y cyllid y bydd ar Gymwysterau Cymru ei angen ar gyfer ei raglen, rhagdybir:

- mai dim ond costau mân y bydd yn rhaid eu talu ar gyfer datblygu cymwysterau, gan mai'r cyrff dyfarnu fydd yn atebol am y costau hyn;
- na fydd unrhyw argyfwng mawr;
- y bydd unrhyw gostau cyfathrebu mewnol neu gostau hyfforddi staff yn cael eu talu drwy'r gwasanaethau corfforaethol;
- na fydd Cymwysterau Cymru ond yn meddu ar ychydig o arbenigedd pwnc (ac felly y bydd yn ei brynu i mewn pan fydd ei angen);
- y bydd Cymwysterau Cymru yn gwneud cyn lleied o waith â phosibl ar faterion yn ymwneud â'r cwricwlwm;
- y bydd unrhyw waith pwysig i ddiwygio cymwysterau neu systemau yn cael ei wneud drwy lythyr dyrannu grant a gyllidir;
- na fydd unrhyw achlysuron pan fydd angen mynd i'r llys;
- y bydd Cymwysterau Cymru yn cynnig cymorth, ond nid datblygiad proffesiynol parhaus, i ymarferwyr;
- na fydd Cymwysterau Cymru yn comisiynu Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau i ddatblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (sy'n llyncu £300k o gyllideb yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau ar hyn o bryd).

**Pensiynau**

66 Rhagdybir y bydd yr holl gyflogeion yn ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar delerau ac amodau tebyg, ac na fydd unrhyw broblemau yn codi wrth drosglwyddo staff presennol Llywodraeth Cymru.

**Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981**

67 Yn yr un modd, rhagdybir na fydd unrhyw broblem mewn perthynas â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 na Datganiad Ymarfer Swyddfa'r Cabinet (o ran y costau cyflogaeth a'r costau recriwtio a amcangyfrifir).

**Y farchnad gymwysterau**

68 Amcangyfrifir na fydd effeithiau/canlyniadau rownd gyntaf y cymwysterau a gomisiynir i'w gweld nac ar gael tan fis Medi 2020 ar y cynharaf.

69 O ran cymwysterau cyffredinol, rhagdybir mai CBAC fydd yr unig ddarparwr hyd at y cyfnod adolygu nesaf pan fydd cyfle i gyflwyno dull newydd o gomisiynu. Gan fod hynny o leiaf 3-4 blynedd i ffwrdd, mae'n amhosibl rhagweld beth yn union fydd y gweithgarwch masnachol yn y dyfodol, ac felly ni cheisiwyd gwneud hynny.

70 O ran cymwysterau galwedigaethol, rhagdybir y bydd y corff newydd yn dechrau ystyried y ddarpariaeth bresennol ar gyfer amryw o sectorau'r diwydiant neu sectorau proffesiynol, ac o ganlyniad mae'n bosibl y bydd yn comisiynu cymwysterau newydd. Er y gallai hynny ddigwydd o fis Medi 2016, rhagdybir na fydd y dull gweithredu hwn yn effeithio ar y rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol am o leiaf 3-4 blynedd, ac felly mae'n amhosibl rhagweld beth yn union fydd y gweithgarwch masnachol yn y dyfodol.

**Staffio**

71 O dan yr opsiwn hwn, amcangyfrifir mai 73 aelod o staff fydd cyfanswm nifer y staff yng Nghymwysterau Cymru. Bydd hynny'n cynnwys y 37 aelod o staff a gyflogir yn Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau Llywodraeth Cymru.

72 Bydd Cadeirydd a Bwrdd Llywodraethu'r sefydliad yn ychwanegol at y staff hyn, sef 11 o bobl ychwanegol, sy'n dod â chyfanswm nifer y staff ar gyfer yr opsiwn hwn i 84.

## Cyfrifiadau

**Costau refeniw: cost y prosiect i roi Cymwysterau Cymru ar waith**

73 Mae cost y prosiect trosglwyddo yn cynnwys cost y prosiect i roi Cymwysterau Cymru ar waith, ond nid yw'n cynnwys y gost i Lywodraeth Cymru o gynhyrchu deddfwriaeth.

**Tabl 18**

| Cost y prosiect i roi'r sefydliad ar waith | 2015-2016 | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|
| Cymwysterau Cymru – Tîm y Prosiect Trosglwyddo | 661,000 | | Cyflogau, gan gynnwys argostau |
| Cyngor cyfreithiol a phroffesiynol | 202,000 | | Amcangyfrif |
| Contractwyr TGCh | 255,000 | | Amcangyfrif |
| Costau gweithredu eraill y prosiect | 84,000 | | Teithio a chynhaliaeth/arlwyo /llogi car/llety |
| | **£ 1,202,000** | **£ -** | |

**Costau refeniw: staff - corfforaethol**

74 Cyfrifwyd y costau hyn yn y disgwyl y byddai cyfran sylweddol o staff corfforaethol y sefydliad yn eu lle cyn iddo gael ei sefydlu.

75 Y gobaith yw y bydd y Prif Swyddog Gweithredol, ynghyd â phenaethiaid TGCh, Cyfathrebu, Cyllid ac Adnoddau Dynol yn dechrau yn eu swyddi ym mis Ebrill 2015, yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Cysgodol.

76 Dechreuodd y Prif Swyddog Gweithredol (dros dro) yn ei swydd ym mis Hydref 2014.

77 Bydd y gwaith o ddatblygu strwythur y sefydliad yn cael ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2015, ond bydd yn cael ei gyflawni o fewn cyfanswm yr amlen gostau arfaethedig.

**Tabl 19**

| Gradd | Cyflogau £ | x | Cyflogau/ffioedd £ | Argostau % | Argostau £ | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Amcangyfrif ar gyfer strwythur staff corfforaethol*** | | | | | | | | | |
| EB1 | 70,000 | 1 | 70,000 | 0.32 | 22,400 | | | | *Amcangyfrif PWC (cost gyfartalog)* |
| EB2 | 65,000 | 2 | 130,000 | 0.32 | 41,600 | 35,750 | | | *Costau Rhedeg Ychwanegol (pegwn uchaf y band)* |
| F | 55,500 | 2 | 111,000 | 0.32 | 35,520 | 61,050 | | | *Yr un fath â ffigurau staff swyddogaethau uchod* |
| E | 42,850 | 6 | 257,100 | 0.27 | 69,417 | 22,675 | | | *Yr un fath â ffigurau staff swyddogaethau uchod* |
| D | 33,900 | 6 | 203,400 | 0.27 | 54,918 | | | | *Yr un fath â ffigurau staff swyddogaethau uchod* |
| C | 25,750 | 1.5 | 38,625 | 0.27 | 10,429 | | | | |
| TS | 20,950 | 6 | 125,700 | 0.24 | 30,168 | | | | *Yr un fath â ffigurau staff swyddogaethau uchod* |
| | | 24.5 | 935,825 | | 264,452 | | | 1,200,277 | |
| Pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | | 700,161 | | |
| ***Bwrdd Llywodraethu*** | | | | | | | | | |
| Cadeirydd | 35,000 | 1 | 35,000 | - | | | | | Amcangyfrif o ffioedd, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth – dim argostau |
| Aelodau | 7,500 | 10 | 75,000 | - | | | | | |
| | | 13 | 125,000 | | | | | | |
| | | | | | | | | 125,000 | |
| Pro rata ar gyfer mis Ebrill – Awst 2016 | | | | | | 52,083 | | | |
| Pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | | | | | | 72,917 | | |
| ***Prif Weithredwr (pro rata cyn ac ar ôl sefydlu)*** | | | | | | 68,750 | 96,250 | 165,000 | Amcangyfrif o gyflogau plws argostau. |
| | | | | | | **£ 240,000** | **£ 869,000** | **£ 1,490,000** | Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf |

**Costau refeniw: staff – swyddogaethau sy’n ymwneud â chymwysterau**

78 Cyfrifwyd y costau hyn drwy greu cyfanswm newydd o ran nifer y staff a fyddai’n cyflawni swyddogaethau’r sefydliad arfaethedig. Er y bydd rhai o staff yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau yn AdAS yn trosglwyddo i’r sefydliad newydd, y gred oedd na ddylid trosglwyddo’r strwythurau presennol i’r sefydliad newydd. Felly nid yw’r costau hyn yn berthnasol i gostau staff rheoleiddio presennol.

79 Amcangyfrifir y costau ar begwn uchaf graddfeydd cyflog presennol Llywodraeth Cymru.

**Tabl 20**

| Gradd | Cyflogau £ | x | Costau Cyflogau | Argostau % | Argostau £ | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Amcangyfrif ar gyfer strwythur staff swyddogaethau* | | | | | | | | | |
| SCS | 85,000 | 2 | 170,000 | 0.32 | 54,400 | | | | Pegwn uchaf bandiau cyflog Llywodraeth Cymru |
| F | 55,500 | 9 | 499,500 | 0.32 | 159,840 | | | | |
| E | 42,850 | 12 | 514,200 | 0.27 | 138,834 | | | | |
| D | 33,900 | 11 | 372,900 | 0.27 | 100,683 | | | | |
| C | 25,750 | 11 | 283,250 | 0.27 | 76,478 | | | | |
| TS | 20,950 | 2 | 41,900 | 0.24 | 10,056 | | | | |
| | | 47 | £ 1,881,750 | | £ 540,291 | | | | |
| Cyfanswm y costau staffio y flwyddyn ar gyfer Cymwysterau Cymru | | | | | £ 2,422,041 | - | | 2,422,041 | |
| Pro rata o fis Medi 2015. | | | | | | | 1,211,020 | | |
| *Cost bresennol flynyddol staff swyddogaethau yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau* | | | | | | | | | |
| 37 aelod o staff | | | | | £ 1,561,947 | | | | |
| Pro rata | | | | | | 650,811 | | | |
| | | | | | | **£ 651,000** | **£ 1,211,000** | **£ 2,422,000** | Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £1,000 agosaf |

### Costau refeniw: staff – uned noddi

80 Amcangyfrifwyd y byddai'r strwythur canlynol ar gyfer Uned Noddi Cymwysterau Cymru yn cynnwys 4 aelod o staff.

**Tabl 21**

| Gradd | Cyflogau £ | x | Costau cyflogau £ | Argostau % | Argostau £ | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Amcangyfrif ar gyfer strwythur staffio'r Uned Noddi* | | | | | | | | | |
| F | £55,500 | 1 | 55,500 | 0.32 | 17,760 | | | | Pegwn uchaf bandiau cyflog Llywodraeth Cymru |
| E | £42,850 | 1 | 42,850 | 0.27 | 11,570 | | | | |
| D | £33,900 | 1 | 33,900 | 0.27 | 9,153 | | | | |
| C | £25,750 | 1 | 25,750 | 0.27 | 6,953 | | | | |
| | | 4 | 158,000 | | 45,435 | | | | |
| Cyfanswm cost y flwyddyn ar gyfer staff yr Uned Noddi | | | | | 203,435 | - | | 203,435 | |
| Pro rata o fis Medi 2015. | | | | | | | 101,718 | | |
| | | | | | | £ - | £ 102,000 | £ 203,000 | |

81 Bydd y gwaith o lunio strwythur yr Uned Noddi wedi ei gwblhau erbyn Ionawr 2015. Caiff unrhyw newidiadau sylweddol i'r costau a amcangyfrifwyd eu nodi wrth graffu ar y Bil.

### Costau refeniw: staff – ac eithrio cyflogau

82 Mae'r costau mwyaf sylweddol, nad ydynt yn cynnwys cyflogau, yn ymwneud â recriwtio ac adleoli staff, yn ogystal â chostau hyfforddi a thaliadau teithio ychwanegol ar gyfer staff sy'n gorfod gweithio o leoliad gwahanol o dan y telerau a'r amodau presennol. Bydd y taliadau teithio ychwanegol yn dod i ben ar ôl 36 mis, felly bydd y costau yn llai yn 2018-19, ac ni chaiff y rhain eu cynnwys yn 2019-20.

**Tabl 22**

| Costau refeniw: staff – ac eithrio cyflogau | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell/Rhagdybiaeth (i'r £1,000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU SEFYDLU** | | | | |
| Recriwtio staff (corfforaethol a rheoleiddio) | 144,000 | | | Yn ôl cyfartaledd CIPD o £2k y pen |
| Hyfforddiant ymlaen llaw ar systemau newydd i staff newydd | 87,000 | | | Yn ôl cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn |
| Adleoli | 10,000 | | | Cyfrifiad PwC |
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Costau hyfforddiant arferol | | | 87,000 | Cyfartaledd o £1,214 y pen y flwyddyn |
| Costau sefydlu: pro rata ar gyfer mis Ebrill – Awst 2016 | 45,000 | | | 37 aelod o staff |
| Costau gweithredu: pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | 51,000 | | |
| Teithio a chynhaliaeth | | | 36,000 | Cyfartaledd o £505 y pen y flwyddyn |
| Costau sefydlu: pro rata ar gyfer mis Ebrill – Awst 2016 | 8,000 | | | 37 aelod o staff |
| Costau gweithredu: pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | 21,000 | | |
| Tocynnau teithio dros ben | | | 40,000 | 40 ceiniog y filltir, 30 aelod o staff, cyfartaledd o 15 milltir y dydd, |
| Costau gweithredu: pro rata am 7 mis hyd at fis Mawrth 2016 | | 23,000 | | 44 x wythnos 5 diwrnod (y flwyddyn am 36 mis) |
| | **£294,000** | **£95,000** | **£163,000** | |

### Costau refeniw: safle

83 Mae'r costau hyn yn cynnwys cynnal a chadw, offer swyddfa a chostau postio.

**Tabl 23**

| Costau Refeniw: Safle | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell/Rhagdybiaeth (i'r £1,000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Rhent | 102,000 | 143,000 | 245,000 | Yn seiliedig ar £513 y m2, 10 m2 y pen, 72 o bobl |
| Adnoddau | 80,000 | 112,000 | 192,000 | Yn seiliedig ar £2,207 y pen, 72 o bobl |
| Trethi | 32,000 | 44,000 | 77,000 | Yn seiliedig ar c£6 y droedfedd sgwâr, 110 troedfedd sgwâr y pen, 72 o bobl |
| Atgyweirio a chynnal a chadw | 18,000 | 25,000 | 42,000 | Yn seiliedig ar £500 y pen a 72 o bobl |
| Costau gweinyddu a chostau swyddfa | | 112,000 | 192,000 | Yn seiliedig ar £2,200 y pen a 72 o bobl |
| | **232,000** | **£436,000** | **£748,000** | |

84 Mae rhagor o waith yn cael ei wneud mewn perthynas â lleoliad y sefydliad newydd. Caiff unrhyw newidiadau sylweddol i'r costau a amcangyfrifwyd eu nodi wrth graffu ar y Bil.

**Costau refeniw: eraill, cyfreithiol a phroffesiynol**

85 Mae'r costau hyn yn amcangyfrif o gostau cyfieithu, gwasanaethau ariannol, gwasanaethau cyfreithiol ac yswiriant.

**Tabl 24**

| Costau Refeniw: Cyfreithiol a Phroffesiynol | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell/Rhagdybiaeth (i'r £1,000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Archwilio mewnol ar gontract allanol | | 14,000 | 24,000 | Gwybodaeth gan sefydliadau a'r sector |
| Cyflogres ar gontract allanol | | 11,000 | 18,000 | CLG Llywodraeth Cymru gydag Estyn (100 o gyflogeion) = c£15k |
| Costau cyfreithiol a phroffesiynol | | 88,000 | 150,000 | Yn seiliedig ar £1,700 y pen a 72 o bobl |
| Archwilio allanol | | 25,000 | 42,000 | diw./bl. 31.03.2013, £30k am archwilio allanol Estyn |
| Yswiriant | | 42,000 | 72,000 | Yn seiliedig ar £1,048 y cyflogai, wedi ei gapio ar £60k |
| | **-** | **£180,000** | **£306,000** | |

**Costau refeniw: TGCh**

86 Mae'r costau TGCh yn parhau i gael eu datblygu wrth i Brosiect Pontio Cymwysterau Cymru fynd yn ei flaen. Mae'r ffigurau a nodir yma yn amcangyfrifon diweddar ar adeg cyhoeddi'r ddogfen.

**Tabl 25**

| Costau refeniw: TGCh | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell/rhagdybiaeth (i'r £1,000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU SEFYDLU** | | | | |
| Ymgynghori | 457,000 | | | Pob cost yn cynnwys TAW |
| WAN | 22,000 | | | |
| Meddalwedd arall | 101,000 | | | |
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Ymgynghori | | | 95,000 | |
| WAN | | | 87,000 | |
| Meddalwedd arall | | | 70,000 | |
| Cymorth Microsoft | | | 47,000 | |
| Caledwedd | | | 27,000 | |
| | **580,000** | **0** | **326,000** | |

Mae dadansoddiad pellach o'r costau hyn isod.

**Tabl 25a**

| Dadansoddiad o Gostau Refeniw: TGCh | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Sefydlu (3 blynedd)** | **Blynyddol** |
| **Ymgynghori (Costau Sefydlu)** | | | |
| Integreiddiwr System | | £84,000 | £28,400 |
| Datblygu Gwefan | | £65,000 | £26,500 |
| Cronfa Ddata Rheoliadau | | £96,000 | £24,000 |
| Adnoddau TGCh Llywodraeth Cymru | | £120,000 | |
| Sicrhau Ansawdd | | £15,800 | |
| | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£457,000** | |
| **Ymgynghori (Costau parhaus)** | | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£95,000** |
| **WAN / LAN (Costau Sefydlu)** | | | |
| Costau Teleffoni | | £9,000 | £9,000 |
| Ffonau Symudol | 30 o ddefnyddwyr | £9,450 | £9,450 |
| | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£22,000** | |
| **WAN (Costau parhaus)** | | | |
| WAN / Teleffoni / Wal dân | 100 o ddefnyddwyr | | £11,000 |
| Fideogynadledda | 100 o ddefnyddwyr | | £10,080 |
| Band llydan (PBSA WAN & Rhyngrwyd) | 200/100mb | | £33,000 |
| | | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£87,000** |
| **Meddalwedd Arall (Costau Sefydlu)** | | | |
| Adobe Creator | 30 o ddefnyddwyr | £5,440 | £5,440 |
| Pecyn Canfod Firysau | 100 o ddefnyddwyr | £12,000 | £12,000 |
| Apiau Cleient (arall) | 100 o ddefnyddwyr | £22,000 | £22,000 |
| Rhaglen AD | 3 defnyddiwr | £27,000 | £1,500 |
| Rhaglen Cyllid | 3 defnyddiwr | £10,000 | £10,000 |
| Rhaglen Caffael | 2 ddefnyddiwr | £8,000 | £8,000 |
| | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£101,000** | |
| **Meddalwedd Arall (Costau parhaus)** | | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£70,000** |
| **Cymorth Microsoft** | | | £39,000 |
| | | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£47,000** |
| **Caledwedd (Costau Parhaus)** | | | |
| Ffôn Symudol | 30 o ddefnyddwyr | | £6,300 |
| Fideogynadledda (presenoldeb tele) | 1 OF | | £4,300 |
| Argraffyddion a Pherifferolion | 5 OF | | £12,000 |
| | | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£27,000** |

### Costau cyfalaf: TGCh

87 Dechreuwyd ar brosiect cwmpasu yn yr hydref 2013 i benderfynu pa seilwaith TGCh fyddai fwyaf addas ar gyfer y sefydliad newydd. Datblygwyd model hybrid, sef cyfuniad o seilwaith cwmwl a seilwaith sy'n defnyddio gweinyddion, a hwn sy'n gyfrifol am gyfran fawr o'r costau hyn.

**Tabl 26**

| Costau cyfalaf TGCh | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell/Rhagdybiaeth (i'r £1,000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU SEFYDLU** | | | | |
| Trwyddedu a chymorth cwmwl* | 247,000 | | | |
| Caledwedd | 204,000 | | | |
| WAN | 213,000 | | | |
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Darparu gwesteiwr a thrwyddedu | | | 178,000 | Ffi deirblwydd: darparu gwesteiwr, trwyddedu |
| | £ 664,000 | £0 | £178,000 | |

Mae dadansoddiad pellach o'r costau hyn isod.

**Tabl 26a**

**Dadansoddiad o Gostau Cyfalaf: TGCh**

| | | Sefydlu (3 blynedd) | | Costau pwynt 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Trwydeddu Cwmwl (Costau Sefydlu)** | | | | |
| Trwyddedu Cleient | 100 o ddefnyddwyr | £94,672 | | £94,672 |
| Gwesteiwr Azure | Blynyddol | £54,000 | | £54,000 |
| Cymorth Microsoft | Blynyddol | £39,000 | | |
| Hyfforddiant Microsoft | Sefydlu | £18,000 | | |
| | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£247,000** | | |
| **Darparu Gwesteiwr a Thrwyddedu (Costau parhaus)** | | | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£178,000** |
| **Caledwedd (Costau Sefydlu)** | | | | |
| Pecyn Cleient (Pendesg) | 80 o ddefnyddwyr | £44,355 | | |
| Pecyn Cleient (Gliniadur) | 20 o ddefnyddwyr | £14,400 | | |
| Gweinyddion a Pherifferolion | 2 Stac (M) | £38,000 | | |
| Ffôn Symudol | 30 o ddefnyddwyr | £6,300 | | |
| Fideogynadledda (presenoldeb tele) | 1 OF | £25,000 | | |
| Taflunyddion a Pherifferolion | 2 OF | £7,000 | | |
| Argraffyddion a Pherifferolion | 5 OF | £27,000 | | |
| Pecynnau Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol | 4 OF | £8,000 | | |
| | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£204,000** | | |
| **WAN / LAN (Costau Sefydlu)** | | | | |
| WAN / Teleffoni / Wal dân | 100 o ddefnyddwyr | £80,000 | | |
| Fideogynadledda | 100 o ddefnyddwyr | £25,370 | | |
| Band llydan (PBSA WAN & Rhyngrwyd) | 200/100mb | £72,000 | | |
| | *Isgyfanswm yn cynnwys TAW* | **£213,000** | | |

**Dibrisiant**

88 Mae'r raddfa ddibrisio wedi ei chyfrifo ar linell wastad dros gyfnod o 5 mlynedd wedi 12 mis ar ôl trosglwyddo asedau i Gymwysterau Cymru.

**Tabl 27**

| Costau Refeniw: Dibrisiant | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell / Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU GWEITHREDU** | | | | |
| Caledwedd TGCh | 0 | 24,000 | 40,800 | |
| Gosodiadau a ffitiadau | 0 | 26,000 | 45,200 | |
| | - | £50,000 | £86,000 | |

**Costau'r rhaglen**

89 Nid yw'r costau canlynol wedi eu cynnwys yn y gwariant a amcangyfrifir ar gyfer rhaglen Cymwysterau Cymru:

- Costau rhedeg y system sy'n disodli'r Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (wedi eu cynnwys yn y costau TGCh).
- Costau adnoddau (wedi eu cynnwys yn y costau staffio).
- Costau cyfieithu (wedi eu cynnwys yn y costau cyfreithiol a phroffesiynol).
- Costau cyfreithiol (wedi eu cynnwys yn y costau cyfreithiol a phroffesiynol).
- Offer swyddfa / costau postio (wedi eu cynnwys yng nghostau'r safle).
- Costau cynnal a chadw (wedi eu cynnwys yng nghostau'r safle).

90 Mae'r costau hyn yn gyson â llinell gwariant cyllidebol presennol yr Is-adran Rheoleiddio a Chymwysterau

**Tabl 28**

| Costau'r Rhaglen | 2015-2016 Sefydlu | 2015-2016 Gweithredu | Parhaus | Ffynhonnell/Rhagdybiaeth |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoleiddio/Sicrhau Ansawdd** | | | | |
| Monitro | 62,500 | 87,500 | 150,000 | |
| Arbenigedd pwnc/technegol | 47,917 | 67,083 | 115,000 | |
| Gorfodi | 4,167 | 5,833 | 10,000 | |
| Tribiwnlys a chostau eraill | 4,167 | 5,833 | 10,000 | |
| Datblygu meini prawf | 83,333 | 116,667 | 200,000 | |
| Grantiau ar gyfer y Gymraeg | 375,000 | 525,000 | 900,000 | |
| **Cyfathrebu** | | | | |
| Arolygon blynyddol o hyder y cyhoedd | 31,250 | 43,750 | 75,000 | |
| Ymgyrchoedd hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth | 20,833 | 29,167 | 50,000 | |
| Gwybodaeth ar gyfer rhanddeiliaid | 20,833 | 29,167 | 50,000 | |
| Cymorth i ganolfannau ac ymarferwyr | 20,833 | 29,167 | 50,000 | |
| Diwrnod canlyniadau | 8,333 | 11,667 | 20,000 | |
| **Ymgysylltu, Ymchwil a Datblygu** | | | | |
| Ymgynghori/ymgysylltu – rhanddeiliaid | 50,000 | 70,000 | 120,000 | |
| Ymchwil | 83,333 | 116,667 | 200,000 | |
| Cymaharu | 62,500 | 87,500 | 150,000 | |
| Data ystadegol gan gynnwys dadansoddiadau | 20,833 | 29,167 | 50,000 | |
| Datblygu trefniadau rheoleiddio a sicrhau ansawdd | 29,167 | 40,833 | 70,000 | |
| Sganio'r gorwel | 12,500 | 17,500 | 30,000 | |
| **Llywodraethu** | | | | |
| Costau cyhoeddi (gan gynnwys cyfieithu) | 12,500 | 17,500 | 30,000 | |
| Cynhyrchu adroddiadau (gan gynnwys cyhoeddi adroddiad blynyddol sgleiniog) | 8,333 | 11,667 | 20,000 | |
| Archifo | 4,167 | 5,833 | 10,000 | |
| Ofqual | 12,500 | 17,500 | 30,000 | |
| Datblygiad proffesiynol i'r staff | 16,667 | 23,333 | 40,000 | |
| | £ 991,667 | £1,388,333 | £2,380,000 | |

# Ffynonellau gwybodaeth

91 Defnyddiwyd gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd mewn perthynas â'r sefydliadau cyfatebol:

Ofqual
Awdurdod Cymwysterau'r Alban
Comisiynydd Plant Cymru
Estyn
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Comisiynydd y Gymraeg
Comisiynydd Plant Cymru
Cyngor Gofal Cymru

92 Cafwyd rhagor o wybodaeth drwy gydweithrediad:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
CCAUC
Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru
Cyngor Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon
Microsoft

93 Yn ogystal, wrth ddatblygu rhannau o'r wybodaeth brisio, manteisiwyd ar arbenigedd a ddarparwyd gan PricewaterhouseCoopers a Llywodraeth Cymru.

# Atodiad C - GEIRFA

**Achredu**
Yng nghyd-destun y sefyllfa yng Nghymru o ran cymwysterau ar hyn o bryd, mae 'achredu' yn cyfeirio at benderfyniad gan Lywodraeth Cymru (a rheoleiddwyr eraill y DU yn eu hawdurdodaethau gwahanol) bod cymwysterau yn bodloni meini prawf dynodedig. Fodd bynnag, yn aml defnyddir y term yn anffurfiol mewn nifer o ffyrdd eraill: er enghraifft efallai y bydd cyrff dyfarnu yn defnyddio'r term 'achredu' i ddiffinio'r broses o gymeradwyo canolfannau i ddarparu eu cymwysterau, ac efallai y bydd asiantaethau ansawdd eraill yn defnyddio'r term i ddiffinio stamp ansawdd ar gyrsiau darparwyr. Oherwydd hyn, ac er mwyn bod yn glir, mae'r Bil yn defnyddio'r gair 'cymeradwyo' wrth sôn am benderfyniadau tebyg a wneir gan Gymwysterau Cymru. Nid yw'n defnyddio'r term 'achredu' wrth ddiffinio swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau Cymwysterau Cymru.

**Cymhwyster sydd wedi’i gymeradwyo**
Fersiwn o gymhwyster sydd wedi’i gymeradwyo gan Gymwysterau Cymru o dan Ran 4 o’r Bil (cymeradwyo cymwysterau), ac a ddyfernir yn unol â’r gymeradwyaeth honno yng Nghymru.

**Trefniadau asesu**
Trefniadau yw’r rhain ar gyfer asesu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol mewn perthynas â chymhwyster. Gallai’r trefniadau hyn gynnwys, er enghraifft, bob agwedd ar ddatblygu, llunio a gweinyddu adnoddau asesu (er enghraifft arholiadau) yn ogystal ag, er enghraifft, ddyluniad yr asesiadau, eu dilysrwydd a pha mor ddibynadwy y maent.

**Asesu cymhwyster**
Mae gwahanol ystyron i hyn, yn dibynnu ar y cyd-destun. Yng nghyd-destun y Bil, mae'n cyfeirio'n gyffredinol at yr hyn y mae dysgwr yn ei gyflawni er mwyn dangos bod ganddo'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen er mwyn bodloni gofynion cymhwyster. Fodd bynnag, gall gyfeirio hefyd at waith aseswr, arholwr neu farciwr i werthuso'r gwaith hwnnw.

**Cyrhaeddiad**
Mae cyrhaeddiad yn nodi’r wybodaeth, y sgiliau a’r ddealltwriaeth y mae disgwyl i ddysgwyr eu dangos neu fod wedi’u dangos er mwyn ennill cymhwyster, neu radd neu ganlyniad penodol mewn cymhwyster. Gellir ei fesur ar lefel unigolyn neu ar draws cohort penodol, a gall fod ar sail yr hyn a gyflawnwyd gan weddill y cohort. Gellir ei fesur yn feintiol (er enghraifft, ar sail canran y dysgwyr a enillodd radd C neu’n uwch) neu’n ansoddol (er enghraifft, i ba raddau y dangosodd dysgwyr gymhwysedd mewn sgil benodol).

**Dyfarnu**
Mewn iaith bob dydd, mae 'dyfarnu' yn gallu golygu pob math o bethau, yn dibynnu ar y cyd-destun. Gall gyfeirio at yr holl waith a wneir gan gorff

dyfarnu mewn perthynas â darparu, asesu a dyfarnu cymwysterau. Gall gyfeirio weithiau at ran benodol o'r broses, er enghraifft penderfyniad 'pwyllgor dyfarnu' ynghylch lle dylid pennu terfynau graddau cymhwyster. Fe'i defnyddir weithiau hefyd i gyfeirio at y foment pan roddir tystysgrif neu wobr i ymgeisydd. Yn y Bil, mae yna lawer o gyfeiriadau at ddyfarnu cymhwyster yng Nghymru, sydd fel rheol yn golygu dyfarnu i unigolion sydd wedi’u hasesu ar gyfer y cymhwyster yn gyfangwbl neu’n bennaf yng Nghymru (sy’n golygu bod gweithgarwch i arddangos yr wybodaeth, y sgiliau neu’r ddealltwriaeth berthnasol yn cael ei gyflawni yn gyfangwbl neu’n bennaf yng Nghymru). Fodd bynnag, at ddibenion diffinio “cymhwyster” a ddyfernir yng Nghymru, dyfernir cymhwyster yng Nghymru os oes yna, neu os disgwylir yn rhesymol y bydd yna unigolion sy’n dymuno ennill y cymhwyster sydd, neu a fydd, neu y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu hasesu mewn perthynas â’r cymhwyster yn gyfangwbl neu’n bennaf yng Nghymru.

**Corff dyfarnu**
Person (sefydliad fel rheol) sy’n dyfarnu, neu’n cynnig dyfarnu cymhwyster. ‘Corff dyfarnu’ yw’r term a ddefnyddir yn y Bil hwn gan ei fod yn fwy cyfarwydd i’r rhan fwyaf o randdeiliaid na ‘sefydliad dyfarnu’, sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio weithiau.

**Ymgeisydd**
Dysgwr yw ymgeisydd sydd wedi’i gofrestru, neu a allai gael ei gofrestru ar gyfer cymhwyster.

**Canolfan (neu 'Ddarparwr Dysgu')**
Sefydliad sy'n cofrestru dysgwyr ar gyfer cymwysterau ac sydd â phob math o gyfrifoldebau o ran darparu a rheoli gweithgareddau asesu (ac weithiau o ran asesu perfformiad ymgeiswyr, yn benodol mewn perthynas ag arsylwi perfformiad neu farcio asesiadau 'mewnol'). Mae canolfannau yn ymwneud â Chyrff Dyfarnu ar ran ymgeiswyr. Mae'n beth prin i ymgeiswyr ymwneud yn uniongyrchol â Chyrff Dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysgol, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw canolfannau. Yn y Bil, diffinnir “darparwr dysgu” fel person sy’n darparu addysg neu hyfforddiant sy’n arwain at gymhwyster.

**Tystysgrif**
Cofnod o'r credyd a enillwyd neu o’r cymhwyster a ddyroddwyd gan gorff dyfarnu.

**Comisiynu**
Y broses o ddod i drefniant gyda darparwr gwasanaethau, fel y trefniadau hynny a ddisgrifir yn y Bil mewn perthynas â’r camau a gymerir gan gorff dyfarnu i ddatblygu Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig o dan adran 15, gyda’r nod o gymeradwyo’r cymhwyster o dan adran 16.

**Cyfatebiaeth**
I ba raddau y mae cymwysterau yn debyg i gymwysterau eraill, yn nhermau lefel anhawster; dilysrwydd yr asesiad; yr wybodaeth, y sgiliau a'r

ddealltwriaeth sy'n ofynnol; neu unrhyw nodweddion eraill y gellir eu cymharu. Fel rheol, caiff cymwysterau, a data am gymwysterau a enillwyd, eu cymharu dros gyfnod o amser yn ogystal ag ar draws cyrff dyfarnu. Mae'n anoddach cymharu rhwng pynciau, ond gall datganiadau cyffredin am y math o sgiliau a ddisgwylir ar wahanol lefelau fod o gymorth.

**Credyd**
Defnyddir 'credyd' yn y Bil i gyfeirio at y gydnabyddiaeth a roddir am gyflawni *rhan* o gymhwyster. Gellir ei ddefnyddio hefyd, o'i ddefnyddio gyda gwerth rhifol, i gymharu gwerth cymharol gwahanol gymwysterau, neu rannau o gymwysterau.

**Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru**
Fframwaith sy'n nodi sut mae gwahanol gymwysterau yn cymharu â'i gilydd ac â gwahanol fathau o ddysgu ac asesu – o ran lefel a maint.

**Y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (DAQW)**
Datblygwyd y gronfa ddata hon er mwyn rhannu gwybodaeth am gymwysterau gyda darparwyr dysgu. Y nod yw disodli'r gronfa ddata hon ag un newydd, Cymwysterau yng Nghymru, a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru.

**Darparu/cyflenwi cymwysterau**
Mae 'darparu/cyflenwi cymwysterau' yn cyfeirio at y camau ymarferol a gymerir gan gyrff dyfarnu i weinyddu cymwysterau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynllunio, cynhyrchu, cyfieithu a dosbarthu papurau, tasgau, cynlluniau marcio, deunydd cymorth addysgu ac adnoddau eraill (cylchlythyrau, adnoddau sesiynau DPP, a sesiynau un-i-un), recriwtio a hyfforddi arholwyr, trefnu cyfarfodydd i arholwyr a chymedrolwyr, creu data fel sail i benderfyniadau dyfarnu, cynhyrchu'r canlyniadau, ymateb i ymholiadau yn dilyn canlyniadau, a chreu tystysgrifau. Mae canolfannau yn chwarae rhan fawr yn y gwaith o asesu cymwysterau. Maent yn cofrestru ar gyfer arholiadau, yn gweinyddu ac yn goruchwylio ac yn cynllunio tasgau neu brofion, yn marcio, yn cymedroli ac yn dilysu.

**Addysgu**
Cyfrifoldeb canolfannau yw'r gwaith o addysgu cwrs astudio sy'n arwain at gymhwyster. Mae Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

**Lefel mynediad**
Y lefel mynediad yw lefel isaf y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae cymwysterau ar y lefel hon yn cydnabod sgiliau a gwybodaeth sylfaenol a'r gallu i gymhwyso'r hyn a ddysgwyd i sefyllfaoedd bob dydd o dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth uniongyrchol.

**Asesu allanol**
Yn gyffredinol, mae hyn yn cyfeirio at ddull asesu lle pennir papurau, aseiniadau a/neu dasgau gan y corff dyfarnu, i'w cwblhau dan amodau penodedig (gan gynnwys manylion goruchwylio a hyd y cyfnod a ganiateir), a gaiff eu marcio gan y corff dyfarnu. Fodd bynnag, mae yna amrywiadau ar hyn lle, er enghraifft, bydd corff dyfarnu yn marcio atebion ymgeiswyr i gwestiynau sydd wedi'u pennu gan ganolfan.

**Amod capio ffioedd**
Amod arbennig sy’n cyfyngu ar y swm a godir gan gorff cydnabyddedig mewn perthynas â dyfarnu fersiwn o gymhwyster a gymeradwywyd neu a ddynodwyd ac a gyllidwyd yn gyhoeddus, neu am ddarparu unrhyw wasanaeth neu gyfleuster mewn perthynas â dyfarnu fersiwn o gymhwyster a gymeradwywyd neu a ddynodwyd (i rywun ar gwrs a gyllidwyd yn gyhoeddus).

**Meini prawf cydnabod**
Bydd Cymwysterau Cymru yn pennu ac yn cyhoeddi meini prawf cydnabod i’w bodloni wrth gydnabod corff dyfarnu yn gyffredinol.

**Gradd**
Pwynt ar raddfa perfformiad a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng pwyntiau cyrhaeddiad o fewn cymhwyster.

**Asesu mewnol**
Dull asesu nad yw'n gorfod cyflawni amodau arholi llawn a lle, fel rheol, mae'r Ganolfan yn chwarae rôl asesu fwy na'r corff dyfarnu. Fel rheol, y corff dyfarnu fydd yn nodi'r rheolaethau penodol ynghylch sut dylid asesu ymgeiswyr a'r amodau ar gyfer gweinyddu hyn.

**Dysgwr**
Yn y Bil, mae hwn yn golygu person sy’n dymuno ennill cymwysterau neu y gellid disgwyl yn rhesymol ei fod yn dymuno ennill cymwysterau. Unwaith bydd dysgwr wedi cofrestru ar gyfer cymhwyster neu wedi cael ei gofrestru, cyfeirir ato ef neu hi fel ‘ymgeisydd’ yn aml.

**Rhaglenni Dysgu**
Y prif gyfrwng cynllunio, dyrannu, darparu a monitro o dan y fframwaith cynllunio a chyllido ôl-16 newydd, a phob rhaglen ddysgu yn cael ei diffinio yn ôl ei phwrpas, ei chanlyniadau a'i hallbynnau. Pecynnau dysgu yw Rhaglenni Dysgu sydd â phwrpas clir a chanlyniadau penodol.

**Lefel**
Mae 'lefel' yn dynodi'r anhawster cymharol, y cymhlethdod a/neu raddau'r cyrhaeddiad, a/neu i ba raddau y mae'r dysgwr wedi gweithredu'n annibynnol.

**Cynllun marcio**
Cynllun yn nodi manylion sut caiff marciau eu dyfarnu mewn perthynas ag uned neu elfen asesu benodol. Fel rheol, mae cynllun marcio yn nodi'r math o atebion/camau sy'n dderbyniol ar gyfer cwestiynau/tasgau neu rannau o gwestiynau/tasgau, ac yn nodi faint o gredyd y dylid ei roi am bob un.

**Cymedroli**
Y broses ar gyfer monitro sut caiff asesiadau eu marcio mewn canolfannau er mwyn gwneud yn siwr y dilynir y safonau gofynnol; proses a ddefnyddir i addasu canlyniadau, lle bo angen, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn seiliedig ar y safon ofynnol.

**Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol**
Disgrifiadau sydd wedi'u cyhoeddi, ac y cytunwyd arnynt gan arbenigwyr y sector galwedigaethol, o'r hyn y mae angen i berson ei wneud, ei wybod a'i ddeall mewn swydd er mwyn cyflawni'r rôl mewn ffordd gyson a medrus, yn unol â’r hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdano. Un o'u prif amcanion yw darparu sail ar gyfer gofynion cymwysterau galwedigaethol.

**Ofqual**
Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau - un o gyrff y Goron a sefydlwyd o dan Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, sydd â chyfrifoldeb dros gymwysterau a ddyfernir yn Lloegr nad ydynt ar lefel gradd (a thros gymwysterau galwedigaethol a ddyfernir yng Ngogledd Iwerddon).

**Pobl ag Anawsterau Dysgu**
At ddiben y Bil hwn, mae gan berson anhawster dysgu os oes ganddo anghenion addysg arbennig neu’n ei chael yn sylweddol anoddach dysgu o gymharu â’r rhan fwyaf o bobl o’r un oed, neu os oes ganddo anabledd sydd naill ai’n ei atal neu’n ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysg a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer pobl ei oed.

**Rhaglenni a gyllidir yn gyhoeddus**
Yn cael eu cyllido gan Weinidogion Cymru neu gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ac fel rhan o ymrwymiadau polisi.

**Rhestr o Gymwysterau Blaenoriaethol**
Rhestr o gymwysterau a baratowyd ar y cyd gan Gymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru er mwyn nodi’r cymwysterau hynny sy’n arbennig o bwysig i Gymru.

**Corff cydnabyddedig**
Corff dyfarnu sydd wedi’i gydnabod gan Gymwysterau Cymru mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau.

**Cydnabod**
Penderfyniad gan Gymwysterau Cymru bod corff dyfarnu yn bodloni meini prawf yn ddigonol i allu cyflwyno fersiynau o gymwysterau i’w cymeradwyo

neu i'w dynodi gan Gymwysterau Cymru, a chynnig y cymwysterau hynny unwaith y cânt eu cymeradwyo neu eu dynodi. Gellir cydnabod hefyd gymwysterau eraill nad ydynt wedi'u cymeradwyo na'u dynodi. Yn yr achosion hynny, bydd Cymwysterau Cymru yn gallu rheoleiddio'r corff cydnabyddedig sy'n cynnig y cymwysterau hynny o dan ei amodau cydnabod.

**Corff rheoleiddiol**
Corff sydd wedi'i gydnabod mewn perthynas â rheoleiddio cymwysterau, megis Cymwysterau Cymru neu Ofqual.

**Cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig**
Penderfyniad gan Gymwysterau Cymru sy'n nodi nifer y fersiynau o'r cymhwyster hwnnw y bydd Cymwysterau Cymru yn fodlon eu cymeradwyo ar unrhyw adeg.

**Y Cyngor Sgiliau Sector**
Corff annibynnol sy'n gweithredu ledled y DU ac a arweinir gan gyflogwyr. Mae'n gyfrifol am ddatblygu safonau uchel ar gyfer sgiliau, er mwyn hybu cynhyrchiant, elw a thwf, a gwneud marchnadoedd y DU a marchnadoedd tramor yn fwy cystadleuol.

**Manyleb**
Disgrifiad cyflawn - gan gynnwys agweddau gorfodol a dewisol - o gynnwys, trefniadau asesu a gofynion perfformiad cymhwyster.

**Amodau trosglwyddo**
Amod cydnabod arbennig lle gall Cymwysterau Cymru, mewn sefyllfa benodedig, roi cyfarwyddyd i gorff dyfarnu drefnu i gorff arall ddyfarnu fersiwn o gymhwyster a gymeradwywyd neu a ddynodwyd yr oedd y corff cyntaf i fod i'w ddyfarnu yn wreiddiol. Dim ond mewn achosion eithriadol y byddai hyn yn digwydd: rhaid i Gymwysterau Cymru fod yn fodlon bod angen gwneud hyn er mwyn osgoi effeithio'n andwyol iawn ar ddysgwyr sy'n dymuno ennill y cymhwyster dan sylw.

**Cymhwyster blaenoriaethol anghyfyngedig**
Cymhwyster blaenoriaethol nad yw Cymwysterau Cymru wedi pennu y dylid cyfyngu ar nifer y fersiynau ohono a gymeradwyir.

## ***Talfyriadau***

| | |
|---|---|
| **ACCAC** | Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru a oedd yn bodoli cyn 2006 |
| **Safon UG/Uwch** | Y prif gymwysterau cyffredinol (nad ydynt yn alwedigaethol) ar lefel 3 a gymerir rhwng 16 ac 19 oed |

**CCEA** Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu Gogledd Iwerddon

**TGAU** Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

**QQI** Sefydlwyd *Quality and Qualifications Ireland* yn 2012 fel asiantaeth integredig newydd (gan ddisodli’r *Further Education and Training Awards Council*, yr *Higher Education and Training Awards Council* ac Awdurdod Cymwysterau Cenedlaethol Iwerddon, a chan ymgorffori swyddogaethau Bwrdd Ansawdd Prifysgolion Iwerddon). Mae QQI yn gyfrifol am sicrhau ansawdd addysg bellach ac uwch a hyfforddiant yn allanol (gan gynnwys darpariaeth Saesneg), ac mae'n dilysu rhaglenni ac yn creu gwobrau ar gyfer rhai o ddarparwyr y sectorau hyn. Mae QQI hefyd yn gyfrifol am gynnal, datblygu ac adolygu'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

**SQA** Awdurdod Cymwysterau'r Alban yw corff cyhoeddus anadrannol gweithredol Llywodraeth yr Alban sy’n gyfrifol am achredu gwobrau addysgol. Caiff ei gyllido'n rhannol gan Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth yr Alban.

# Atodiad D – Tabl Tarddiadau

Bwriedir i'r ddogfen hon roi cymorth anffurfiol wrth gynnal dadl ar y Bil yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Er bod gofal wedi ei gymryd i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag y bo'n rhesymol ymarferol, nid yw'n honni bod yn awdurdodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel pe bai'n awdurdodol.

Bwriedir i'r tablau atodedig ddarparu gwybodaeth ynghylch tarddiad y darpariaethau ym Mil Cymwysterau Cymru ac maent yn rhestru pan fo darpariaeth bresennol mewn deddfwriaeth gyfredol. Nid ydynt yn darparu canllawiau diffiniol na chyflawn, a dylid eu darllen ar y cyd â'r Bil a'r nodiadau esboniadol ar y Bil.

### Yr Allwedd i'r Byrfoddau

DA 1997: Deddf Addysg 1997
DDS 2000: Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

| BIL CYMWYSTERAU CYMRU – TABL TARDDIADAU | | |
|---|---|---|
| **ADRAN/PARAGRAFF** | **DEDDFWRIAETH BRESENNOL** | **NEWID SYLWEDDOL** |
| **RHAN 1 – TROSOLWG** | | |
| 1 | - | - |
| **RHAN 2 – SEFYDLU A PHRIF NODAU CYMWYSTERAU CYMRU** | | |
| 2 (Sefydlu)<br>3 (Prif nodau) | Newydd<br>Yn ystyried materion yn a.30(1) ac a.32(1) o DA 1997 | -<br>Mwy diffiniedig |
| **RHAN 3 – CYDNABOD CYRFF DYFARNU** | | |
| 4(1) (Cydnabod cyrff dyfarnu) | a.30(1)(e) o DA 1997 | Yn rhannol |
| 4(2) a (3) | Newydd | - |
| 5 (Dyletswydd i osod meini prawf cydnabod cyffredinol) | a.30(1)(d) o DA 1997 | - |
| 6 (Pŵer i osod meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster) | a.30(1)(d) o DA 1997 | Mwy diffiniedig |
| 7 (Diwygio meini prawf cydnabod cyffredinol a meini prawf cydnabod sy'n benodol i | a.30(1)(d) o DA 1997 | - |

| | | |
|---|---|---|
| gymhwyster) | | |
| 8 (Cydnabod corff dyfarnu yn gyffredinol) | a.30(1)(e) o DA 1997 | Mwy diffiniedig |
| 9 (Cydnabod corff dyfarnu mewn ffordd sy'n benodol i gymhwyster) | a.30(1)(e) o DA 1997 | Mwy diffiniedig |
| 10 (Pŵer i wneud rheolau ynghylch ceisiadau am gydnabyddiaeth) | Newydd | - |
| 11 (Darpariaeth bellach ynghylch cydnabyddiaeth) | Newydd | - |
| 12 (Cydnabod: dehongli) | Newydd | - |
| **RHAN 4 – CYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A CHYMERADWYO CYMWYSTERAU** | | |
| 13 (Dyletswydd i lunio rhestr o gymwysterau blaenoriaethol) | Newydd | - |
| 14 (Cymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig) | Newydd ond mae gan a.30(1)(f) o DA 1997 ac a.30(1A) ystyriaethau tebyg | Yn flaenorol roedd system achredu gyffredinol o dan a.30(1)(h) o DA 1997 sydd bellach wedi ei rhannu'n 4 ffordd wahanol o gymeradwyo cymhwyster, gan ddibynnu ar natur y cymhwyster |
| 15 (Pŵer i wneud trefniadau i ddatblygu cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig) | Newydd | |
| 16 (Cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig a ddatblygir yn unol â threfniadau a.15) | Newydd | |
| 17 (Cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol cyfyngedig yn absenoldeb trefniadau a.15) | Newydd | |
| 18 (Cymeradwyo cymhwyster blaenoriaethol anghyfyngedig) | Newydd | |
| 19 (Cymeradwyo cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau blaenoriaethol) | Newydd | |
| 20 (Meini prawf cymeradwyo) | a.30(1)(g) o DA 1997 | |
| 21 (Pŵer i bennu gofynion sylfaenol) | Newydd | |
| 22 (Amodau cymeradwyo) | a.32(3A) o DA 1997 | |

| | | |
|---|---|---|
| 23 (Cyfnod para'r gymeradwyaeth) | Newydd | - |
| 24 (Rheolau ynghylch ceisiadau am gymeradwyaeth) | Newydd | - |
| 25 (Ildio cymeradwyaeth) | Newydd | - |
| 26 (Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad ag ildio cymeradwyaeth) | Newydd | - |
| 27 (Tynnu cymeradwyaeth yn ôl) | Newydd | Mae a.32B(3) a (4) o DA 1997 yn debyg o ran methiant i gydymffurfio ag amodau achredu, ond y canlyniad yw tynnu cydnabyddiaeth yn ôl yn hytrach nag achrediad. |
| 28 (Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â thynnu cymeradwyaeth yn ôl) | Newydd | - |
| **RHAN 5 – DYNODI CYMWYSTERAU ERAILL** | | |
| 29 (Dynodi cymwysterau eraill) | Newydd | - |
| 30 (Darpariaeth bellach ynghylch dynodiadau adran 29) | Newydd | - |
| 31 (Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â dynodiadau adran 29) | Newydd | - |
| 32 Dirymu dynodiadau adran 29 | Newydd | - |
| **RHAN 6 – DARPARIAETH BELLACH SY'N BERTHNASOL I GYDNABOD A CHYMERADWYO** | | |
| 33 (Cyfyngu ar gyllido a darparu cyrsiau penodol) | a.96, 99, 100 a 102 o DDS 2000 | Yn rhannol. Yn benodol, mae diwygiadau yn eithrio o'r cyfyngiad cyllido cyffredinol 1. cyrsiau addysg neu hyfforddiant a ddarperir i bersonau ag anableddau dysgu, a 2. cyrsiau sydd wedi eu dynodi gan Weinidogion |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cymru (pa un ai yn gyffredinol mewn cysylltiad â chwrs neu ddisgrifiad o gwrs, neu mewn cysylltiad â pherson neu ddisgrifiad o berson, neu mewn cysylltiad ag amgylchiadau penodol). |
| 34 (Dyfarnu cymhwyster a gymeradwywyd yng Nghymru: cyfyngu ar gymhwyso amodau a osodir gan Ofqual) | Newydd | |
| 35 (Cyfyngu ar gymhwyso amodau a osodir gan Gymwysterau Cymru) | Newydd | |
| **RHAN 7 – PWERAU GORFODI CYMWYSTERAU CYMRU** | | |
| 36 (Pŵer i roi cyfarwyddydau) | | |
| (1) methiant neu fethiant tebygol i gydymffurfio ag amodau cydnabod | a.32A(1) o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach |
| (2) methiant neu fethiant tebygol i gydymffurfio ag amodau cymeradwyo | a.32A(2) o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach |
| 37 (Pŵer i osod cosbau ariannol) | a.32AA a 32AB o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach |
| 38 (Cosbau ariannol: apelau) | a.32AC o DA 1997 | |
| 39(Cosbau ariannol: llog) | a.32AD o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach |
| 40 (Adennill costau ar gyfer gosod sancsiynau) | a.32BA o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach |
| 41 (Adennill costau: apelau) | a.32BB o DA 1997 | |
| 42 (Costau: llog) | a.32BC o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach |
| 43 (Mynd i mewn i fangre a'i harolygu) | Pŵer newydd sy'n sefyll ar ei ben ei hun ond mae darpariaeth debyg yn a.32(4)(b) o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach/gorchymyn llys yn ofynnol |

| | | |
|---|---|---|
| **RHAN 8 – ATODOL** | | |
| 44 (Darparu gwasanaethau etc gan Gymwysterau Cymru) | Newydd | - |
| 45 (Adolygu ac ymchwil) | a.30(1)(a) o DA 1997 (adolygu) ac a.30(1)(c) o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach |
| 46 (Datganiad polisi a datganiad ynghylch ymgynghori) | Newydd | |
| 47 (Cwynion) | Newydd | |
| 48 (Cynllun codi ffioedd) | Newydd ond yn tarddu’n rhannol o s.32(3) o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach |
| 49 (Grantiau) | Newydd | |
| 50 (Darparu gwybodaeth neu gyngor) | Newydd | |
| 51 (Cydweithio) | a.32ZA(1) o DA 1997 | |
| 52 (Dyletswydd i roi sylw i bolisi llywodraeth a materion eraill) | Newydd | |
| 53 (Cyflawni gweithgareddau rheoleiddiol gan Gymwysterau Cymru) | Newydd | |
| **RHAN 9 – CYFFREDINOL** | | |
| 54 (Rheoliadau) | Newydd ac yn tarddu’n rhannol o a.32AB o DA 1997 | |
| 55 (Dehongli cyfeiriadau at “cymhwyster”) | a.30(5)-(5C) o DA 1997 | |
| 56 (Dehongli cyffredinol a mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio) | Newydd ond mae rhai diffiniadau wedi eu diffinio eisoes mewn Deddfau Addysg eraill, sef Deddf Addysg 1996. | |
| 57 (Diwygiadau canlyniadol) | Newydd | |
| 58 (Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc) | Newydd | |
| 59 (Dod i rym) | Newydd | |
| 60 (Enw byr etc) | Newydd | |

| | | |
|---|---|---|
| **ATODLEN 1 – CYMWYSTERAU CYMRU** | | |
| Rhan 1<br>Paragraffau 1-16, 27-35<br>Paragraffau 17-22 | Newydd<br>a.32ZA(3)-(12) o DA 1997 | |
| Rhan 2<br>Paragraffau 36-40 | Newydd | |
| **ATODLEN 2 – TROSGLWYDDO EIDDO A STAFF I GYMWYSTERAU CYMRU** | | |
| Paragraffau 1-5 | Newydd | |
| **ATODLEN 3 – DARPARIAETH BELLACH YNGHYLCH CYDNABOD CYRFF DYFARNU** | | |
| Paragraffau 1(1) ac 1(2)(c)<br>Paragraff 1(2)(a)-(b) | Newydd<br>a.32B a 32C o DA 1997 | |
| Paragraffau 2-6 | a.32(3)-(4) o DA 1997 | |
| Paragraffau 8-16 | Newydd | |
| Paragraff 17 | a.32C o DA 1997 | |
| Paragraff 18 | Newydd | |
| Paragraffau 19-23 | a.32B o DA 1997 | Gwneir darpariaeth fanylach |
| **ATODLEN 4 – DIWYGIADAU CANLYNIADOL** | | |
| Paragraffau 1-7 | Newydd | |